

# Cynllun Datblygu Lleol Powys (CDLl)

# Adroddiad Monitro Blynyddol 2023

## 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

## Penodau:

**CRYNODEB GWEITHREDOL** ........ **7**
CANFYDDIADAU ALLWEDDOL AR GYFER Y CYFNOD MONITRO AMB HWN: ........ 8
DANGOSYDDION MONITRO SY'N GOFYN AM GAMAU GWEITHREDU YCHWANEGOL ........ 10
CRYNODEB O'R CASGLIADAU A'R ARGYMHELLION ........ 13
**1. CYFLWYNIAD** ........ **14**
**2. DADANSODDI NEWID/DANGOSYDDION CYD-DESTUNOL ARWYDDOCAOL** ........ **15**
2.1 CYD-DESTUN CENEDLAETHOL ........ 15
2.2 LLYTHYRAU'R PRIF SWYDDOG CYNLLUNIO A LLYTHYRAU CNC ........ 20
2.3 Y CYD-DESTUN RHANBARTHOL ........ 22
2.4 Y CYD-DESTUN LLEOL ........ 24
**3. DANGOSYDDION CYD-DESTUNOL** ........ **27**
**4. DADANSODDI DANGOSYDDION CRAIDD/ALLWEDDOL** ........ **35**
THEMA 1 — CYNLLUNIO AR GYFER TWF MEWN MANNAU CYNALIADWY ........ 36
Amcan 2 - Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy ........ 58
Amcan 4 — Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd ........ 62
**5. DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION LLEOL** ........ **65**
THEMA 1 — CYNLLUNIO AR GYFER TWF MEWN MANNAU CYNALIADWY ........ 66
Amcan 2 — Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy ........ 84
Amcan 3 — Defnyddio Tir mewn Ffordd Effeithlon ........ 92
Amcan 4 — Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd ........ 102
Amcan 5 — Ynni a Dŵr ........ 105
THEMA 2 — CEFNOGI ECONOMI POWYS ........ 116
Amcan 7 — Sectorau Economaidd Allweddol ........ 128
THEMA 3 — CEFNOGI'R SEILWAITH A GWASANAETHAU ........ 134
Amcan 10 — Asedau Pwysig ........ 137
THEMA 4 — GWARCHOD ASEDAU NATURIOL, ADEILEDIG A HANESYDDOL ........ 141
Amcan 12 — Adnoddau ........ 145
Amcan 13 — Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol ........ 150
THEMA 5 — CEFNOGI CYMUNEDAU IACH ........ 161
Amcan 15 — Y Gymraeg a Diwylliant Cymreig ........ 167
Amcan 16 — Llesiant y gymuned ........ 170
**6. CANLYNIADAU DANGOSYDDION YR AAS** ........ **173**
Pwnc yr AAS: Bioamrywiaeth ........ 174
Pwnc yr AAS: Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol ........ 179
Pwnc yr AAS: Pridd ........ 191
Pwnc yr AAS: Dŵr ........ 197
Pwnc yr AAS: Aer ........ 201

Pwnc yr AAS: Ffactorau hinsawdd ....206
Pwnc yr AAS: Adnoddau ac Asedau Strategol ....211
Pwnc yr AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol ....216
Pwnc yr AAS: Y Dirwedd....229
Pwnc yr AAS: Geoamrywiaeth ....233

**6. CASGLIAD AC ARGYMHELLION .... 236**

7.1 NEWIDIADAU CYD-DESTUNOL ....236
7.2 ARGYMHELLION A CHANFYDDIADAU SY'N DEILLIO O'R DANGOSYDDION MONITRO ....237

## Atodiadau:

ATODIAD 1 – TABL 19 DYRANIADAU TAI
ATODIAD 2 – TABL 20 YMRWYMIADAU TAI

## Tablau:

TABL 1. CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R 62 O DDANGOSYDDION MONITRO A GYNHWYSWYD YN YR AMB YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO....7

TABL 2. DANGOSYDDION MONITRO Y MAE'N OFYNNOL MYND I'R AFAEL Â MATERION STRATEGAETH / POLISI YN RHAN O BROSES ADOLYGU Y CDLL ....10

TABL 3. DANGOSYDDION MONITRO SY'N GOFYN AM YMCHWIL YCHWANEGOL....12

TABL 4. CRYNODEB O'R ASESIAD MONITRO A CHAMAU GWEITHREDU LLAWLYFR CYNLLUNIAU DATBLYGU (RHIFYN 3)....14

TABL 5. NIFER A CHANRAN Y BOBL YM MHOWYS YN ÔL EU GWEITHGARWCH ECONOMAIDD NAILL AI'N DDI-WAITH, YN ECONOMAIDD ANWEITHGAR NEU'N ECONOMAIDD WEITHGAR (GAN GYNNWYS PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG). ....29

TABL 6. NIFER YR ACHOSION O DDIGARTREFEDD YM MHOWYS (GAN GYNNWYS PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG)....31

TABL 7. Y PRIS TŶ CYFARTALOG BLYNYDDOL A GYMERWYD O FFIGUR MYNEGAI PRISIAU TAI Y GOFRESTRFA TIR AR GYFER POWYS (GAN GYNNWYS PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG) ....33

TABL 8. NIFER NET Y TAI A GWBLHAWYD FESUL BLWYDDYN O'I GYMHARU Â FFIGUR Y GOFYNIAD CYFARTALOG BLYNYDDOL....40

TABL 9. (21A) Y LLWYBR TAI AR 1 EBRILL 2023....41

TABL 10. Y NIFER CRONNOL GWIRIONEDDOL A GWBLHAWYD O'I GYMHARU Â'R TARGED CRONNOL AR GYFER CWBLHAU ANEDDIADAU....44

TABL 11. Y NIFER CRONNOL GWIRIONEDDOL O ANHEDDAU FFORDDIADWY A GWBLHAWYD O'I GYMHARU Â'R TARGED CRONNOL AR GYFER CWBLHAU ANHEDDAU ....47

TABL 12. NIFER Y TAI FFORDDIADWY A GWBLHAWYD FESUL DEILIADAETH....50

TABL 13. Y CYFRANIADAU TAI FFORDDIADWY CYFARTALOG A SICRHAWYD O'U CYMHARU Â'R CYFRANIAD TARGED AR GYFER YR ARDAL ISFARCHNAD YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO. ....52

TABL 14. SWM Y TIR CYFLOGAETH A GANIATAWYD AR SAFLEOEDD CYFLOGAETH WEDI EU DYRANNU ERS I'R CDLL GAEL EI FABWYSIADU....57

TABL 15. NIFER NET YR ANHEDDAU YCHWANEGOL A DDARPARWYD YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO AC ERS DYDDIAD SYLFAEN DARPARIAETH DAI Y CDLL O'U CYMHARU Â'R TARGEDAU HIERARCHAETH ANEDDIADAU YM MHOLISI SP6 Y CDLL. ....60

TABL 16. CYDSYNIADAU CYNLLUNIO PRESWYL A GANIATAWYD AR SAFLEOEDD A DDYRANNWYD AR GYFER TAI YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO. ....69

TABL 17. YR ANHEDDAU CRONNUS GWIRIONEDDOL AR SAFLEOEDD TAI A DDYRANNWYD YN ERBYN Y TARGED CWBLHAU CRONNUS AR GYFER SAFLEOEDD TAI A DDYRANNWYD. ....71

TABL 18. YR UNEDAU TAI FFORDDIADWY A SICRHAWYD FESUL MATH YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO. ....77

TABL 19. NIFER YR UNEDAU TAI FFORDDIADWY A GANIATEIR FESUL DEILIADAETH YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO....79

TABL 20. NIFER NET YR ANHEDDAU A GANIATAWYD YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO AC ERS I'R CDLL GAEL EI FABWYSIADU O'I GYMHARU Â'R TARGEDAU HIERARCHAETH ANEDDIADAU YM MHOLISI STRATEGOL SP6 Y CDLL. ....86

TABL 21. NIFER YR ANHEDDAU NEWYDD A GAFODD GANIATÂD CYNLLUNIO MEWN PENTREFI BACH YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO....88

TABL 22. DOSBARTHIAD Y TIR CYFLOGAETH A GANIATAWYD YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO AR DRAWS YR HIERARCHAETH ANEDDIADAU, YNGHYD Â'R CYFANSYMIAU CRONNOL ERS MABWYSIADU'R CDLL. ....90

TABL 23. DWYSEDD Y DATBLYGIAD CYFARTALOG A GANIATAWYD YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO FESUL HAEN ANEDDIADAU / MATH O DDATBLYGIAD ....99

TABL 24. CEISIADAU A GANIATAWYD YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO, AR GYFER DATBLYGIADAU CYFLOGAETH AR SAFLEOEDD HEB EU DYRANNU MEWN CEFN GWLAD AGORED YN ERBYN POLISI CDLL. ....122

TABL 25. CEISIADAU I NEWID DEFNYDD A GANIATAWYD MEWN PRIF BARTH MANWERTHU NEU BARTH MANWERTHU EILAIDD YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO. ....126

TABL 26. DOGFENNAETH A GYFLWYNWYD SY'N MANYLU AR YSTYRIAETH TIRWEDD AR GYFER CEISIADAU MAWR MEWN CEFN GWLAD AGORED YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO. ....157

TABL 27. CANIATÂD CYNLLUNIO A GANIATAWYD AR GYFER NEWID DEFNYDD CYFLEUSTERAU NEU WASANAETHAU CYMUNEDOL A OEDD EISOES YN BODOLI FESUL HAEN ANEDDIADAU YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO....172

TABL 28. CYFLWR DANGOSOL NODWEDDION CADWRAETH YM MHOWYS NEU O FEWN 15 CILOMETR I'W FFIN....176

TABL 29. DISGWYLIAD OES AC IECHYD AR ENEDIGAETH ....181

TABL 30. CANRAN Y BOBLOGAETH OEDRAN GWEITHIO I BLANT A'R BOBLOGAETH YMDDEOLEDIG YM MHOWYS (AMCANGYFRIFON CANOL BLWYDDYN 2018, 2019 A 2020 A'R CYFRIFIAD 2021). ....183

TABL 31. CANRAN Y BOBLOGAETH 75 OED A HŶN (AMCANGYFRIFON CANOL BLWYDDYN 2018, 2019 A 2020 A'R CYFRIFIAD 2021). ....183

TABL 32. MEWNLIF NET O OEDOLION IAU (RHWNG 20 A 34 OED) I BOWYS (2018, 2019 AC AMCANGYFRIFON CANOL BLWYDDYN 2020). .... 184

TABL 33. CYFANSWM Y DAMWEINIAU FFORDD A GOFNODWYD GAN YR HEDDLU SY'N YMWNEUD AG ANAF PERSONOL YM MHOWYS. .... 186

TABL 34. NIFER YR ANAFIADAU MEWN DAMWEINIAU FFORDD FESUL DIFRIFOLDEB YM MHOWYS. .... 186

TABL 35. NIFER Y TROSEDDAU A GOFNODWYD GAN YR HEDDLU YM MHOWYS. .... 188

TABL 36. CANRAN Y TIR MAES GLAS Y TU ALLAN I FFINIAU DATBLYGU LLE CANIATEIR DATBLYGU. .... 195

TABL 37. CANRAN Y CYRFF DŴR SYDD Â STATWS 'DA' YN ARDAL CDLL POWYS. .... 199

TABL 38. Y LEFELAU CYFARTALOG O GRYNODIADAU $NO_2$, DEUNYDD GRONYNNOL 2.5 A DEUNYDD GRONYNNOL 10 (MEWN $MG/M^3$) (A GOFNODWYD AR FFURF DANGOSYDDION CYSYLLTIAD ANSAWDD AER) LEDLED POWYS. .... 203

TABL 39. Y CRYNODIADAU CYMEDRIG BLYNYDDOL O $NO_2$ (MEWN $MG/M^3$) MEWN SAFLEOEDD MONITRO YM MHOWYS, FESUL BLWYDDYN ERS 2013 .... 205

TABL 40. ALLYRIADAU CARBON DEUOCSID, A FYNEGIR AR FFURF KT $CO_2$, YM MHOWYS AR GYFER BLWYDDYN 2019 .... 210

TABL 41. CYFANSWM Y DYNODIADAU AMGYLCHEDD HANESYDDOL YM MHOWYS, 2021 I 2022 .... 218

TABL 42. CANRAN YR HENEBION COFRESTREDIG YN CDLL POWYS SYDD MEWN CYFLWR SEFYDLOG NEU'N GWELLA. .... 220

TABL 43. CANRAN YR ADEILADAU RHESTREDIG SYDD 'MEWN PERYGL', 'YN AGORED I NIWED' NEU WEDI EU DOSBARTHU FEL 'DDIM MEWN PERYGL' YM MHOWYS (2015). .... 222

TABL 44. CANRAN YR ADEILADAU RHESTREDIG YM MHOWYS FESUL SGÔR RISG (2015). .... 222

TABL 45. CANRAN Y SIARADWYR CYMRAEG YM MHOWYS (CYFRIFIAD 2011 A 2021). .... 224

TABL 46. NIFEROEDD A CHANRANNAU POBL Â SGILIAU CYMRAEG YM MHOWYS. .... 226

TABL 47. CANRAN POBLOGAETH POWYS, SY'N DAIR OED NEU'N HŶN, SY'N GALLU SIARAD CYMRAEG .... 228

TABL 48. CANRANNAU Y MEYSYDD AGWEDD SYDD YN ARDAL Y CYNLLUN Y PENNWYD BOD EI HANSAWDD YN 'UCHEL' NEU'N 'EITHRIADOL', NEU SY'N CROESI AR EI THRAWS. .... 232

## Ffigurau:

FFIGUR 1: LLWYBR DATBLYGU TAI 2011–2026 AR 1 EBRILL 2023 .... 42

FFIGUR 2. SIART SY'N DANGOS NIFER YR ANHEDDAU YCHWANEGOL ERS DYDDIAD SYLFAEN Y DDARPARIAETH DAI YM MIS EBRILL 2015 O'I GYMHARU Â'R GOFYNIAD ANHEDDAU YCHWANEGOL NET .... 45

FFIGUR 3. SIART SY'N DANGOS Y CYFRADDAU DARPARU TAI FFORDDIADWY O'U CYMHARU Â'R TARGEDAU BLYNYDDOL. .... 48

FFIGUR 4. SIART YN DANGOS LLEOLIAD DATBLYGIADAU AR HAP A GANIATAWYD MEWN HECTARAU AR DRAWS YR HIERARCHAETH ANEDDIADAU FESUL TIR A DDATBLYGWYD YN FLAENOROL / TIR MAES GLAS. .... 95

FFIGUR 5. SIART YN DANGOS CANRAN YR ARWYNEBEDD A GANIATAWYD AR GYFER CYNIGION DATBLYGU GWAHANOL AR DIR GLAS MEWN CEFN GWLAD AGORED ................................................ 95

FFIGUR 6. SIART YN DANGOS NIFER Y CEISIADAU CYNLLUNIO A GANIATAWYD YN YSTOD CYFNOD MONITRO AR SAFLEOEDD CYFLOGAETH HEB EU DYRANNU FESUL HIERARCHAETH ANEDDIADAU A'R MATH O DDATBLYGIAD........................................................................................................................ 122

FFIGUR 7. SIART SY'N DANGOS CYFANSWM Y MATH A NIFER YR UNEDAU LLETY A GANIATAWYD YN YSTOD Y CYFNOD MONITRO. ....................................................................................................... 130

## Crynodeb Gweithredol

Hwn yw'r pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Powys. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ac fe'i rhagflaenir gan yr AMB ar gyfer 2022 (1 Ebrill 2021 I 31 Mawrth 2022), 2021 (1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021) a 2020 (1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020) ac Adolygiad Monitro 2019 (sy'n cwmpasu'r cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun, sef 17 Ebrill 2018, hyd at 31 Mawrth 2019).

Yn dilyn canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (AMB 2021), cynhaliwyd adolygiad o'r CDLl, a chyhoeddwyd y canfyddiadau yn Adroddiad Adolygu'r CDLl y cytunwyd arno gan y Cyngor ym mis Chwefror 2022. Pennodd y casgliadau a amlinellir yn yr Adroddiad Adolygu mai'r weithdrefn Diwygiad Llawn yw'r ffordd mwyaf priodol o adolygu ar gyfer CDLl mabwysiedig Powys (2011-2026). Mae hyn yn golygu y bydd angen paratoi CDLl newydd ar gyfer cyfnod 2022–2037. Bydd hyn yn sicrhau y gellir parhau i wneud penderfyniadau lleol yn effeithiol wrth gynllunio ar ôl "dyddiad gorffen" y CDLl mabwysiedig, sef 31 Mawrth 2026. Dechreuodd y gwaith paratoi ym mis Gorffennaf 2022 ar y CDLl Newydd yn dilyn cyhoeddi Cytundeb Cyflawni, sy'n cynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau. Ynghyd â'r Adroddiad Adolygu, bydd canfyddiadau'r AMB hwn ac AMBau dilynol yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o baratoi'r CDLl Newydd.

Esbonnir y Fframwaith Monitro a diben yr AMB ym Mhennod 5 o CDLl Powys.

Mae pob AMB yn darparu asesiad o ba un a yw'r strategaeth CDLl sylfaenol yn parhau i fod yn gadarn, effaith polisïau ar lefel leol ac ehangach, ac a yw polisïau a thargedau cysylltiedig wedi eu cyflawni neu pa gynnydd a wneir tuag at eu cyflawni nhw. Mae'r AMB yn rhoi cyfle i gasglu'r newidiadau cyd-destunol a'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol neu ddiwylliannol sy'n bodoli ers mabwysiadu'r Cynllun a allai effeithio ar gyflawni amcanion y polisi ac felly'n mae'n datblygu sylfaen dystiolaeth dros amser.

Mae'r AMB yn cynnwys cyfanswm o 62 o ddangosyddion monitro a ddefnyddir i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Ceir crynodeb byr o ganlyniad gwaith monitro eleni isod:

### Tabl 1. Crynodeb o'r Camau Gweithredu o'r 62 o Ddangosyddion Monitro a Gynhwyswyd yn yr AMB yn ystod y Cyfnod Monitro

| | |
|---|---|
| **Parhau i Fonitro** | 33 — Parhau i Fonitro<br>9 — Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Mabwysiedig |
| **Hyfforddiant yn Ofynnol** | 0 |
| **CCA yn Ofynnol** | 0 |
| **Ymchwil Ychwanegol yn Ofynnol** | 3 |
| **Adolygiad Polisi yn Ofynnol** | 7 |
| **Adolygiad o'r Cynllun** | 4 |
| **Nid yw'n Berthnasol i'r cyfnod AMB hwn neu mae wedi ei ddisodli** | 6 |

## Canfyddiadau Allweddol ar gyfer y Cyfnod Monitro AMB hwn:

Mae Adran 2 o'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, sef y "Dadansoddiad o Newidiadau / Dangosyddion Cyd-destunol Sylweddol", yn nodi bod cynnig i ddatgan Argyfwng Natur wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Sir Powys mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 13 Hydref 2022. Bydd hwn yn un o'r materion allweddol (ynghyd â'r Argyfwng Hinsawdd y manylwyd arno yn yr AMB blaenorol (AMB 2022)) i'w hystyried a rhoi sylw iddynt wrth baratoi'r CDLl Newydd. Ym mis Chwefror 2023, mabwysiadodd y Cyngor Llawn y 'Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol' 2023-2027 hefyd, gydag uchelgeisiau ar gyfer Powys Gryfach, Gwyrddach a Thecach. Mae'r ddogfen yn disodli Gweledigaeth 2025 ac yn nodi'r blaenoriaethau llesiant ar gyfer Cyngor Sir Powys am y pum mlynedd nesaf a pha gamau sydd eu hangen i'w cyflawni. Bydd hyn, ynghyd â'r Cynllun Llesiant Lleol (2040: Powys Deg, Cynaliadwy ac Iach), unwaith eto yn llywio'r materion a'r amcanion y mae'r CDLl Newydd yn ceisio mynd i'r afael â hwy.

Canfu canlyniadau Adran 3 yr adroddiad monitro hwn, y "Dangosyddion Cyd-destunol", fod cyfraddau digartrefedd yn ardal y Cynllun wedi parhau i godi yn ystod y cyfnod monitro o 272 o achosion pellach. Mae achosion digartrefedd yn amrywiol ac nid yn syml; effeithir ar gyfraddau digartrefedd gan yr argyfwng costau byw, ond hefyd gan y ffaith bod prisiau tai cyfartalog ym Mhowys wedi bod yn cynyddu ar gyfradd uwch na'r incwm cyfartalog ac yn parhau, fel gyda'r cyfnod monitro blaenorol, i fod yn anghymesur â'i gilydd. Mae'r bwlch fforddiadwyedd tai ym Mhowys, felly, yn parhau i ehangu. Bydd Asesiad newydd o'r Farchnad Dai Leol 2022, a fydd yn seiliedig ar fethodoleg a chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru, yn ystyried data prisiau tai ac incwm aelwydydd. Bydd canlyniadau'r asesiad hwn yn darparu tystiolaeth o'r angen am dai ar draws ardal CDLl Powys ac yn lleol ar lefel Ardal Marchnad Dai, a fydd yn cael ei defnyddio i lywio strategaeth a pholisïau tai fforddiadwy'r CDLl Newydd.

O'r "Dadansoddiad o Ddangosyddion Craidd / Allweddol" (Adran 4) canfuwyd bod cyfanswm o 339 o gartrefi newydd ychwanegol wedi'u cwblhau yn y cyfnod monitro. Mae'r ffigur hwn yn welliant parhaus ar flynyddoedd cynnar y cynllun ac yn uwch na'r gofyniad anheddau ychwanegol net blynyddol o 300 o gartrefi ychwanegol y flwyddyn a nodir yn y CDLl. Gyda'i gilydd, mae 2,809 o gartrefi newydd wedi'u darparu ers dyddiad cychwyn y CDLl mabwysiedig yn 2011. Nod y Cynllun oedd cyflawni cynnydd cyffredinol o 4,500 o anheddau (a elwir yn ffigwr gofyniad anheddau) yn ystod y cyfnod 15 mlynedd. Mae'r 2,809 o gartrefi newydd ychwanegol yn cynrychioli 62% yn unig o darged tai cyffredinol y CDLl. Gyda thair blynedd o'r CDLl mabwysiedig yn weddill, mae'n annhebygol y bydd y diffyg o 1,691 o unedau tai yn cael ei gyflawni erbyn 2026. I wneud iawn am berfformiad arafach mewn blynyddoedd cynharach, byddai angen cyflawni cyfradd gwblhau gyfartalog o 564 o gartrefi'r flwyddyn.

O'r 339 o gartrefi newydd ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod monitro, roedd 124 o'r rhain ar gyfer cartrefi fforddiadwy. Mae hyn yn dangos cynnydd parhaus yn y ddarpariaeth o dai fforddiadwy dros y tri chyfnod monitro diwethaf. Mae hyn yn golygu, ers dyddiad cychwyn y Cynllun yn 2011, fod 832 o gartrefi fforddiadwy wedi'u darparu erbyn 31 Mawrth 2023, sy'n cynrychioli 87% o darged y CDLl o 952 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol newydd. Gan gymryd i ystyriaeth nifer y tai fforddiadwy sydd wedi cael caniatâd cynllunio, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hadeiladu, rhagwelir y bydd y targed yn cael ei gyrraedd.

Canfu dadansoddiad pellach o'r data cwblhau tai fod 290 (86%) o'r cartrefi newydd ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod monitro, wedi'u lleoli ar safleoedd ar hap-safleoedd (sydd heb eu dyrannu), sy'n cyfrannu'n gryf at y cyflenwad o gartrefi newydd. Ni chwblhawyd unrhyw gartrefi newydd ychwanegol ar safleoedd tai a neilltuwyd, er gwaethaf ffigur targed o 325 o anheddau yn ystod y cyfnod monitro. Er bod digon o dir wedi'i ddyrannu

yn y CDLl i fodloni'r gofyniad tai a nodwyd, nid yw safleoedd yn dod ymlaen ac yn symud ymlaen fel y rhagwelwyd. Mae 81 o safleoedd tai wedi'u dyrannu yn y CDLl, ac nid oes gan 53 (65%) ohonynt unrhyw fath o ganiatâd cynllunio.

Canfu dadansoddiad o ganiatadau cynllunio a roddwyd yn ystod y cyfnod monitro fod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 366 o gartrefi newydd ychwanegol, gyda 141 o'r rhain yn cael eu dosbarthu fel rhai fforddiadwy. Mae Trefi a Phentrefi Mawr ar frig yr hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy a hwy yw'r lleoliad ar gyfer 79% o'r cartrefi newydd ychwanegol a ganiateir yn ystod y cyfnod monitro, sy'n cyd-fynd â Strategaeth Ofodol y Cynllun.

Canfu canlyniadau'r dangosyddion monitro sy'n ymwneud â thir cyflogaeth fod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn ystod y cyfnod monitro ar 4.038 ha o dir ar gyfer defnydd cyflogaeth (B1, B2 a B8), sy'n golygu bod cyfanswm o 28.194 ha wedi'i roi ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. O'r 4.038 ha a ganiatawyd, roedd 2.761 ha (dau gais cynllunio) wedi'u lleoli ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd. Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn hefyd wedi canfod bod safleoedd cyflogaeth a ddiogelir yn cael eu diogelu ar gyfer defnydd cyflogaeth yn unol â pholisi.

Canfu dadansoddiad o ddangosyddion monitro yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy, yn ystod y cyfnod monitro, fod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 7.0243 MW o drydan adnewyddadwy, di-garbon neu garbon isel. Ers mabwysiadu'r CDLl, (2018) mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer cyfanswm o 45.188 MW o gynhyrchu ynni, sy'n cyfateb i 73% o'r cyfraniad ynni a ragwelir o 61.7 MW y manylir arno yn y CDLl.

Gan barhau â'r thema o adroddiadau monitro blynyddol blaenorol, nododd dangosyddion monitro fod cynigion ar gyfer datblygu twristiaeth yn parhau'n gryf. Yn ystod y cyfnod monitro hwn, cafodd 95 o geisiadau am ddatblygiadau twristiaeth ganiatâd cynllunio, ac roedd pob un yn unol â Pholisi TD1 y CDLl mabwysiedig. Roedd y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd yn cyfateb i gyfanswm o 241 o unedau llety twristiaeth (yr oedd 34% ohonynt yn gabanau). Mae'n nodedig bod 78% o'r ceisiadau twristiaeth a ganiatawyd yng Nghefn Gwlad Agored, gyda 74 o geisiadau am ddatblygiadau ar safleoedd maes glas.

Yn yr adroddiad hwn, ceir asesiad manwl o berfformiad y CDLl o'i gymharu ag amcanion monitro yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) (gweler Adran 6), sy'n cynnwys monitro 34 o ddangosyddion ar draws sawl maes pwnc. Mae'r Adroddiad Adolygu yn crynhoi prif ganfyddiadau monitro yr AAS, gan nodi'r prif faterion a'r tueddiadau sydd wedi dod i'r amlwg ers mabwysiadu'r CDLl. Mae tueddiadau tuag at boblogaeth sy'n heneiddio wedi parhau yn ystod y cyfnod monitro hwn, tra bod canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos gostyngiad yn y defnydd o sgiliau Cymraeg ers 2011. Bydd fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS yn cael ei adolygu yn rhan o'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig sy'n angenrheidiol wrth lywio'r gwaith o baratoi'r CDLl Newydd.

## Dangosyddion Monitro sy'n Gofyn am Gamau Gweithredu Ychwanegol

Mae mwyafrif (33) y dangosyddion yn parhau i ddangos gweithrediad polisi cadarnhaol, ac mae naw arall yn dangos bod CCA wedi eu mabwysiadu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae rhai targedau dangosyddion nad ydynt yn cael eu cyflawni (14) ac felly mae trothwyon wedi eu cyrraedd. Mae hyn yn dangos bod polisïau CDLl nad ydynt yn gweithio fel y bwriadwyd; yn yr achosion hyn mae'r monitro wedi argymell camau gweithredu, gan gynnwys adolygu polisïau mewn rhai achosion.

Mae un ar ddeg dangosydd monitro y mae'n ofynnol mynd i'r afael â materion strategaeth / polisi. Cynhelir hyn yn ystod y broses o baratoi'r CDLl Newydd. Yr un ar ddeg dangosydd monitro yw:

### Tabl 2. Dangosyddion Monitro y mae'n Ofynnol Mynd i'r Afael â Materion Strategaeth / Polisi yn rhan o Broses Adolygu y CDLl

| Cyfeirnod: | Dangosydd Monitro | Polisïau CDLl Perthnasol |
|---|---|---|
| **AMB2a** | Caiff lefel flynyddol y tai a gwblhawyd ei monitro o'i chymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. | Polisi Strategol SP1 — Y Cynnydd Tai |
| **AMB2b** | Y cyfanswm cronnol a gwblheir sy'n cael ei fonitro o'i gymharu â'r gyfradd gronnol a ragwelir ar gyfer nifer y tai a gwblhawyd. | Polisi Strategol SP1 — Y Cynnydd Tai |
| **AMB4** | Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd (Dyraniadau Tai) fel canran o'r ddarpariaeth tai cyffredinol. | Polisi Strategol SP1 — Y Cynnydd Tai<br>Polisi sy'n Seiliedig ar Bwnc H2 — Safleoedd Tai |
| **AMB5** | Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd ar Ddyraniadau Tai. | Polisi Strategol SP1 — Y Cynnydd Tai<br>Polisi sy'n Seiliedig ar Bwnc H2 — Safleoedd Tai |
| **AMB9** | Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol (dichonoldeb datblygu tai) ar draws y pedair ardal is farchnad, o'u cymharu â'r gwerthoedd gweddilliol a ddefnyddir yn y Diweddariad ar Asesiad Dichonoldeb (Awst 2016). | Polisi Strategol SP3 – Targed Tai Fforddiadwy<br>Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H5 — Cyfraniadau at Dai Fforddiadwy |
| **AMB16** | Datblygiad manwerthu hyd at 1,000 metr sgwâr net a ganiateir ac a ddarperir ar ran o'r safle defnydd cymysg a ddyrannwyd o dan Bolisi R2. | Polisi Strategol SP4 — Y Cynnydd Manwerthu<br>Polisi sy'n Seiliedig ar Bwnc R2 — Dyraniadau Manwerthu |

| Cyfeirnod: | Dangosydd Monitro | Polisïau CDLl Perthnasol |
|---|---|---|
| **AMB21** | Y dwysedd cyffredinol cyfartalog (unedau fesul hectar) a ganiateir mewn cysylltiad â datblygiadau tai mewn Trefi, Pentrefi Mawr, Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig.. | Polisi sy'n Seiliedig ar Bwnc H4 — Dwysedd Tai |
| **AMB27** | Y capasiti ychwanegol (MW) o ddatblygiadau solar ffotofoltäig a osodir a ganiateir mewn Awdurdodau Goruchwylio Lleol fesul blwyddyn. | Polisi sy'n Seiliedig ar Bwnc RE1 — Ynni Adnewyddadwy |
| **AMB28** | Nifer y cynlluniau gwresogi cymunedol/dosbarth a ganiateir o dan Bolisi DM13 (maen prawf 15) fesul blwyddyn. | Polisi Rheoli Datblygiad DM13 — Dylunio ac Adnoddau |
| **AMB36** | Nifer y datblygiadau a ganiateir mewn Canol Trefi, a fyddai'n arwain at lai na:<br>75% o unedau Prif Ffryntiad Siopa;<br>66% o unedau mewn Ffryntiad Siopa Eilaidd;<br>ar gyfer defnyddiau A1 ac A3. | Polisi sy'n Seiliedig ar Bwnc R3 — Datblygu Mewn Ardaloedd Canol Trefi |
| **AMB59** | Nifer y datblygiadau a ganiateir sy'n arwain at golli cyfleuster hamdden cymunedol neu dan do sydd eisoes yn bodoli, neu siop gymdogaeth/pentref, tafarn neu wasanaeth. | Polisi Rheoli Datblygiad DM11 — Diogelu Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol sydd Eisoes yn Bodoli |

Mae tri dangosydd monitro y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach, fel y dangosir yn Nhabl 3.

### Tabl 3. Dangosyddion Monitro sy'n Gofyn am Ymchwil Ychwanegol

| Cyfeirnod | Dangosydd Monitro | Polisïau Perthnasol y CDLl |
|---|---|---|
| **AMB15** | Maint y tir ar gyfer cyflogaeth (hectarau) a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn y Cynllun Datblygu fel % o gyfanswm y dyraniadau cyflogaeth | Polisi Strategol SP2 — Twf Cyflogaeth |
| **AMB19** | Maint y tir net a ganiateir ar gyfer cyflogaeth ym mhob haen aneddiadau i gael ei fesur fel canran o'r holl dir cyflogaeth a ganiateir. | Polisi Strategol SP6 — Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Anheddiad |
| **AMB20** | Swm (hectarau) a lleoliad y datblygiadau ar hap a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a thir maes glas. | Polisi Strategol SP6 — Dosbarthu Twf ar draws yr Hierarchaeth Aneddiadau |

## Crynodeb o’r Casgliadau a’r Argymhellion

Mae canlyniadau’r dadansoddiad o’r dangosyddion monitro ar gyfer y cyfnod monitro yn dangos bod polisïau’r CDLl yn cyflawni ac yn bodloni’r targedau a nodir yn y fframwaith monitro blynyddol i raddau helaeth, ac mae 42 o’r 62 ddangosydd monitro yn dangos gweithrediad polisi cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys naw dogfen CCA a gyhoeddwyd ers i’r CDLl gael ei fabwysiadu. Mae’r lefel hon o dargedau monitro a gyflawnwyd yn dangos bod mwyafrif y polisïau yn CDLl Powys, a fabwysiadwyd yn 2018, wedi darparu’n llwyddiannus yr amcanion twf cynaliadwy a llawer o’r amcanion defnydd tir y ceisiodd y CDLl eu cyflawni.

Cydnabyddir bod y nifer cronnol o anheddau ychwanegol net a ddarparwyd (2,809 o anheddau) yn is na’r hyn a ragwelwyd (3,390 o anheddau), sy’n rhoi diffyg o 566 o anheddau ar ddiwedd y cyfnod monitro hwn. Dim ond tair blynedd sydd ar ôl o gyfnod y cynllun felly mae’n annhebygol y bydd 4,500 o anheddau newydd yn cael eu darparu i fodloni ffigwr gofyniad anheddau’r CDLl mabwysiedig erbyn diwedd cyfnod y cynllun (Mawrth 2026). Gan gynnydd mewn tai yr arweinir Strategaeth Twf y CDLl yn bennaf, felly mae’r perfformiad gwael yn y dangosyddion monitro (AMB2a, AMB2b) sy’n ymwneud â chwblhau tai yn dangos nad yw strategaeth gyffredinol y Cynllun yn cael ei chyflawni. O ganlyniad i hynny, wrth baratoi’r CDLl Newydd, bydd ffigur y gofyniad anheddau yn cael ei ddiwygio. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar y dystiolaeth ddiweddaraf sy’n ymwneud â chyfraddau adeiladu y gorffennol, amcanestyniadau poblogaeth ac Asesiad o’r Farchnad Dai Lleol.

Mae perfformiad y safleoedd a neilltuwyd ar gyfer tai yn y CDLl mabwysiedig yn parhau i fod yn siomedig. Mae 81 o safleoedd Dyrannu Tai yn y CDLl, ac nid oes gan 53 (65%) ohonynt unrhyw fath o ganiatâd cynllunio (dangosydd monitro AMB4). Mae nifer yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd tai a neilltuwyd, ers mabwysiadu'r CDLl, yn cyfateb i 155 o anheddau, gan gyflawni 10% yn unig o'r targed cronnus o 1,542 o anheddau (AMB5). Fodd bynnag, o'r 81 o safleoedd a neilltuwyd ar gyfer tai, cydnabyddir bod tua chwarter ohonynt wedi'u lleoli o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol sy’n sensitif i ffosfforws. Mae hyn yn golygu na ellir rhoi’r trefniadau caniatâd cynllunio sydd eu hangen oni bai bod ceisiadau’n gallu dangos niwtraliaeth neu welliant ffosffad. Nad yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd nad oes gan y gwaith trin dŵr gwastraff a charthion lleol fodd stripio ffosffad (a’r drwydded gysylltiedig). Rhoddwyd rhai trefniadau caniatâd o fewn y cyfnod monitro, ond dim ond lle mae gwelliannau i waith trin dŵr gwastraff (gan gynnwys trwyddedau) wedi’u cynnwys yn Rhaglen Rheoli Asedau (AMP) 7 Dŵr Cymru, 2020-2025, e.e., Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt.

Ni fydd dyraniadau tai heb eu datblygu yn y CDLl mabwysiedig yn cael eu dwyn ymlaen i'r CDLl Newydd, oni bai y dangoswyd, trwy'r broses safleoedd ymgeisiol, yr aethpwyd i'r afael â'r rhesymau dros beidio â chyflawni.

Nid yw polisïau CDLl sy’n ymwneud â dyraniad manwerthu, ffryntiau manwerthu, Ardaloedd Chwilio Lleol solar, cynlluniau gwresogi cymunedol/dosbarth, dwysedd tai na diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd. Bydd y broses o baratoi’r CDLl Newydd yn cael ei defnyddio fel cyfle i adolygu’r polisïau hyn

Ceir tri maes yr argymhellir bod angen ymchwil ychwanegol arnynt. Bydd yr holl ymchwil / astudiaeth ychwanegol a gynhelir yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth i lywio’r gwaith o baratoi’r strategaeth, y polisïau a’r cynigion yn y CDLl Newydd a bydd yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â’r fersiynau ymgynghorol o’r Cynllun sy’n dod i’r amlwg.

# 1. Cyflwyniad

1.01 Mae fframwaith monitro y CDLl y mae'r AMB hwn a'r AMBau dilynol wedi eu seilio arno bellach yn cynnwys cyfanswm o 62 o ddangosyddion monitro, a nodir ym Mhennod 5 o'r CDLl neu maent yn un o ofynion Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, 2020). Defnyddir y dangosyddion monitro i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau.

1.02 Mae'r AMB yn cynnwys dadansoddiad a chamau gweithredu a argymhellir ar gyfer pob dangosydd monitro. Mae'r codau lliw a'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer pob dangosydd yn cyfochri â Thabl 4 ac maent yn gyson â Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3).

1.03 Yn dilyn cyhoeddi AMB 2021 a'r adolygiad 4 blynedd ôl-fabwysiadu statudol o'r CDLl mabwysiedig a gyhoeddwyd yn yr Adroddiad Adolygu, penderfynodd y Cyngor fod angen adolygiad llawn o'r CDLl mabwysiedig. Dechreuodd gwaith ar CDLl Newydd ym mis Gorffennaf 2022, yn unol ag amseriadau'r Cytundeb Cyflawni cymeradwy, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2022, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Rhaid ystyried canfyddiadau hwn, ac AMBau blaenorol, ynghyd â'r Adroddiad Adolygu wrth baratoi'r CDLl Newydd.

**Tabl 4. Crynodeb o'r Asesiad Monitro a Chamau Gweithredu Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3)**

| |
|---|
| **Parhau i Fonitro -** Mae polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol. |
| |
| **Angen Hyfforddiant -** Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu yn ôl y disgwyl, ac mae angen hyfforddi swyddogion neu Aelodau. |
| |
| **Angen CCA -** Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu yn ôl y disgwyl, ac mae angen cyfarwyddyd pellach, trwy efallai llunio CCA ychwanegol. |
| |
| **Angen Ymchwil/Astudiaeth Pellach -** Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu yn ôl y disgwyl, ac mae angen ymchwil a/neu astudiaeth pellach. |
| |
| **Angen Adolygu Polisi -** Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu, ac maent yn methu gwireddu amcanion; hwyrach y bydd angen adolygu'r polisi dan sylw. |
| |
| **Adolygu'r Cynllun** - Nid yw polisïau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu, ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei gwireddu, ac felly mae'n ysgogi adolygiad ffurfiol.<br>(Yn dilyn adolygiad o'r CDLl mabwysiedig newidwyd y gweithred hwn i "**I'w Ailystyried mewn CDLl Newydd".**) |

# 2. Dadansoddi Newid/Dangosyddion Cyd-destunol Arwyddocaol

2.0.1 Crynodeb ac adolygiad o faterion a newidiadau cyd-destunol ehangach sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod monitro hwn y mae'r CDLl yn gweithredu ynddo, h.y. strategaethau/polisïau allanol.

## 2.1 Cyd-destun Cenedlaethol

**Cyfrifiad 2021**

Cynhaliwyd y Cyfrifiad dengmlwyddol (Cyfrifiad 2021) ar 21 Mawrth 2021. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) y canlyniadau cyntaf o Gyfrifiad 2021 ar 28 Mehefin 2022. Nod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw rhyddhau'r holl brif ganlyniadau o fewn dwy flynedd i'r diwrnod y cynhaliwyd y Cyfrifiad. Bydd canlyniadau'r Cyfrifiad yn ffynhonnell ddata bwysig a fydd yn darparu gwybodaeth am ffactorau megis maint y boblogaeth, demograffeg, statws cyflogaeth, a defnydd o'r Gymraeg, y gellir eu dadansoddi wedyn ar lefel leol. Bydd yr wybodaeth hon yn cyfrannu at y dystiolaeth allweddol sy'n cefnogi'r CDLl Newydd.

**Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllawiau Gweithdrefnol, Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2022)**

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud ag agweddau gweithdrefnol archwiliadau CDLlau. Mae wedi'i anelu at bawb sy'n ymwneud â'r broses o archwilio Cynllun, gan gynnwys Arolygwyr Cynllunio a phawb sydd â diddordeb. Mae'n nodi canllawiau sy'n ymwneud ag egwyddorion y broses archwilio, adnoddau ac amserlenni, cyfnodau allweddol y broses archwilio, cyflwyno, sesiynau gwrando, ac Adroddiad yr Arolygydd. Mae Atodiad 1 y canllawiau yn nodi'r gofynion gweithdrefnol a'r profion cadernid, ac mae Atodiad 2 yn nodi cyfres o gwestiynau rhagarweiniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) ddarparu ymateb manwl iddynt ar adeg cyflwyno'r cais.

**Ymholiadau a Gwrandawiadau Cynllunio Cyhoeddus: Lleoliad a Chyfleusterau (Chwefror 2023)**

Mae'r canllaw hwn yn nodi'r gofynion ar gyfer digwyddiadau 'Wyneb-yn-wyneb' ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus, gwrandawiadau, ac archwiliadau ('y digwyddiad') i gynllunio, apeliadau cysylltiedig a cheisiadau a alwyd i mewn, gorchmynion prynu gorfodol a hawliau tramwy, dogfennau'r cynllun datblygu ac yn y blaen. Mae'n rhoi arweiniad ar iechyd a diogelwch, lleoliad, hygyrchedd, ystafelloedd, cyfleusterau gweithio electronig, ystafelloedd ymwisgo, trefn, y Gymraeg ac ieithoedd eraill, a chyfleusterau toiled.

**Ail Gartrefi**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fesurau deddfwriaethol newydd yn ymwneud ag ail gartrefi ym mis Mawrth 2022. O fis Ebrill 2023, bydd cynghorau lleol yn gallu cynyddu'r premiwm treth gyngor uchaf ar ail gartrefi hyd at 300% (i fyny o'r terfyn 100% a osodwyd yn 2017). Yn ogystal, mae rheoliadau newydd wedi'u sefydlu i gynyddu nifer y diwrnodau y mae'n rhaid i lety hunanarlwyo gael ei osod i fod yn gymwys ar gyfer ardrethi busnes.

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ac Arweinydd Plaid Cymru ar y cyd newidiadau i reoliadau cynllunio yng Nghymru, a gyflwynodd ddosbarthiadau defnydd newydd i wahaniaethu rhwng prif gartrefi a chartrefi eilaidd a llety gosod tymor byr. Roedd y cyhoeddiad hefyd yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu cynllun trwyddedu statudol newydd ar gyfer yr holl lety i ymwelwyr ac i ganiatáu mwy o bwerau i gynghorau dros gyfraddau Treth y Cyngor a niferoedd ail gartrefi.

Fel rhan o'r mesurau, daeth dau Offeryn Statudol sy'n newid y Gorchmynion Dosbarthiadau Defnydd (a nodir yn Adran 2.2) yng Nghymru i rym ar 20 Hydref 2022, sef:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022; a
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022.

Ceir rhagor o wybodaeth am Lythyr y Prif Swyddog Cynllunio yn ymwneud â Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ar gyfer Ail Gartrefi a Thai Tymor Byr (Medi 2022) yn Adran 2.2 isod.

**Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)**

Cyflwynwyd Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i Senedd Cymru ar 4 Gorffennaf 2022 ac fe'i pasiwyd ar 28 Mawrth 2023. Diben Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yw cydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru. Dyma'r Bil cydgrynhoi cyntaf a gyflwynwyd fel rhan o raglen bum mlynedd gychwynnol Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Mae'r Bil yn dwyn ynghyd y ddeddfwriaeth a nodir ar hyn o bryd mewn nifer o Ddeddfau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Nod y ddeddfwriaeth hon yw darparu cyfraith gwbl ddwyieithog, drefnus a hygyrch ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol unigryw Cymru yn effeithiol fel y bydd yn gallu parhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl. Rhagwelir y ceir Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2023 (y tu hwnt i'r cyfnod monitro hwn), gyda'r gwaith gweithredu i ddilyn.

**Canllawiau Technegol - Sut i Wella Effeithlonrwydd Ynni mewn Adeiladau Hanesyddol yng Nghymru, Cadw (Ebrill 2022)**

Mae'r ddogfen hon, a gyhoeddwyd gan Cadw, yn rhoi canllawiau ar ffyrdd o leihau'r defnydd o ynni mewn adeiladau hanesyddol ac adeiladau sydd wedi'u hadeiladu mewn modd traddodiadol, ac mae wedi'i hanelu at berchnogion a rheolwyr adeiladau o'r fath. Mae'r canllawiau hefyd yn berthnasol i benseiri, syrfewyr, contractwyr a chyflenwyr adeiladu, a swyddogion cadwraeth, cynllunio, rheoli adeiladu, iechyd yr amgylchedd a thai awdurdodau lleol. Mae'n disgrifio 'dull adeilad cyfan' at ddyfeisio a gweithredu gwelliannau effeithlonrwydd ynni sydd:

- yn osgoi niweidio arwyddocâd yr adeilad
- yn effeithiol, yn gost-effeithlon, yn gymesur ac yn gynaliadwy
- yn sicrhau amgylchedd iach a chyfforddus i ddeiliaid, ac
- lleihau'r risg o ganlyniadau anfwriadol.

Mae'n ystyried y ffactorau sy'n dylanwadu ar lefelau'r defnydd o ynni mewn adeiladau hanesyddol ac mae'n egluro'r broses cynllunio ynni'r adeilad cyfan a'r camau allweddol dan sylw. Mae hefyd yn cynnwys rhestrau gwirio o fesurau effeithlonrwydd ynni a allai fod yn addas fel rhan o'r dull adeiladu cyfan, gyda dolenni at ffynonellau gwybodaeth dechnegol fanylach ar uwchraddio elfennau o adeiladau megis toeau, waliau a lloriau.

Mae'r canllawiau yn gyfrol sy'n cyd-fynd ag 'Ynni Adnewyddadwy a'ch Adeilad Hanesyddol – gosod Systemau Microgynhyrchu: Canllaw i Arfer Gorau', a gyhoeddwyd gyntaf gan Lywodraeth Cymru/Cadw yn 2010.

**Costau / Argostau Derbyniol i'w Defnyddio gyda Thai a Ariennir gan y Grant Tai Cymdeithasol yng Nghymru (Awst 2021, Diwygiwyd Mai 2022)**

Bwriad y canllawiau diwygiedig hyn yw cynorthwyo darparwyr tai i benderfynu a yw prosiectau cost cynllun sy'n cael grant e.e. Grant Tai Cymdeithasol (SHG) yn dderbyniol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau blaenorol, ym mis Ebrill 2021, i adlewyrchu'r dull newydd o gyfrifo SHG (manylir yn AMB 2022). Mae'r canllawiau diwygiedig hyn yn cynnwys diweddariad i'r ffigurau Canllawiau Cost Derbyniol yn Nhabl 1 a Thabl 2. Mae Atodiadau A a B y canllawiau, a oedd yn berthnasol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn unig yn flaenorol, wedi'u tynnu'n ôl.

**Byw'n Lleol yng Nghymru Wledig – Papur Trafod Polisi ac Arfer Cynllunio, RTPI Cymru (2022)**

Mae'r papur trafod hwn yn archwilio'r cysyniad o fyw'n lleol mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru ac a ellir cymhwyso'r egwyddorion arweiniol y tu ôl i'r model cymdogaeth 15 munud mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell. Mae hefyd yn archwilio pa ran y gall y system gynllunio ei chwarae wrth gefnogi byw'n lleol yng Nghymru wledig mewn modd mwy cynaliadwy, nid yn unig i annog llai o ddibyniaeth ar gerbydau modur a chefnogi datgarboneiddio, ond hefyd i annog yr arfer ehangach o greu lleoedd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru.

Mae'r prosiect yn gwneud nifer o argymhellion:

- Cadw a chryfhau polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n hyrwyddo egwyddorion byw'n lleol i gyflawni canlyniadau datblygu cynaliadwy.
- Symud y system gynllunio i ddull mesur perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau i gefnogi'r gwaith o ddarparu lleoedd cynaliadwy ar lawr gwlad.
- Mae pwysau ariannu wedi cael effaith sylweddol ar awdurdodau lleol gwledig a darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae dadl gref dros ddweud y dylai Lywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol wrth annog a chefnogi awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod gan y gwasanaethau pwysig hyn adnoddau digonol.
- Cefnogi cydweithio sy'n cynnwys cynllunwyr, partneriaid eraill, asiantaethau a sectorau, i alinio nodau strategol, blaenoriaethau buddsoddi a chanlyniadau a dangosyddion ar y cyd, er mwyn hwyluso effaith ystyrlon.
- Dylid datblygu datblygiadau digidol a thechnolegol o amgylch cefnogi busnesau lleol lle y bo modd, yn hytrach na pharhau i ddefnyddio canolfannau dosbarthu rhanbarthol neu genedlaethol mwy ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sydd angen cludiant sylweddol ac sy'n osgoi defnyddio gwasanaethau lleol ac nad ydynt yn cefnogi'r economi leol. Mae gan gynllunio ran i'w chwarae wrth gefnogi'r agenda leol ehangach hon trwy gynllunio datblygiad a gwneud penderfyniadau.
- Ystyriaeth bellach a chyllid wedi'i dargedu ar gyfer cysylltu lleoliadau gwledig â gwasanaethau a chyfleusterau. Er enghraifft, archwilio hawliau tramwy cyhoeddus / llwybrau ceffylau / llwybrau beicio ac ati sy'n newydd neu wedi'u gwella, a gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus.
- Adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer offer cynllunio lleol megis Cynlluniau Lleoedd a arweinir gan y gymuned, ymgysylltu â'r gymuned ac ati.

Byddai adnoddau o fewn cymunedau, cynghorau tref a chymuned ac awdurdodau cynllunio lleol yn helpu i wella dealltwriaeth ac yn darparu'r gallu a'r capasiti i gefnogi gweithio cydgysylltiedig.

- Rhannu adnoddau ac arfer da ar draws awdurdodau gwledig, yn debyg i'r hyn sydd wedi digwydd mewn perthynas â thai haf a llety gosod tymor byr yng Nghymru.
- Parhau i ymchwilio, trafod a dysgu sut y gall cynllunio gefnogi byw'n gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig ac effeithiau a chanlyniadau byw'n lleol yng nghefn gwlad Cymru.

**Cynllunio Gwledig yn y 2020au: Prosiect Ymchwil Cymru, RTPI (Gorffennaf 2022)**

Mae'r ymchwil hon yn archwilio'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig ledled y DU ac Iwerddon yn y 2020au, gan gynnwys heriau allweddol yn ymwneud â'r farchnad dai wledig, y sector amaethyddol, newid demograffig, Covid-19, Brexit a Newid Hinsawdd. Mae'n ceisio mynd i'r afael â sut y bydd angen i gynllunio gwledig newid i fynd i'r afael â'r heriau hyn, yn ogystal â sut y gall cymunedau gwledig fodloni amcanion polisi ac arfer ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy. I gyd-fynd â'r papur ymchwil, mae set o adroddiadau technegol sy'n cyflwyno'r dystiolaeth a'r canfyddiadau o bob cam o'r prosiect - Adolygiadau Thematig; Dadansoddiad o'r Farchnad Dai; Dadansoddiad Bord Gron; Asesiadau Polisi Cenedlaethol; ac Astudiaethau Achos a Phapurau Gwyntyllu.

**Asesu Sensitifrwydd y Dirwedd yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (Awst 2022)**

Mae'r canllawiau hyn, a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn nodi sut i greu a defnyddio Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd i lywio penderfyniadau ar gynllunio gofodol a newid defnydd tir. Defnyddir Asesiadau Sensitifrwydd Tirwedd mewn cynllunio gofodol i helpu i arwain newidiadau datblygu neu reoli tir i leoliadau tirwedd llai sensitif. Maent yn nodi a fyddai natur y dirwedd yn fwy agored, neu'n llai agored, i'r math o newid, ac a allai hynny effeithio ar werth y dirwedd. Gall yr Asesiadau gynorthwyo gyda chynllunio strategol ar gyfer datblygu seilwaith - er enghraifft, ynni adnewyddadwy, seilwaith ynni, a dyraniadau tir ar gyfer tai a chyflogaeth. Mae angen eu cynnal yn gynnar yn y broses gynllunio, fel arfer cyn i gynigion a safleoedd datblygu penodol gael eu cyflwyno. Gall Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd eu defnyddio wrth baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

**Llonyddwch a Lle: Ardaloedd o Lonyddwch Gweledol, Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi datblygu adnodd daearol newydd sy'n genedlaethol gyson sy'n nodi'r adnodd strategol a lleol mewn ardaloedd anghysbell, gwledig, peri-drefol a threfol i'w ddefnyddio fel sail tystiolaeth i lywio bwriad polisi, arfer a darpariaeth ar gyfer buddion llesiant. Mae llonyddwch yn gysylltiedig â'r graddau y mae lleoedd ac ecosystemau yn darparu cyflwr o dawelwch, tawelwch, heddwch a llesiant. Cyhoeddwyd yr adnodd Lleoedd o Lonyddwch Gweledol ym mis Mawrth 2022 gyda'r Amgylchedd Sain Rhan I, ym mis Mawrth 2023. Mae'r map Stori Llonyddwch a Lle yn egluro sut mae ardaloedd o lonyddwch gweledol yng Nghymru wedi'u mapio. Gall y map gwe helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i bennu sensitifrwydd llonyddwch gweledol ardal i'w datblygu ac ystyried cyfleoedd i gadw a gwella'r llonyddwch presennol. Mae data'r ardaloedd o lonyddwch gweledol wedi'i ymgorffori yn arolygon unigol Gweledol a Synhwyraidd LANDMAP (cwestiwn 59).

**Yr Argyfwng Hinsawdd – Canllaw i Awdurdodau Lleol ar Gynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd (4ydd Argraffiad, Ionawr 2023)**

Mae'r canllaw hwn, a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Cynllunio Gwlad a Thref (TCPA), yn disodli argraffiad 2021. Cafodd ei ysgrifennu gan yr RTPI a'r TCPA, ac mae'n rhoi cyflwyniad hygyrch i'r materion eang sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Mae'n cynnwys diweddariadau technegol i adlewyrchu'r dystiolaeth a'r arferion mwyaf diweddar a meysydd lle mae polisi a chanllawiau cenedlaethol wedi symud ymlaen o'r rhifyn blaenorol. Darperir cynnwys astudiaethau achos mewn hyb astudiaethau achos ar-lein cysylltiedig (gwefan TCPA). Mae'n cynnwys tair neges allweddol a rennir ar gyfer cynllunwyr a'r gymuned ehangach yng nghyd-destun credu mai newid hinsawdd a ddylai fod y brif flaenoriaeth ar gyfer cynllunio ar draws y DU.

**Yr Adolygiad Ffyrdd a Chynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth 2022 i 2027 (Chwefror 2023)**

Mae'r Adolygiad Ffyrdd a Chynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn adeiladu ar y sylfeini a ddarparwyd gan Bolisi Cynllunio Cymru, Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, Sero Net Cymru a'r Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol.

Mae'r Adolygiad Ffyrdd – Dyfodol Gwelliannau Ffyrdd yng Nghymru yn nodi'r cyngor gan y Panel Adolygu Ffyrdd ar brosiectau ffyrdd presennol a sut i ystyried prosiectau yn y dyfodol. https://www.llyw.cymru/dyfodol-buddsoddiad-ffyrdd-yng-nghymru

Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn nodi'r rhaglenni, y prosiectau a'r polisïau i gyflawni Llwybr Newydd, y Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol: https://www.llyw.cymru/cynllun-cyflawni-cenedlaethol-ar-gyfer-trafnidiaeth-2022-i-2027

Mae'r gyfres o ddogfennau'n darparu fframwaith cyson i ystyried maint a lleoliad datblygiadau newydd drwy fabwysiadu'r hierarchaeth drafnidiaeth. Mae'r Adolygiad Ffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol yn cydnabod yn benodol rôl cynllunio wrth leihau'r galw am drafnidiaeth a hyrwyddo newid dulliau teithio. Amlygir pwysigrwydd cydlynu Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol gan Gydbwyllgorau Corfforedig, ynghyd â'r cymorth sydd ar gael gan Trafnidiaeth Cymru, sy'n gallu darparu data a modelu i gefnogi'r defnydd o fodelu hygyrchedd ac astudiaethau amlfodd.

## 2.2 Llythyrau'r Prif Swyddog Cynllunio a Llythyrau CNC

**Cyhoeddi Canllaw Cymunedol i Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 2), Cymorth Cynllunio Cymru a Llywodraeth Cymru (Mai 2022)**

Mae'r llythyr hwn yn datgan bod argraffiad newydd o'r Canllaw Cymunedol Cynlluniau Datblygu, Argraffiad 2, sy'n disodli Argraffiad 1 o'r Canllaw a gyhoeddwyd yn 2006, wedi'i gyhoeddi. Mae'r Canllaw wedi'i ddiweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau sylweddol i'r system cynlluniau datblygu ers 2006, yn enwedig cyhoeddi Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 a'r symudiad tuag at Gynlluniau Datblygu Strategol (CDY). Mae'r Canllaw wedi'i ddiweddaru yn rhoi arweiniad i'r cyhoedd ar baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.

Mae'r canllaw yn darparu adnodd defnyddiol a buddiol i gymunedau a phartïon â diddordeb i'w helpu i ddeall y broses cynlluniau datblygu yng Nghymru. Mae'n rhoi cyngor ynghylch pryd i ymgysylltu a sut i wneud hyn mewn ffyrdd ystyrlon, er mwyn sicrhau bod barnau'n cael eu mynegi cyn gynted â phosibl er mwyn dylanwadu ar gynlluniau. Mae canllaw darllen cyflym ar gael hefyd. Cyhoeddir y Canllaw ar wefan Polisi Cynllunio'r Cyngor.

**COP15, Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, Dyletswydd Adran 6 a'r System Gynllunio (Rhagfyr 2022)**

Pwrpas y llythyr hwn yw tynnu sylw at y rôl hanfodol y mae'n rhaid i'r system gynllunio ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r heriau a osodwyd gan COP15, argymhellion yr Archwiliad Dwfn ac wrth gyflawni Dyletswydd Adran 6 yng Nghymru. At hynny, mae'r llythyr yn rhoi rhybudd o newidiadau arfaethedig i bolisi cynllunio mewn perthynas â budd net i fioamrywiaeth a'r warchodaeth a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a choed a choetiroedd.

Mae'r Archwiliad Dwfn wedi ymrwymo i gyflawni targed o 30 wrth 30, i warchod a rheoli 30% o dir, dŵr croyw a moroedd Cymru yn effeithiol ac yn deg erbyn 2030 fel ffocws strategol i ystyried ble a sut y gellid cyflymu camau gweithredu. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn manylu ar ymateb y system gynllunio i Ddyletswydd Adran 6 drwy osod fframwaith i awdurdodau cynllunio gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau (gan ddarparu budd net i fioamrywiaeth).

Mae'r llythyr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio roi sylw i Ymagwedd Llywodraeth Cymru at Fuddiannau Net a Fframwaith DECCA yn y System Cynllunio Daearol. Mae hwn yn nodyn briffio ar y cyd rhwng CIEEM (Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol) a Llywodraeth Cymru, sy'n darparu rhagor o wybodaeth ategol ar sicrhau buddion net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Mae hefyd yn cynnwys ystyriaethau allweddol ar gyfer ecolegwyr a datblygwyr wrth gyflwyno cynigion cynllunio.

**Newidiadau i Ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio ar gyfer Ail Gartrefi a Llety Gosod Tymor Byr (Medi 2022)**

Ar 4 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru becyn o fesurau i fynd i'r afael â mater ail gartrefi a llety gosod tymor byr yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys elfen cynllunio defnydd tir – cyflwyno tri dosbarth defnydd newydd i roi'r gallu i awdurdodau cynllunio lleol reoli nifer yr ail gartrefi a llety gosod tymor byr mewn ardal.

Roedd newidiadau i'r Dosbarthiadau Defnydd yn cynnwys:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (yr UCO) yn cael ei ddiwygio i greu dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer 'Anheddau, a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfeydd' (Dosbarth C3), 'Anheddau, a ddefnyddir heblaw fel unig neu brif breswylfeydd' (Dosbarth C5) a 'Llety Gosod Tymor Byr' (Dosbarth C6);
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) yn cael ei ddiwygio i alluogi newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd, C3, C5 ac C6. Gellir datgymhwyso'r hawliau datblygu a ganiateir hyn o fewn ardal benodol gan Gyfarwyddyd Erthygl 4 a wneir gan awdurdod cynllunio lleol ar sail tystiolaeth leol gadarn.

Bydd newidiadau ategol hefyd yn cael eu gwneud i adran 4.2 Polisi Cynllunio Cymru (PPW). Bydd y newidiadau polisi hyn yn ei gwneud yn glir, lle bo'n berthnasol, fod rhaid ystyried mynychder ail gartrefi a llety gosod tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried gofynion tai a dulliau polisi mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).

Bydd y diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn glir, pan fo awdurdod cynllunio lleol yn cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, y dylai atgyfnerthu ei gamau gweithredu drwy ei gwneud yn ofynnol i amodau gael eu gosod ar bob annedd newydd sy'n cyfyngu ar eu defnydd i Ddosbarth C3 lle byddai amod o'r fath yn bodloni'r profion perthnasol. Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddyrannu safleoedd mewn CDLlau sydd wedi'u cyfyngu i ddefnydd C3, gan gynnwys tai marchnad leol, mewn ardaloedd lle maent yn ceisio rheoli ail gartrefi a llety gosod tymor byr. Bydd y newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru yn cael eu hymgorffori yn ei adolygiad nesaf, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod 2023.

## 2.3 Y Cyd-destun Rhanbarthol

**Asesiad Strategol Rhanbarthol o Ganlyniadau Llifogydd Canolbarth Cymru (Tachwedd 2022)**

Yn dilyn yr oedi cyn gweithredu'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN)15 diwygiedig, roedd yn ofynnol i bob ACLl gynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer eu hardal (neu ddiweddaru Asesiad a oedd eisoes yn bodoli), gan ystyried rhagamcanion newid yn yr hinsawdd a Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP).

Cynhaliwyd Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer Canolbarth Cymru fel astudiaeth pen desg a oedd yn casglu gwybodaeth a oedd yn bodoli eisoes i gynnal asesiad eang o beryglon llifogydd posibl ar draws Rhanbarth Canolbarth Cymru o bob ffynhonnell llifogydd gan gynnwys FMfP. Nododd yr astudiaeth ardaloedd a allai fod mewn perygl mawr o lifogydd, yn ogystal â darparu manylion am ddigwyddiadau llifogydd hanesyddol a manylion unrhyw strwythurau neu weithdrefnau rheoli perygl llifogydd sy'n bresennol.

Darparodd yr astudiaeth hefyd ganllawiau ar weithredu'r TAN 15 diwygiedig a rheoli perygl llifogydd mewn safle datblygu. Rhoddwyd rhagor o wybodaeth hefyd am gyfleoedd i arafu a storio dŵr fel rhan o reoli llifogydd yn naturiol.

Mae'r TAN 15 diwygiedig arfaethedig wedi bod yn destun diwygiadau pellach, y ceid ymgynghoriad yn eu cylch ym mis Ebrill 2023. Ar ôl i'r TAN 15 diwygiedig gael ei gwblhau, bydd yr SFCA yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed.

**Hafren Dyfrdwy - Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (Mawrth 2023)**

Dyma Gynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP) cyntaf erioed Hafren Dyfrdwy. Gan gwmpasu gogledd Powys, gan gynnwys Trefi'r Drenewydd a'r Trallwng, mae'n nodi cynlluniau Hafren Dyfrdwy i fynd i'r afael â materion diwydiant fel llifogydd a rheoli carthffosiaeth a'r heriau sy'n deillio o dwf poblogaeth a newid yn yr hinsawdd. Bydd y cynllun hwn yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer eu cyflwyniad PR24 sydd ar ddod ac yn llywio adolygiadau prisiau dilynol. Bydd y DWMP yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob pum mlynedd i roi cyfrif am ddatblygiadau diwydiant ac i ganiatáu ar gyfer diweddariad i ragdybiaethau, yn enwedig ynghylch newid yn yr hinsawdd.

**Adolygiad Datganiad Ardal (Mawrth 2023)**

Roedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi a chyhoeddi datganiadau rhanbarthol, y cyfeirir atynt fel "Datganiadau Ardal", ar gyfer yr ardaloedd o Gymru y mae'n eu hystyried yn briodol at ddiben hwyluso rhoi'r Polisi Adnoddau Naturiol cenedlaethol ar waith. Mae Datganiadau Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth priodol, yr hyn y gellir ei wneud ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau hynny, a sut y gellir rheoli adnoddau naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae ardal ACLl Powys o fewn y rhanbarth a gwmpesir gan Ddatganiad Ardal Canolbarth Cymru, sydd hefyd yn cynnwys ardaloedd ACLl Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ers cyhoeddi Datganiadau Ardal, dair blynedd yn ôl, bu pandemig byd-eang ac argyfwng costau byw, gyda chymunedau yn parhau i deimlo effeithiau cynyddol yr argyfyngau hinsawdd a natur. Rhaid i CNC barhau i adolygu Datganiadau Ardal; fel rhan o'r adolygiad, gwahoddwyd rhanddeiliaid a chymunedau yn ddiweddar i gwblhau arolwg. Mae'r adolygiad yn parhau i sicrhau bod Datganiadau Ardal yn cael eu diweddaru a'u gwella trwy ymgysylltu

â mwy o bobl, casglu tystiolaeth newydd, cyflwyno syniadau newydd a chreu cyfleoedd pellach.

Mae datganiadau ardal yn ddarn allweddol o dystiolaeth i'r ACLI ei hystyried wrth baratoi'r CDLI Newydd. Maent yn darparu tystiolaeth o faterion amgylcheddol ac adnoddau naturiol a dylid eu defnyddio fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y CDLI Newydd ac wrth gyflawni dyletswydd yr ACLI i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau cynllunio.

**Model Hyfywedd Rhanbarthol**

Cyhoeddodd ACLI Powys ganllawiau ar Asesiad Hyfywedd Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer cam y Cais am Safleoedd Ymgeisiol ym mhroses y CDLI Newydd ym mis Tachwedd 2022. Roedd y ddogfen yn rhoi arweiniad penodol ar y broses i'w defnyddio ar gyfer asesu hyfywedd Safleoedd Ymgeisiol. Mae hyfywedd yn ystyriaeth allweddol yn y broses asesu Safleoedd Ymgeisiol, ochr yn ochr ag ystyriaethau cynaliadwyedd a chyflawnadwyedd.

Mae'r canllawiau'n disgrifio'r cyfnodau allweddol a'r amserlenni sydd ynghlwm wrth asesu hyfywedd Safleoedd Ymgeisiol. Cynigir proses dri cham:

- Cam 1 - Asesiad Cychwynnol o Hyfywedd Safle y mae'n ofynnol i bob cynigydd safle ei gynnal gan ddefnyddio'r Model Hyfywedd Datblygu rhanbarthol (DVM) yn y cam Safleoedd Ymgeisiol.
- Cam 2 – Asesiad Hyfywedd Cynllun Lefel Uchel o'r CDLI Newydd i'w gynnal gan Awdurdod Cynllunio Lleol Powys ar y cam Strategaeth a Ffefrir ac Adneuo.
- Cam 3 – Asesiad Hyfywedd Safle-Benodol Manwl i'w gynnal gan gynigwyr safleoedd, gyda gwybodaeth a thystiolaeth ychwanegol, ar ôl cam y Strategaeth a Ffefrir.

Roedd fersiynau safle-benodol wedi'u cloi o'r DVM ar gael ar gais i gynigwyr safleoedd yn rhad ac am ddim i'w cwblhau a'u cyflwyno fel rhan o'u cyflwyniadau Safle Ymgeisiol. Fodd bynnag, codir tâl am ddefnyddio'r DVM ar gyfer yr Asesiad Hyfywedd Safle-Benodol Manwl yng Ngham 3 o'r broses ar gyfer safleoedd y cynigir eu dyrannu.

Mae'r DVM yn parhau i gael ei ddefnyddio i gefnogi heriau hyfywedd yn y cam ceisiadau cynllunio.

## 2.4 Y cyd-destun Lleol

**Cyngor Sir Powys yn Datgan Argyfwng Natur (Hydref 2022)**

Cymeradwywyd cynnig i ddatgan Argyfwng Natur mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 13 Hydref 2022. Cafodd y cynnig, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Adam Kennerley, ei gymeradwyo o 36 pleidlais i 16, gyda phump yn ymatal. Penderfynwyd:

1. Datgan Argyfwng Natur fel arddangosiad o ymrwymiad y Cyngor i warchod ac adfywio amgylchedd naturiol Powys oherwydd ei werth cynhenid, am rôl natur wrth gyflawni economi fywiog a hyfyw ac am y buddion y mae natur yn eu darparu i les trigolion ein sir.
2. Sefydlu strwythurau cefnogol ystyrlon sy'n gwreiddio natur wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys:
   a) Sefydlu Gweithgor Argyfwng Natur trawsbleidiol o fewn y Cyngor i helpu i wreiddio bioamrywiaeth ym mhenderfyniadau'r Cyngor, ei ymgysylltiad â phartneriaethau a'i uchelgeisiau ar gyfer adferiad byd natur ledled y sir.

   b) Penodi Aelod o'r Cyngor yn hyrwyddwr natur fel y caniateir ar ei gyfer gan gyfansoddiad y Cyngor hwn.
   c) Mynd ati i geisio sicrhau'r cyllid o adnoddau newydd allanol ar gyfer Swyddog Adfer Natur y Cyngor Sir pwrpasol a pharhaol rhyngddynt i helpu i ysgogi adferiad byd natur o fewn y Cyngor ac i sbarduno gweithredu ymhlith rhanddeiliaid, gan geisio cyllid allanol newydd i helpu i alluogi cyflawni adferiad byd natur.
   d) Ailddatgan cefnogaeth y Cyngor i'r Bartneriaeth Natur Leol a mynd ati i annog a galluogi ei datblygiad fel grŵp rhanddeiliaid annibynnol i gynrychioli'r rhai sy'n rheoli byd natur ochr yn ochr â'r rhai sy'n ei ddefnyddio a / neu'n elwa ohono.

3. Cymryd camau ystyrlon i helpu i gyflawni cynnydd net ym myd natur ledled y sir, gan gynnwys:

   a) Llunio ymateb – yn amlinellu rôl y Cyngor – i Gynllun Adfer Natur Powys a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bartneriaeth Natur Leol Powys, ac sy'n nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddiogelu a chadw systemau presennol ac i adfer natur ar raddfa a chyflymder sy'n gymesur â'r bygythiadau mae'n eu hwynebu.
   b) Dangos arweiniad ystyrlon trwy adolygu sut y gellir harneisio asedau a gwasanaethau'r Cyngor yn llawnach er mwyn gwrthdroi colled natur yn ein sir. Ystadau Fferm y Sir fydd yn flaenoriaeth ar unwaith. Ymestyn hyn wedyn wrth i adnoddau ganiatáu i adolygu'r holl wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu, megis Cynllunio (er enghraifft, archwilio'r cyfleoedd a gynigir gan yr adolygiad o'r CDLl sydd wedi'i fabwysiadu i weithredu'r cynnig), Caffael (gall llawer o adferiad natur gael ei gynorthwyo gan yr hyn rydym yn ei ddefnyddio a sut, er enghraifft), Priffyrdd (mabwysiadu ymylon ffyrdd ymhellach fel gwarchodfeydd natur), Gwasanaethau Addysg (datblygu sgiliau, tiroedd ysgol), Cefn Gwlad (rheoli parciau, er enghraifft) ac ati.

**Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol 2023-2027 (Chwefror 2023)**

Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Corfforaethol a Strategol 2023-2027 gan y Cyngor Llawn ym mis Chwefror 2023. Mae'r ddogfen yn disodli Gweledigaeth 2025, ac mae'n nodi'r blaenoriaethau llesiant ar gyfer Cyngor Sir Powys am y pum mlynedd nesaf, a pha gamau sydd eu hangen i'w cyflawni. Mae'r cynllun yn nodi'r uchelgeisiau a ganlyn erbyn 2027:

- **Cryfach** - Byddwn yn dod yn sir sy'n llwyddo gyda'n gilydd, gyda chymunedau a phobl sydd â chysylltiadau cymdeithasol da, ac sy'n wydn yn bersonol ac yn economaidd.
- **Tecach** - Byddwn yn Gyngor agored, sy'n cael ei redeg yn dda, lle mae lleisiau pobl yn cael eu clywed ac yn helpu i lunio ein gwaith a'n blaenoriaethau, gyda mynediad tecach, mwy cyfartal at wasanaethau a chyfleoedd. Byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb i gefnogi llesiant pobl Powys.
- **Gwyrddach** - Rydym am sicrhau dyfodol gwyrddach i Bowys, lle mae ein llesiant yn gysylltiedig â byd natur, ac mae ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae'r amcanion y manylir arnynt yn y cynllun yn canolbwyntio ar feysydd i'w gwella neu eu datblygu i wella bywydau pobl, fel unigolion ac fel cymunedau.  Nodau craidd y Cynllun:

1. Gwella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau, a sut i gael gafael arnynt, fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus.
2. Cefnogi cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd da, yn darparu cyfleoedd hyfforddi, ac yn dilyn achrediad cyflogwr cyflog byw go iawn.
3. Gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb i gefnogi llesiant pobl Powys.

**Cynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).**

Mae Cynllun Llesiant Lleol (2040: Powys Deg, Cynaliadwy ac Iach), wedi'i gyhoeddi ar ffurf drafft (Ionawr 2023) gyda'r nodau craidd a ganlyn:

- Bydd pobl ym Mhowys yn byw bywydau hapus, iach a diogel,
- Mae Powys yn sir o fannau a chymunedau cynaliadwy,
- Gwasanaeth Cyhoeddus gynyddol effeithiol i bobl Powys.

Yn dilyn ymgynghoriad 12 wythnos ar y Cynllun Llesiant Lleol, a lansiwyd ym mis Ionawr 2023, roedd y cynllun i fod i gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2023.

**Cynlluniau Buddsoddi yng Nghanolau Trefi / Cynlluniau Creu Lleoedd**

Yn 2022, comisiynodd Cyngor Sir Powys ymgynghorwyr i baratoi Cynlluniau Buddsoddi yng Nghanolau Trefi ar gyfer deg o'r trefi marchnad ym Mhowys, fel rhan o raglen adfywio ar gyfer y sir. Mae'r Cynlluniau Buddsoddi yng Nghanolau Trefi wedi'u paratoi ar y cyd â'r Cynghorau Tref lleol, ac maent yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer dyfodol pob Tref. Bydd y Cynlluniau Buddsoddi yn cael eu defnyddio i helpu i ddenu a siapio buddsoddiad a chefnogi bywiogrwydd y dref a'i hadferiad o'r pandemig Covid-19. Mae pob Cynllun yn canolbwyntio ar ganol tref, tra'n cymryd i ystyriaeth bwysigrwydd a dylanwad y cyfleoedd a geir yn yr ardal ehangach. Mae'r Cynlluniau wedi nodi blaenoriaethau, camau gweithredu a phrosiectau y bydd angen eu hystyried yn y CDLl Newydd, ac yn eu cynnwys.

Y deg tref sydd â Chynlluniau Buddsoddi Canol Trefi yw:

- Llanfair-ym-Muallt
- Trefyclo,
- Llandrindod
- Llandrindod,
- Llanidloes
- Llanwrtyd
- Machynlleth
- Llanandras

- Rhaeadr Gwy
- Y Trallwng,
- Ystradgynlais

Mae Cynlluniau Creu Lleoedd, a fydd â phwrpas tebyg, hefyd yn cael eu gwneud ar gyfer:

- Trefaldwyn
- Llanfyllin

Mae gan y Drenewydd Gynllun Lle eisoes ar waith, a fabwysiadwyd fel CCA ym mis Gorffennaf 2021. Ac mae gan Lanfair Caereinion ei Chynllun Tref ei hun.

# 3. Dangosyddion Cyd-destunol

3.1.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn nodi y dylai dangosyddion cyd-destunol gael eu "gael eu diffinio gan bob ACLl yn benodol i'w ardal a'u hystyried yn erbyn pwysigrwydd monitro effeithiolrwydd strategaeth y cynllun".

3.1.2 Nid oedd y dangosyddion cyd-destunol a restrir isod yn rhan o'r Fframwaith Monitro Blynyddol a gynhwysir yn CDLl Powys. Fe'u cynhwysir yn yr AMB hwn i fodloni gofynion Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ac i roi golwg gyffredinol o ffactorau a allai ddylanwadu ar berfformiad CDLl Powys neu fod yn adlewyrchiad ehangach o weithrediad y strategaeth. Nid yw dangosyddion amgylcheddol wedi eu cynnwys yn yr adran hon oherwydd bod yr adran sy'n manylu ar ganlyniadau dangosyddion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys ystod eang o ddata cyd-destunol sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

## Dangosydd Cyd-destunol 1: Nifer a chanran y bobl ym Mhowys yn ôl eu gweithgarwch economaidd. Yn ddi-waith, yn economaidd anweithgar neu'n economaidd weithgar.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Economi sy'n Ffynnu** |
| **Dangosydd:** | **Nifer a chanran y bobl ym Mhowys yn ôl eu gweithgarwch economaidd. Yn ddi-waith, yn economaidd anweithgar neu'n economaidd weithgar.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP2 — Twf Cyflogaeth |
| **Polisïau Cysylltiedig:** | Amh. |
| **Targed:** | Dim cynnydd yng nghanran y bobl o oedran gweithio ym Mhowys sy'n ddi-waith. |
| **Sbardun:** | Mae canran y boblogaeth o oedran gweithio ym Mhowys sy'n ddi-waith yn cynyddu am ddwy flynedd yn olynol. |

### Canlyniad / camau gweithredu, flwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd cyd-destunol hwn yn rhoi cyd-destun i strategaeth gyflogaeth y CDLl. Wrth baratoi'r CDLl, ni nododd y sylfaen dystiolaeth berthynas gref rhwng twf y boblogaeth a gofyniad am dir cyflogaeth. Yn lle hynny, argymhellwyd y dylid gwneud darpariaeth fel y gall busnesau uwchraddio a newid safleoedd. Er mwyn diwallu'r angen hwn, dyrannodd y CDLl 45 hectar o dir cyflogaeth.

Mae Tabl 5 yn dangos bod poblogaeth oedran gweithio Powys wedi gostwng rhwng 2018 a 2021, gyda chynnydd bach yn 2022. Mae data demograffig a gasglwyd drwy Gyfrifiad 2021 yn awgrymu y disgwylir i'r gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio barhau am weddill cyfnod y CDLl mabwysiedig (hyd at 2026) a thros oes y CDLl Newydd (2022-2037).

Nid oes data diweithdra ar gael ar lefel Powys ar gyfer y cyfnod monitro hwn, ond ar gyfer Cymru, cyfanswm y bobl ddi-waith a gofnodwyd oedd 2.3%. Mewn cyferbyniad, mae pryderon wedi'u codi ynghylch amrywiaeth o ddiwydiannau ar draws Powys ynghylch anawsterau wrth recriwtio staff newydd, gyda swyddi gwag yn parhau heb eu llenwi.

Bydd ymchwil yn cael ei wneud fel tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o baratoi'r CDLl Newydd; bydd hyn yn cynnwys ailystyried targedau a'r strategaeth ofodol o ran datblygu cyflogaeth. Bydd yr ymchwil yn ystyried ffactorau megis y boblogaeth oedran gweithio ym Mhowys, lefelau diweithdra a'r Fargen Twf, ynghyd â'r angen am gydbwysedd rhwng cartrefi newydd a swyddi.

**Tabl 5. Nifer a Chanran y Bobl ym Mhowys yn ôl eu Gweithgarwch Economaidd naill ai'n Ddi-waith, yn Economaidd Anweithgar neu'n Economaidd Weithgar (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).**

| Dyddiad — 31 Rhagfyr Pob Blwyddyn | Poblogaeth Oedran Gweithio | Economaidd Weithgar | Economaidd Anweithgar | Di-waith | Canran Di-waith |
|---|---|---|---|---|---|
| **2022** | 74,200 | 57,100 | 17,100 | Ddim ar gael | Ddim ar gael |
| **2021** | 72,500 | 57,700 | 14,800 | 2,800 | 3.9% |
| **2020** | 73, 400 | 58,300 | 15,100 | 3,000 | 4.1% |
| **2019** | 73,600 | 57,700 | 15,800 | 1,800 | 2.4% |
| **2018** | 74,100 | 59,000 | 15,100 | 1,300 | 1.8% |
| **2017** | 75,000 | 61,500 | 13,500 | 1,500 | 2% |

Ffynhonnell: Cronfa Wybodaeth Llesiant: Gweld gwybodaeth ynglŷn â'r gweithlu Cyflogaeth - Cyngor Sir Powys

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

## Dangosydd Cyd-destunol 2: Nifer yr achosion o ddigartrefedd a gofnodir ym Mhowys.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer yr achosion o ddigartrefedd a gofnodir ym Mhowys.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP3 — Y Targed Tai Fforddiadwy |
| **Polisïau Cysylltiedig:** | Polisi Strategol SP1 — Y Cynnydd Tai |
| **Targed:** | Dim cynnydd yn nifer yr achosion o ddigartrefedd a gofnodir ym Mhowys. |
| **Trothwy:** | Mae nifer yr achosion o ddigartrefedd a gofnodir ym Mhowys yn cynyddu am ddwy flynedd yn olynol. |

### Canlyniad / camau gweithredu, flwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r dangosydd cyd-destunol hwn yn rhoi cyd-destun i Strategaeth Dai y CDLl, sef darparu 4,500 o anheddau ychwanegol y mae 952 ohonynt yn fforddiadwy dros oes y cynllun. Mae'r rhesymau dros ddigartrefedd y tu allan i gylch gwaith y cynllun; mae'r rhain yn cynnwys perthnasoedd sy'n chwalu, rhieni sy'n amharod neu'n methu darparu llety ar gyfer plant sydd mewn oed, neu golli llety rhent neu lety clwm. Fodd bynnag, gellir ystyried cynnydd mewn digartrefedd fel dangosydd o'r angen am dai, a gallai cynnydd cyson ddangos bod yr angen am dai yn drech na'r cyflenwad o anheddau (yn enwedig aneddiadau fforddiadwy) a ddarperir trwy'r CDLl.

Mae Tabl 6 yn dangos nifer yr achosion o ddigartrefedd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r data yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2020 -2021, roedd hyn yn debygol o fod oherwydd y pandemig Covid-19, a oedd wedi arwain at golli swyddi, incymau llai a mwy o bwysau ar berthnasoedd yn ystod cyfnodau cloi. Ers mis Ebrill 2022, ac yn parhau i fis Ebrill 2023, cydnabuwyd bod argyfwng costau byw, lle mae chwyddiant a chostau byw yn cynyddu'n gyflymach o lawer nag incymau blynyddol, ac mae hyn wedi'i waethygu ymhellach gan gynnydd mewn cyfraddau llog, sy'n effeithio ar forgeisi a phrisiau rhent. Mae'r cynnydd cyflym mewn prisiau tai yn lleol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf hefyd wedi dylanwadu ar nifer yr achosion digartrefedd hefyd; fodd bynnag, mae'r duedd hon bellach wedi dechrau arafu, os nad gwrthdroi.

Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Awdurdod Tai Strategol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae hyn yn cynnwys rhaglen o gynlluniau tai cymdeithasol newydd sydd ar wahanol gamau rhwng trafodaethau cynnar, ceisiadau cynllunio wedi eu cyflwyno, wrthi'n cael eu hadeiladu a safleoedd gorffenedig. Arweiniodd y rhaglen ei hun at 92 o anheddau fforddiadwy ychwanegol yn ystod y cyfnod monitro.

Bydd angen ystyried y cynnydd yn nifer yr achosion o ddigartrefedd wrth benderfynu ar y gofyniad anheddau a'r targed tai fforddiadwy ar gyfer y CDLl Newydd. Bydd hyn yn cynnwys ymchwilio ymhellach ac ymchwil i sut mae achosion o ddigartrefedd yn troi yn gartrefi fforddiadwy ychwanegol y mae eu hangen, ble mae'r angen yn ardal y Cynllun, a'r math o eiddo sydd ei angen. Bydd y sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r CDLl Newydd hefyd yn ystyried a oes digon o gyfleoedd cyflogaeth mewn cymunedau.

https://en.powys.gov.uk/article/11126/Wellbeing-Information-Bank-View-information-about-homelessness

### Tabl 6. Nifer yr Achosion o Ddigartrefedd ym Mhowys (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

| Blwyddyn (1 Ebrill i 31 Mawrth) | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| **2019 - 2020** | 607 |
| **2020 - 2021** | 714 |
| **2021 - 2022** | 831 |
| **2022 - 2023** | 1103 |

Ffynhonnell: Cyngor Sir Powys

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**I'w Ailystyried yn y CDLl Newydd.**

## Dangosydd Cyd-destunol 3: Y pris tŷ cyfartalog o'i gymharu â'r incwm cyfartalog ym Mhowys

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Y pris tŷ cyfartalog o'i gymharu â'r incwm cyfartalog ym Mhowys** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Y Cynnydd Tai |
| **Polisïau Cysylltiedig:** | Polisi Strategol SP3 — Y Targed Tai Fforddiadwy |
| **Targed:** | I unrhyw gynnydd ym mhris y tŷ cyfartalog fod yn gymesur â'r cynnydd cyfartalog mewn incwm. |
| **Trothwy:** | Nid yw'r cynnydd ym mhris y tŷ cyfartalog yn gymesur â'r cynnydd cyfartalog mewn incwm am ddwy flynedd yn olynol. |

### Canlyniad / camau gweithredu, flwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd cyd-destunol hwn yn edrych ar y data cyd-destunol ar gyfer data prisiau tai o'u cymharu â chyflogau. Byddai cynnydd cyson mewn prisiau tai nad adlewyrchir mewn cynnydd mewn cyflogau yn effeithio ar fforddiadwyedd, a gallai olygu bod cyfran y bobl nad ydynt yn gallu prynu eu cartref eu hunain ar gynnydd.

Mae'r dangosydd yn edrych ar brisiau tai cyfartalog blynyddol gan ddefnyddio data a gymerwyd o Fynegai Prisiau Tai y Gofrestrfa Tir. Mae'r data ar gyfer pob math o eiddo, gan gynnwys adeiladau newydd ac eiddo sydd eisoes yn bodoli ar gyfer ardal Cyngor Sir Powys, ac maent yn cynnwys prisiau tai ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Defnyddir data manwl am brisiau tai yn Nata y Prisiau a Dalwyd y Gofrestrfa Tir i lywio'r gwaith o fonitro dichonoldeb yn rhan o ddangosydd monitro AMB9.

Mae Tabl 7 yn dangos bod prisiau tai cyfartalog ym Mhowys wedi cynyddu 3.5% yn unig yn ystod y cyfnod monitro hwn, sy'n gyfradd is na'r newid a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Mynegai Prisiau Tai'r Gofrestrfa Tir (Mawrth 2022) yn dangos bod pris cyfartalog tai ar gyfer Powys (£251,937) yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yng Nghymru, yn dilyn Sir Fynwy (£364,643), Bro Morgannwg (£313,772), Caerdydd (£266,159). a Cheredigion (£260,366).

Mae nifer y gwerthiannau misol ym Mhowys wedi bod ar duedd ar i lawr yn ystod rhan olaf y cyfnod monitro, o bwynt uchel ar 148 ym mis Awst 2022 i lawr i 96 ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r duedd hon yn awgrymu bod ansicrwydd economaidd, yr argyfwng costau byw a chyfyngiadau fforddiadwyedd yn cael effaith ar y farchnad dai.

O ran data incwm, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cynnal Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, y mae'r data ohono ar gael ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru drwy

StatsCymru. Mae Tabl 7 yn dangos bod enillion wythnosol cyfartalog wedi gostwng ychydig ers mis Mawrth 2022.

Yn yr AMB blaenorol (AMB2022), cyfeiriwyd at ddata Incwm Aelwydydd Cyflogau CACI, yr ystyriwyd ei fod yn rhoi arwydd mwy uniongyrchol o incwm aelwydydd ac, felly, fforddiadwyedd, gyda data hefyd ar gael ar lefel fwy lleol. Yn anffodus, nid oedd y data hwn wedi'i ddiweddaru ar adeg adrodd.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y dangosydd cyd-destunol hwn yn dangos bod prisiau'r tŷ cyfartalog ym Mhowys yn cynyddu ar gyfradd sy'n uwch na'r incwm cyfartalog, ac felly maent yn parhau i fod yn anghymesur i'w gilydd. Felly, mae'r bwlch fforddiadwyedd tai ym Mhowys yn parhau i ehangu. Bydd effaith y newidiadau hyn ar fforddiadwyedd hefyd yn dibynnu ar ffactorau sy'n ymwneud â'r gallu i gael morgeisi, gan gynnwys cymarebau benthyciad/gwerth a lefelau adneuo.

Bydd effaith newidiadau mewn prisiau tai mewn perthynas ag incwm aelwydydd ac ar lefelau fforddiadwyedd yn cael ei hystyried a'i hasesu fel rhan o broses y CDLl Newydd. Bydd Asesiad newydd o'r Farchnad Dai Leol 2022, a fydd yn seiliedig ar fethodoleg a chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru, yn ystyried data prisiau tai ac incwm aelwydydd. Bydd canlyniadau'r asesiad hwn yn darparu tystiolaeth o'r angen am dai ar draws ardal CDLl Powys ac yn lleol ar lefel Ardal Marchnad Dai, a fydd yn cael ei defnyddio i lywio strategaeth a pholisïau tai fforddiadwy'r CDLl Newydd.

**Tabl 7. Y Pris Tŷ Cyfartalog Blynyddol a gymerwyd o ffigur Mynegai Prisiau Tai y Gofrestrfa Tir ar gyfer Powys (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)**

| Dyddiad | Y Pris Tŷ Cyfartalog | Canran y cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol | Yr enillion wythnosol cyfartalog (fesul pen) | Canran y cynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|---|
| **Ebrill 2018 (wrth fabwysiadu'r CDLl)** | £179,837 | N/A | £464.40 | N/A |
| **Mawrth 2019** | £185,306 | 3.2% | £477.80 | 2.9% |
| **Mawrth 2020** | £188,728 | 1.8% | £507.70 | 6.3% |
| **Mawrth 2021** | £212,057 | 12.3% | £540.20 | 6.4% |
| **Mawrth 2022** | £243,443 | 14.8% | £576.30 | 6.7% |
| **Chwefror 2023** | £251,937 | 3.5% | £573.20 | -0.5% |

Mynegai Prisiau Tai y Gofrestrfa Tir https://landregistry.data.gov.uk/app/root/?lang=cy

StatsCymru - enillion wythnosol gros canolrifol cyfartalog fesul ardal leol yng Nghymru a blwyddyn (diweddarwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2022) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings

| **<u>Cam Gweithredu</u>**<br><br>**I'w Ailystyried yn y CDLl Newydd.** |
|---|
| |

# 4. Dadansoddi Dangosyddion Craidd/Allweddol

4.1.1 Mae Dangosyddion Craidd / Allweddol yn cael eu nodi yn y Llawlyfr Datblygu Lleol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

4.1.2 Oni nodir fel arall, dim ond ceisiadau cynllunio Llawn neu Amlinellol a gymeradwywyd a gafodd eu hystyried er mwyn osgoi dyblygu niferoedd.

# Thema 1 — Cynllunio ar gyfer Twf mewn Mannau Cynaliadwy

## Amcan 1 — Diwallu Anghenion y Dyfodol

**Er mwyn diwallu anghenion Powys dros gyfnod y cynllun hyd at 2026, darparu digon o dir mewn lleoliadau priodol ar gyfer:**

**i. 5,588 o anheddau i fodloni galw ar gyfer 4,500 o anheddau fydd yn bodloni holl anghenion tai poblogaeth Powys, sy'n cynyddu ac yn heneiddio, a'r lleihad o safbwynt maint cartrefi, gan gynnwys llety marchnad agored, cartrefi fforddiadwy, llety i sipswn a theithwyr, ac anghenion tai arbenigol eraill.**

**ii. 45 hectar o dir at ddefnydd cyflogaeth a datblygu economaidd.**

**iii. Adwerthu, twristiaeth, hamdden, seilwaith, gwasanaethau ac anghenion eraill.**

### Dangosyddion Craidd Amcan 1 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB1 | Cyflenwad o dir ar gyfer tai (mewn blynyddoedd) (fesul cyfnod adrodd ac ers mabwysiadu'r CDLl) ac yn ôl Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS). | Amh. | Amh. |
| AMB2a | Y lefelau cwblhau tai blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. | | I'w Ailystyried mewn CDLl Newydd |
| AMB2b | Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai gronnol ddisgwyliedig. | | I'w Ailystyried mewn CDLl Newydd |
| AMB3 | Nifer net y cartrefi fforddiadwy ychwanegol sy'n cael eu hadeiladu yn ardal yr ACLl. | | Parhau i Fonitro |
| AMB3b | Deiliadaeth Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau — Newydd. | | Parhau i Fonitro |
| AMB7 | Cyfartaledd % cartrefi fforddiadwy yn cael ei sicrhau fel cyfran o gyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar ddatblygiadau preifat gyda 5 uned neu fwy ym mhob ardal is-farchnad. | | Parhau i Fonitro |
| AMB9 | Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol (dichonoldeb datblygiadau tai) ar draws y 4 ardal is-farchnad, a osodir yn erbyn y gwerthoedd gweddilliol a | | Angen Adolygu'r Polisi |

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| | ddefnyddiwyd yn Niweddariad yr Asesiad Dichonoldeb (Awst 2015). | | |
| AMB14 | Nifer y safleoedd i sipsiwn a theithwyr a nifer y stondinau i dderbyn caniatâd cynllunio a'u cyflawni. | Monitro wedi ei gwblhau 2021 | Nid oes angen monitro ychwanegol. |
| AMB15 | Maint y tir ar gyfer cyflogaeth (hectarau) a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn y Cynllun Datblygu fel % o gyfanswm y dyraniadau cyflogaeth. | | Angen Ymchwil/Astudiaeth Pellach. |

## AMB1: Cyflenwad o dir ar gyfer tai (mewn blynyddoedd) (fesul cyfnod adrodd ac ers mabwysiadu'r CDLl) ac yn ôl Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS).

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Cyflenwad o dir ar gyfer tai (mewn blynyddoedd) (fesul cyfnod adrodd ac ers mabwysiadu'r CDLl) ac yn ôl Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS).** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Twf Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | Ddim yn gymwys. |
| **Targed:** | Cynnal cyflenwad tir ar gyfer tai o leiaf 5 mlynedd (yn unol â gofynion TAN1). |
| **Trothwy:** | Mae'r JHLAS yn cofnodi cyflenwad tir ar gyfer adeiladu tai o lai na 5 mlynedd mewn unrhyw flwyddyn unigol yn sgil mabwysiadu'r Cynllun. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Nid yw hwn yn ddangosydd craidd mwyach. Mae'r angen i ddangos cyflenwad o dir tai ar gyfer pum mlynedd o leiaf wedi ei ddisodli gan fonitro, gan ei gymharu â'r Llwybr Tai. Gweler dangosydd monitro AMB2b.

**Cam Gweithredu**

Amh.

## AMB2a: Nifer net yr anheddau ychwanegol (marchnad gyffredinol a fforddiadwy) a adeiladwyd yn ardal yr ACLI (fesul cyfnod adrodd ers mabwysiadu'r CDLI).

Oherwydd cyhoeddiad Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Mawrth 2020), mae AMB2 wedi ei ddiwygio a'i rannu rhwng AMB2a ac AMB2b.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **AMB2a. Y lefelau cwblhau tai blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Twf Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | Ddim yn gymwys |
| **Targed:** | Darparu 4,500 (cyfartaledd o 300 y flwyddyn) o anheddau net ychwanegol dros gyfnod y Cynllun 2011–2026. |
| **Trothwy:** | Pan fydd nifer net blynyddol yr anheddau ychwanegol yn syrthio o dan y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (am ddwy flynedd yn olynol). |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLI:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn ymwneud â strategaeth twf y CDLI a oedd yn cynnwys ffigur gofyniad annedd o 4,500 o anheddau newydd. I'r CDLI ddarparu 4,500 o anheddau yn ystod y cyfnod o 15 mlynedd (2011 i 2026), mae'r nifer net cyfartalog blynyddol o anheddau sydd i'w cwblhau bob blwyddyn yn cyfateb â 300 o unedau.

Yn ystod y cyfnod monitro (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023) cwblhawyd cyfanswm o 339 o anheddau. Fel y dangosir yn y tabl isod, mae'r ffigur hwn yn welliant parhaus ar flynyddoedd cynnar y cynllun ac yn uwch na ffigur y gofyniad anheddau cyfartalog blynyddol gwreiddiol o 300 o anheddau.

O ddechrau cyfnod y cynllun, sef 1 Ebrill 2011 hyd at y dyddiad sylfaen o 1 Ebrill 2015 pan gyfrifwyd yr elfennau darpariaeth tai, roedd 622 o unedau preswyl wedi eu cwblhau. Mae hyn yn is na'r 1,200 o unedau sydd eu hangen dros y cyfnod o bedair blynedd, gyda diffyg o 578 o unedau.

I roi cyfrif am y diffyg, dylid addasu ffigur y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol i 352.5 annedd fesul flwyddyn (sy'n cael ei dalgrynnu i 353 o anheddau), yn unol â'r enghreifftiau a ddangosir ym mharagraff 8.16 o Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3). Adlewyrchir hyn yn Nhabl 8, Tabl 9 (21A) a Ffigur 1 y llwybr tai isod.

Mae nifer yr anheddau ychwanegol a gwblhawyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 yn uwch na'r AAR fel y nodir yn y cynllun (300 o unedau), ond yn is na'r AAR wedi'i addasu (353 o unedau), sy'n ystyried y diffyg a gronnwyd ym mlynyddoedd cynnar y cynllun.

Mae wyth mlynedd bellach wedi mynd heibio ers dyddiad sylfaen y ddarpariaeth tai, sef Ebrill 2015. O fewn y cyfnod wyth mlynedd, mae tri chyfnod pan oedd y ffigur cwblhau blynyddol yn llai na'r gofyniad cyfartalog blynyddol (AAR) am fwy na dwy flynedd yn olynol. Mae hyn yn golygu bod y pwynt sbardun wedi'i gyrraedd ac nad yw'r amcan o ddarparu 4,500 o anheddau cyn diwedd cyfnod y cynllun yn debygol o gael ei fodloni. Felly, bydd angen ailasesu cydran tai'r strategaeth wrth baratoi'r CDLl Newydd.

Rhoddir ystyriaeth i'r gofyniad cronnol yn erbyn tai a gwblhawyd yn nangosydd monitro 2b yr AMB.

### Tabl 8. Nifer Net y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn o'i gymharu â Ffigur y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol

| Blwyddyn | Nifer a gwblhawyd | Yn erbyn AAR (300 o unedau) | Canran | Yn erbyn AAR (353 o unedau) | Canran |
|---|---|---|---|---|---|
| **2011 - 2015** | 622 | - 578 | - 48% | Amh. | Amh. |
| **2015 - 2016** | 316 | +16 | + 5% | - 38 | - 10% |
| **2016 - 2017** | 253 | - 47 | -16% | - 93 | - 28% |
| **2017 - 2018** | 195 | - 105 | - 35% | - 167 | - 45% |
| **2018 - 2019** | 163 | - 137 | - 46% | - 208 | - 54% |
| **2019 - 2020** | 237 | - 63 | - 21% | - 123 | - 33% |
| **2020 – 2021** | 315 | +15 | + 5% | - 38 | - 11% |
| **2021 – 2022** | 369 | + 69 | + 23% | + 16 | + 5% |
| **2022 – 2023** | 339 | + 39 | + 13% | - 14 | - 4% |

**Cam Gweithredu**

**I'w Ailystyried yn y CDLl Newydd.**

Nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei gyflawni.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnwys Tabl (21A) a llwybr er mwyn adlewyrchu'r nifer gwirioneddol a gwblhawyd fesul blwyddyn o'i gymharu â'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol, gan ei gyflwyno fel a ganlyn


**Tabl 9. (21A) Y Llwybr Tai ar 1 Ebrill 2023**

| Blwyddyn CDLl | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
| Y Nifer Gwirioneddol a Gwblhawyd — Mawr | 15 | 147 | 123 | 0 | 231 | 139 | 107 | 53 | 96 | 173 | 246 | | | | |
| Y Nifer Gwirioneddol a Gwblhawyd — Bach | 82 | 60 | 69 | 99 | 85 | 114 | 88 | 110 | 141 | 142 | 93 | | | | |
| Safleoedd (Dyraniadau Tai) a bennwyd y disgwylir eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | 161 | 482 | 628 |
| Y niferoedd banc tir (HC/HLB) y disgwylir eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | 104 | 138 | 84 |
| Nifer y tai ar hap y disgwylir eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | 110 | 110 | 110 |
| Cyfanswm Gwirioneddol y tai a Gwblhawyd yn ystod y flwyddyn | 97 | 207 | 192 | 99 | 316 | 253 | 195 | 163 | 237 | 315 | 369 | 339 | | | |
| Y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol | | | | | 353 | 353 | 353 | 353 | 353 | 353 | 353 | 353 | 353 | 353 | 353 |
| Cyfanswm y tai y disgwylir eu cwblhau: | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |

*Noder bod y ffigur ar gyfer y cyfanswm a gwblhawyd yn ystod blynyddoedd 1–4 ychydig yn wahanol i'r 622 a gyhoeddwyd yn Nhabl H2 y CDLl oherwydd newidiadau mewn systemau monitro, gan gynnwys y newid o fonitro 1 Ionawr–31 Rhagfyr i 1 Ebrill–31 Mawrth

**Y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol yn y CDLl yw 300 o unedau. Fodd bynnag, bu'n rhaid diwygio hyn er mwyn ystyried yr unedau a gwblhawyd cyn dyddiad sylfaen y cynllun (Ebrill 2015) pryd y cyfrifwyd y ddarpariaeth tai.

## Ffigur 1: Llwybr Datblygu Tai 2011–2026 ar 1 Ebrill 2023



## AMB2b. Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai gronnol ddisgwyliedig.

Oherwydd cyhoeddiad Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Mawrth 2020), mae AMB2 wedi ei ddiwygio a'i rannu rhwng AMB2a ac AMB2b.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **AMB2b. Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai gronnol ddisgwyliedig.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Twf Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | Ddim yn gymwys |
| **Targed:** | Darparu 4,500 (cyfartaledd o 300 y flwyddyn) o anheddau net ychwanegol dros gyfnod y Cynllun 2011–2026.<br><br>Ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun bydd gofyn y niferoedd canlynol o ran anheddau net blynyddol ychwanegol:<br><br>2015–2016: 322<br>2016–2017: 321<br>2017–2018: 325<br>2018–2019: 357<br>2019–2020: 356<br>2020–2021: 356<br>2021–2022: 377<br>2022–2023: 354<br>2023–2024: 367<br>2024–2025: 361<br>2025–2026: 352 |
| **Trothwy:** | Pan fydd nifer net blynyddol yr anheddau ychwanegol sy'n cael eu gorffen yn syrthio o dan nifer gronnus yr anheddau sydd eu hangen (a nodir yn y targed fel nifer net y gofynion blynyddol ar gyfer anheddau ychwanegol am weddill cyfnod y Cynllun) am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn ymwneud â strategaeth twf y CDLl a oedd yn cynnwys ffigur gofyniad annedd o 4,500 o anheddau newydd. Cyfrifwyd elfennau darpariaeth tai y CDLl ar y dyddiad sylfaen, sef 1 Ebrill 2015; bryd hynny, roedd 622 o anheddau wedi eu

cwblhau ers dechrau cyfnod y Cynllun. Felly, mae'n ofynnol adeiladu 3,878 o anheddau ychwanegol cyn diwedd cyfnod y Cynllun (rhwng 2015 a 2026) er mwyn bodloni gofyniad anheddau y CDLl.

O fewn ardal y Cynllun, cwblhawyd cyfanswm o **339 o anheddau** yn ystod y cyfnod monitro. Gweler Tabl 10. Mae'r 339 o anheddau, ynghyd â chwblhau 1,848 o anheddau a gofnodwyd yn ystod y saith mlynedd flaenorol, yn golygu bod **cyfanswm o 2,187 o anheddau** wedi'u cwblhau wedi'u cofnodi ers dyddiad sylfaen y ddarpariaeth tai, sef 1 Ebrill 2015.

Mae'r ffigwr o 339 o anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd yn is na tharged anheddau ychwanegol net AMB y CDLl mabwysiedig (a nodir ar gyfer y dangosydd monitro hwn) ar gyfer yr un cyfnod, sef 354 o unedau. Cyfanswm cronnol y targedau anheddau ychwanegol net a nodir yn y dangosydd monitro hwn, ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2023 yw 2,768 o unedau. O gymharu'r 2,187 o dai a gwblhawyd yn erbyn y targed gofyniad net o 2,768 o anheddau ychwanegol, gellir gweld bod diffyg o 581 o dai a gwblhawyd dros y cyfnod wyth mlynedd.

Mae nifer yr anheddau a gwblhawyd eleni yn ostyngiad o 30 annedd o ffigur y llynedd. Fodd bynnag, mae Ffigur 2 yn dangos bod cyfanswm nifer yr anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn yn parhau i fod yn uwch na blynyddoedd cynnar y cynllun, ac mae'n parhau i fod yn fwy na 300 o anheddau sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn. Serch hynny, mae'r pwynt sbardun ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i gyrraedd, gyda nifer yr anheddau ychwanegol net blynyddol a gwblhawyd yn is na'r targed gofyniad anheddau cronnus yn gyson ers dyddiad sylfaen y ddarpariaeth tai, sef 1 Ebrill 2015.

Wrth ychwanegu'r 2,187 o anheddau a ddarparwyd yn y cyfnod rhwng 2015 a 2023 at y 622 o anheddau a gwblhawyd rhwng 2011 a 2015, mae cyfanswm o 2,809 o unedau wedi'u darparu (62% o'r targed). Gyda dim ond tair blynedd o gyfnod y Cynllun yn weddill, mae'n golygu nad yw'r amcan o ddarparu 4,500 o anheddau cyn diwedd cyfnod y cynllun yn debygol o gael ei gyflawni.


Bydd elfen dai y strategaeth CDLl yn cael ei hailystyried, gan edrych ar yr amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf, cyfraddau adeiladu a chan fanylu ar dystiolaeth o'r angen mewn Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, yn rhan o'r broses o baratoi CDLl Newydd.

### Tabl 10. Y Nifer Cronnol Gwirioneddol a Gwblhawyd o'i gymharu â'r Targed Cronnol ar gyfer Cwblhau Aneddiadau

| Blwyddyn | Targed Cronnol | Y Nifer Cronnol Gwirioneddol a Gwblhawyd | Y Nifer Cronnol a Gwblhawyd o'i Gymharu â'r Targed | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **2015 - 2016** | 322 | 316 | - 7 | - 2% |
| **2016 - 2017** | 643 | 569 | - 74 | - 12% |
| **2017 - 2018** | 968 | 764 | - 204 | - 21% |
| **2018 - 2019** | 1,325 | 927 | - 398 | - 30% |

| Blwyddyn | Targed Cronnol | Y Nifer Cronnol Gwirioneddol a Gwblhawyd | Y Nifer Cronnol a Gwblhawyd o'i Gymharu â'r Targed | Canran |
|---|---|---|---|---|
| **2019 - 2020** | 1,681 | 1,164 | - 517 | - 31% |
| **2020 - 2021** | 2,037 | 1,479 | - 558 | - 27% |
| **2021 - 2022** | 2,414 | 1,848 | - 566 | - 23% |
| **2022 - 2023** | 2,768 | 2,187 | - 581 | - 21% |

**Ffigur 2. Siart sy'n Dangos Nifer yr Anheddau Ychwanegol ers Dyddiad Sylfaen y Ddarpariaeth Dai ym mis Ebrill 2015 o'i Gymharu â'r Gofyniad Anheddau Ychwanegol Net**




**Cam Gweithredu**

**I'w Ailystyried mewn CDLl Newydd.**

Ni chyflawnir strategaeth y cynllun.

## AMB3: Nifer net y cartrefi fforddiadwy ychwanegol sy'n cael eu hadeiladu yn ardal yr ACLI.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer net y cartrefi fforddiadwy ychwanegol sy'n cael eu hadeiladu yn ardal yr ACLI.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Twf Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | Ddim yn gymwys |
| **Targed:** | Darparu 952 (cyfartaledd o 63 y flwyddyn) o gartrefi fforddiadwy net ychwanegol dros gyfnod y Cynllun (2011–2026).<br><br>Targed net blynyddol ar gyfer cartrefi fforddiadwy ychwanegol dros weddill cyfnod y Cynllun (2015–2026):<br><br>2015–2016: 90<br>2016–2017: 89<br>2017–2018: 69<br>2018–2019: 72<br>2019–2020: 69<br>2020–2021: 68<br>2021–2022: 60<br>2022–2023: 54<br>2023–2024: 66<br>2024–2025: 71<br>2025–2026: 67 |
| **Trothwy:** | Pan fydd nifer net blynyddol y cartrefi fforddiadwy ychwanegol sy'n cael eu gorffen yn syrthio o dan nifer gronnus sydd eu hangen (a nodir yn y targed fel nifer net y gofynion blynyddol ar gyfer cartrefi fforddiadwy ychwanegol am weddill cyfnod y Cynllun) am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLI:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Cyfrifwyd elfennau darpariaeth tai y CDLI ar y dyddiad sylfaen, sef 1 Ebrill 2015; bryd hynny, roedd 186 o dai fforddiadwy wedi eu cwblhau ers dechrau cyfnod y Cynllun. Mae'n ofynnol adeiladu 766 o dai fforddiadwy eraill cyn diwedd cyfnod y Cynllun er mwyn cyflawni targed y CDLI o ddarparu 952 o dai fforddiadwy - disgwylir i 659 ohonynt gael eu darparu ar ddyraniadau tai y CDLI, a disgwylir i 107 ddod rhagddynt ar safleoedd ar hap.

Mae'r Fframwaith Monitro Blynyddol yn pennu targed tai fforddiadwy blynyddol ar gyfer gweddill blynyddoedd cyfnod y Cynllun. Ceir crynodeb o'r cyfraddau darparu tai fforddiadwy o'u cymharu â'r targedau blynyddol a chronnol yn Nhabl 11 isod. Dangosir y cyfraddau darparu tai fforddiadwy o'u cymharu â'r targedau blynyddol yn Ffigur 3 hefyd.

Mae'r **124 o anheddau fforddiadwy** a gwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro hwn, ynghyd â'r gyfradd gwblhau o 522 o anheddau a gofnodwyd yn ystod y saith mlynedd flaenorol, yn golygu bod **cyfanswm o 646 o dai a gwblhawyd** wedi'u cofnodi ers dyddiad sylfaen y ddarpariaeth tai, sef 1 Ebrill 2015.

Mae'r 646 o dai fforddiadwy a gwblhawyd yn uwch na'r targed cronnus o 571 o unedau a oedd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2023. Mae hyn yn golygu bod y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu ar y trywydd iawn i gyflawni'r tai fforddiadwy ychwanegol yn unol â tharged tai fforddiadwy'r CDLl sydd wedi'i fabwysiadu.


Dengys Ffigur 3 fod nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd bob blwyddyn yn amrywio'n sylweddol. Mae hyn yn rhannol oherwydd ei fod wedi'i ddylanwadu'n drwm gan nifer yr anheddau fforddiadwy a ddarperir trwy raglenni adeiladu tai'r Cymdeithasau Tai Lleol a'r Cyngor. O'r 124 o anheddau fforddiadwy a gwblhawyd, adeiladwyd 31 gan Gymdeithasau Tai a 61 gan yr Awdurdod Tai Strategol (sef y Cyngor).

Rhagwelir y bydd nifer y tai fforddiadwy a gwblheir pob blwyddyn yn parhau i gyflawni o'i gymharu â thargedau Tai Fforddiadwy y CDLl. Mae gan raglenni'r Gymdeithas Tai Lleol, a gwaith adeiladu tai y Cyngor, nifer sylweddol o brosiectau sydd ar y gweill a fydd yn sicrhau cynnydd parhaus yn nifer y tai fforddiadwy a ddarperir dros y blynyddoedd nesaf.

### Tabl 11. Y Nifer Cronnol Gwirioneddol o Anheddau Fforddiadwy a Gwblhawyd o'i gymharu â'r Targed Cronnol ar gyfer Cwblhau Anheddau

| Cyfnod monitro | Targed blynyddol | Y nifer gwirioneddol o unedau tai fforddiadwy a ddarparwyd | Targed cronnol | Y nifer cronnol a gwblhawyd | Y nifer cronnol a ddarparwyd o'i gymharu â'r targed |
|---|---|---|---|---|---|
| **2015 – 2016** | 90 | 111 | 90 | 111 | +21 |
| **2016 – 2017** | 89 | 46 | 179 | 157 | -22 |
| **2017 – 2018** | 69 | 66 | 248 | 223 | -25 |
| **2018 – 2019** | 72 | 17 | 320 | 240 | -80 |
| **2019 – 2020** | 69 | 69 | 389 | 309 | -80 |
| **2020 - 2021** | 68 | 108 | 457 | 417 | -40 |
| **2021 - 2022** | 60 | 105 | 517 | 522 | +5 |
| **2022 - 2023** | 54 | 124 | 571 | 646 | +75 |

**Ffigur 3. Siart sy'n Dangos y Cyfraddau Darparu Tai Fforddiadwy o'u Cymharu â'r Targedau Blynyddol.**




| **<u>Cam Gweithredu</u>**<br><br>**Parhau i fonitro**.<br><br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| --- |
| |

### AMB3b: Deiliadaeth Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Deiliadaeth Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP3 — Targed Tai Fforddiadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | I gyfartaledd y cymysgedd daliadaeth o ran cartrefi fforddiadwy sydd wedi'u cwblhau gyd-fynd â'r dystiolaeth o ran anghenion tai a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol sef:<br>• Rhent cymdeithasol — 75%<br>• Tai canolradd i'w rhentu — 25%<br>Neu ganrannau diwygiedig mewn unrhyw Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a ddiweddarwyd |
| **Trothwy:** | Pan na fydd cymysgedd daliadaeth cartrefi fforddiadwy sydd wedi eu cwblhau yn cyd-fynd â thystiolaeth yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol am ddwy flynedd yn olynol |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar ddeiliadaeth cwblhau tai fforddiadwy. Fe'i cynlluniwyd i brofi'r rhaniad deiliadaeth rhwng tai fforddiadwy rhent cymdeithasol a thai fforddiadwy canolradd, ac i gyfochri â'r angen a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Powys (2016) yn nodi'r angen am dai fforddiadwy yn seiliedig ar raniad deiliadaeth o 75% rhent cymdeithasol a 25% canolradd.

Ceir crynodeb o ganlyniadau'r gwaith monitro hwn yn Nhabl 12. Mae'r canlyniadau'n dangos mai deiliadaeth rhent cymdeithasol yw mwyafrif y tai fforddiadwy a gwblheir, a dim ond canran fach o dai canolradd a gwblheir. Mae'r rhaniad deiliadaeth hwn yn unol â'r dystiolaeth sydd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol (2016).

Yn y dyfodol, bydd y dangosydd hwn yn cael ei fonitro o'i gymharu â'r rhaniad deiliadaeth a nodwyd gan Asesiad o'r Farchnad Dai Leol newydd 2022 y disgwylir ei gynnal yn ystod y cyfnod monitro nesaf (Ebrill 2024).

### Tabl 12. Nifer y Tai Fforddiadwy a Gwblhawyd fesul Deiliadaeth

| Deiliadaeth | Nifer yr unedau | % yr unedau cyffredinol |
|---|---|---|
| **Rhent cymdeithasol** | 84 | 68% |
| **Llety gwarchod – Rhentu cymdeithasol** | 15 | 12% |
| **Rhent canolradd** | 0 | 0% |
| **Canolradd ar werth** | 25 | 20% |
| **Heb ei Nodi** | 0 | 0% |

**Cam Gweithredu**

**Parhau i fonitro**.

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB7: Cyfartaledd % cartrefi fforddiadwy yn cael ei sicrhau fel cyfran o gyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar ddatblygiadau preifat gyda 5 uned neu fwy ym mhob ardal isfarchnad

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Cyfartaledd % cartrefi fforddiadwy yn cael ei sicrhau fel cyfran o gyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar ddatblygiadau preifat gyda 5 uned neu fwy ym mhob ardal isfarchnad** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP3 — Targed Tai Fforddiadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H5 — Cyfraniadau at Dai Fforddiadwy |
| **Targed:** | % y cartrefi fforddiadwy fel cyfran o'r holl unedau tai sy'n cael eu sicrhau'n flynyddol ar ddatblygiadau preifat gyda 5 uned neu fwy i gyd-fynd â thargedau'r isfarchnad fel a ganlyn:<br><br>30% Canol Powys<br>20% Dyffryn Hafren<br>10% Gogledd Powys<br>0% De Orllewin Powys |
| **Trothwy:** | Pan fydd % y cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu sicrhau fel cyfran o'r cyfanswm unedau tai a ganiateir ar ddatblygiadau preifat gyda 5 uned neu fwy mewn unrhyw ardal isfarchnad yn syrthio o dan y cyfraniadau targed a amlinellir ym Mholisi H5 am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021-2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn nodi'r targedau polisi ar gyfer sicrhau cyfraniadau tai fforddiadwy ar draws y pedair ardal isfarchnad wahanol, yn seiliedig ar y targedau a nodir ym Mholisi H5 y CDLl. Mae'r targed monitro yn gofyn am gyfrifiad o'r cyfraniad cyfartalog a sicrheir ar gyfer pob ardal isfarchnad.

Mae chwe datblygiad tai marchnad wedi'u cymeradwyo, naill ai ar ganiatâd amlinellol neu lawn, o dan Bolisi H5 y CDLl yn ystod y cyfnod monitro hwn. Roedd dau o'r chwech wedi'u lleoli yn Nyffryn Hafren, dau yng Nghanol Powys a dau o fewn ardaloedd is-farchnad Gogledd Powys. Sicrhawyd cyfraniad o dai fforddiadwy a oedd naill ai'n gyfartal â'r targedau a nodir ym Mholisi H5 y CDLl tuag at dai fforddiadwy trwy amod ar bob un o'r trefniadau caniatâd neu'n uwch na hynny. Mae cyfanswm nifer y tai fforddiadwy a sicrhawyd trwy'r chwe chaniatâd yn cyfateb i 17 annedd.

Mae'r canlyniadau ar gyfer y dangosydd monitro hwn yn gadarnhaol oherwydd eu bod yn dangos bod cyfraniadau tai fforddiadwy yn cael eu trafod yn unol â'r targedau polisi ar adeg y caniatâd cynllunio gwreiddiol.

**Tabl 13. Y Cyfraniadau Tai Fforddiadwy Cyfartalog a Sicrhawyd o'u Cymharu â'r Cyfraniad Targed ar gyfer yr Ardal Isfarchnad yn ystod y Cyfnod Monitro.**

| Ardal isfarchnad | Cyfraniad targed | Cyfraniad cyfartalog |
|---|---|---|
| **Canol Powys** | 30% | 33% |
| **Dyffryn Hafren** | 20% | 20% |
| **Gogledd Powys** | 10% | 15% |
| **De-orllewin Powys** | 0% | 0% |

**Cam Gweithredu**

**Parhau i fonitro**.

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB9: Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol (dichonoldeb datblygiadau tai) ar draws y 4 ardal isfarchnad, a osodir yn erbyn y gwerthoedd gweddilliol a ddefnyddiwyd yn Niweddariad yr Asesiad Dichonoldeb (Awst 2016).

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol (dichonoldeb datblygiadau tai) ar draws y 4 ardal isfarchnad, a osodir yn erbyn y gwerthoedd gweddilliol a ddefnyddiwyd yn Niweddariad yr Asesiad Dichonoldeb (Awst 2016). |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP3 — Targed Tai Fforddiadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H5 — Cyfraniadau at Dai Fforddiadwy |
| **Targed:** | Er mwyn parhau i adolygu dichonoldeb cyflawni cartrefi fforddiadwy i alluogi sicrhau cyrraedd y lefel uchaf bosib ac adlewyrchu newidiadau o ran dichonoldeb. |
| **Trothwy:** | Newid mewn gwerthoedd gweddilliol o 5% neu fwy o'r gwerthoedd gweddilliol a nodwyd yn Niweddariad yr Asesiad Dichonoldeb (Awst 2015) neu o werthoedd gweddilliol unrhyw ddiweddariad mewn unrhyw flwyddyn unigol yn y dyfodol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Asesodd Diweddariad ar Asesiad Dichonoldeb y CDLl (Gorffennaf, 2016) ddichonoldeb economaidd safleoedd datblygu tai'r farchnad, ac yn benodol, edrychodd ar y cyfraniad y gallai datblygwyr ei wneud tuag at ddarparu tai fforddiadwy yn y pedair ardal isfarchnad. Llywiodd y dystiolaeth hon y targedau tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi H5 y CDLl.

Diben y dangosydd monitro hwn yw cadw golwg ar ddichonoldeb cyflawni'r targedau tai fforddiadwy trwy nodi unrhyw newidiadau sylweddol mewn gwerthoedd gweddilliol a allai effeithio ar y targedau polisi.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Asesiad Hyfywedd Lefel Uchel a fydd yn darparu tystiolaeth i lywio'r CDLl Newydd. Bydd y gwerthoedd, y costau a thybiaethau eraill ynghylch hyfywedd yn cael eu diweddaru a'u hadolygu fel rhan o'r dystiolaeth hon. Defnyddir canfyddiadau'r asesiad hwn i adolygu'r targedau polisi tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi H5 y CDLl.

| **<u>Cam Gweithredu</u>**<br>**Angen Adolygu’r Polisi**<br>Mae angen adolygiad o'r polisi penodol, wedi'i lywio gan Asesiad Hyfywedd Lefel Uchel wedi'i ddiweddaru ar gyfer y CDLl Newydd. |
|---|
| |

## AMB14: Nifer y safleoedd i sipsiwn a theithwyr a nifer y stondinau i dderbyn caniatâd cynllunio a'u cyflawni

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y safleoedd i sipsiwn a theithwyr a nifer y stondinau i dderbyn caniatâd cynllunio a'u cyflawni** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Twf Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H11 — Darpariaeth Safle Sipsiwn a Theithwyr |
| **Targed:** | Darparu 5 stondin ym Machynlleth erbyn 2021.<br><br>Darparu 2 stondin yn y Trallwng erbyn 2026. |
| **Trothwy:** | Methu cyflawni'r 5 stondin ym Machynlleth erbyn 2021.<br><br>Methu cyflawni'r 2 stondin yn y Trallwng erbyn 2026. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | Gwaith monitro wedi'i gwblhau yn 2021 |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Polisi H11 y CDLl — Mae Darpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, yn darparu ar gyfer saith llain sipsiwn a theithwyr ar ddau safle, un ym Machynlleth ac un yn y Trallwng fel y nodir yn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2008 (diweddarwyd yn 2014 a 2016).

Cwblhawyd y ddwy lain sydd eu hangen yn y Trallwng erbyn 31 Mawrth 2019.

Cwblhawyd y pum llain sydd eu hangen ym Machynlleth ar 5 Mawrth 2021.

Felly, mae'r targed ar gyfer y dangosydd monitro hwn wedi ei gyflawni'n llwyddiannus

**<u>Cam Gweithredu</u>**

Cwblhawyd y gwaith monitro yn 2021 ac, felly, nid oes angen monitro pellach.  Bydd y CDLl Newydd yn cael ei lywio gan dystiolaeth ddiweddaredig newydd am anghenion.

### AMB15: AMB15: Maint y Tir ar gyfer cyflogaeth (hectarau) a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn y Cynllun Datblygu fel % o gyfanswm y dyraniadau cyflogaeth.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Maint y tir ar gyfer cyflogaeth (hectarau) a ganiateir ar safleoedd dyranedig yn y Cynllun Datblygu fel % o gyfanswm y dyraniadau cyflogaeth.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP2 — Twf Cyflogaeth |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc E1 — Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd a Ddyrannwyd ar gyfer Cyflogaeth<br>Polisi yn Seiliedig ar Bwnc E2 — Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Heb eu Dyrannu ar gyfer Cyflogaeth |
| **Targed:** | Caniatáu cyfanswm o 2 hectar o dir ar gyfer cyflogaeth y flwyddyn ar safleoedd dyranedig er mwyn bodloni'r gofynion angenrheidiol o 30 hectar dros gyfnod y Cynllun |
| **Trothwy:** | Os bydd cyfanswm y tir ar gyfer cyflogaeth yn syrthio o dan y tir cronnus sef 4 hectar am ddwy flynedd yn olynol. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r Fframwaith Monitro Blynyddol yn nodi targed blynyddol o ddau hectar o dir cyflogaeth i'w ganiatáu ar ddyraniadau cyflogaeth er mwyn bodloni'r gofyniad cyflogaeth o 30 hectar dros oes y CDLl. Diben y dangosydd hwn yw profi a yw'r dyraniadau cyflogaeth yn darparu tir cyflogaeth yn unol â'r strategaeth dwf a Pholisïau SP2 ac E2 y CDLl.

Cyfanswm y tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn ystod y cyfnod (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023) oedd 2.761 ha. Roedd hyn yn cyfateb i 6% o'r safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd, gan gynnwys y rhai a ddosbarthwyd yn safleoedd 'Defnydd Cymysg' (45 ha).

Roedd y 2.761 ha yn deillio o ddau gais cynllunio ar ddau safle a neilltuwyd ar wahân, gan arwain at gyfanswm arwynebedd llawr o 3,900 metr sgwâr o gymysgedd o arwynebedd llawr B2, B8, B1a a B1c.

Mae'r cyfanswm cronnus dros y ddau gyfnod monitro diwethaf yn cyfateb i 3.506 ha o dir cyflogaeth yn cael ei ganiatáu ar safleoedd a neilltuwyd. Mae hyn ychydig yn is na'r pwynt sbarduno o bedwar hectar o dir cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd dros ddwy flynedd yn olynol.

Cynhelir gwaith ymchwil fel tystiolaeth i gefnogi'r broses o baratoi'r CDLl Newydd; bydd hyn yn cynnwys ailystyried darpariaeth y tir cyflogaeth a pha mor briodol yw'r safleoedd a ddyrennir.

### Tabl 14. Swm y Tir Cyflogaeth a Ganiatawyd ar Safleoedd Cyflogaeth wedi eu Dyrannu Ers i'r CDLl gael ei Fabwysiadu

| Cyfnod Monitro | Swm y Tir Cyflogaeth a Ganiatawyd (hectarau) |
|---|---|
| **17/04/2018 – 31/03/2019** | 4.297 |
| **2019-2020** | 0 |
| **2020-2021** | 1.809 |
| **2021-2022** | 0.745 |
| **2022-2023** | 2.761 |
| **Cyfanswm** | **9.612** |

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**Yr Ymchwil Ychwanegol Gofynnol**

Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen rhagor o waith ymchwil.

## Amcan 2 - Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy

**Cefnogi datblygu cynaliadwy, mynediad at wasanaethau ac integreiddio ffyrdd o ddefnyddio tir, trwy gyfeirio gwaith datblygu tai, cyflogaeth a gwasanaethau'n unol â hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy. Cyfeirir lefelau datblygu uwch i drefi a phentrefi mwy Powys, ond os na fydd y rhain yn gallu cynnal twf pellach oherwydd capasiti cyfyngedig, gwneir lle ar gyfer y gwaith datblygu mewn trefi neu bentrefi mawr gerllaw.**

### Dangosyddion Craidd Amcan 2 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB17b | Yr unedau tai net a gyflawnwyd mewn pob haen aneddiadau i gael eu mesur fel canran o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir bob blwyddyn. | | Parhau i Fonitro |

## AMB17b: Yr unedau tai net a gwblheir mewn pob haen aneddiadau i gael eu mesur fel canran o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir bob blwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy** |
| **Dangosydd:** | **AMB17b: Yr unedau tai net a gwblheir mewn pob haen aneddiadau i gael eu mesur fel canran o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir bob blwyddyn.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP6 — Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Anheddiad |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H1 — Cynigion Datblygu Dai |
| **Targed:** | % yr unedau tai net a gwblhawyd trwy'r haen hierarchaeth bob blwyddyn yn unol â'r dosbarthiad isod:<br><br>Trefi — cwblhau o leiaf 50% o'r cyfanswm twf mewn tai.<br><br>Pentrefi Mawr — cwblhau o leiaf 25% o'r cyfanswm twf mewn tai.<br><br>Pentrefi Bach — cwblhau dim mwy na 10% o'r cyfanswm twf mewn tai.<br><br>Aneddiadau Gwledig / Cefn Gwlad Agored gan gynnwys yr arfordir heb ei ddatblygu — cwblhau dim mwy na 15% o'r cyfanswm twf mewn tai. |
| **Trothwy:** | Pan fydd cyfran cyfanswm y datblygiadau tai a gwblheir:<br><br>a) yn syrthio o dan y targedau ar gyfer Trefi a Phentrefi Mawr;<br>b) yn uwch na'r targedau ar gyfer Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig /Cefn Gwlad Agored gan gynnwys yr arfordir heb ei ddatblygu;<br><br>am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | Amh. |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Dangosydd monitro newydd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Argraffiad 3 (Mawrth 2020) yw hwn. Diben y dangosydd hwn yw edrych ar ddosbarthiad gofodol datblygiadau tai a monitro'r tai a gwblheir bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth dwf a'r hierarchaeth aneddiadau.

Mae'n debyg i ddangosydd monitro AMB17, sy'n edrych ar ddosbarthiad y datblygiadau tai a ganiateir ar draws yr hierarchaeth aneddiadau. Bydd y gwaith monitro ar gyfer y

dangosydd hwn yn ystyried a yw'r datblygiadau preswyl a gwblhawyd yn cael eu dosbarthu ar draws yr hierarchaeth aneddiadau yn gyson â Pholisi Strategol SP6 y CDLl.

Mae Tabl 15 isod yn dangos y canlyniadau ar gyfer y cyfnod monitro hwn (sef rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023), ynghyd â dosbarthiad y tai a gwblhawyd ers dyddiad sylfaen y ddarpariaeth ta, sef 1 Ebrill 2015. Dengys y canlyniadau fod dosbarthiad yr anheddau ychwanegol ar draws yr hierarchaeth aneddiadau yn unol â strategaeth y CDLl mabwysiedig ar y cyfan, gyda mwyafrif y twf yn digwydd yn nwy haen uchaf yr hierarchaeth aneddiadau.

Fodd bynnag, mae canran y tai a gwblhawyd mewn Trefi wedi gostwng ers y cyfnod monitro blaenorol, ac mae canran y tai a gwblhawyd yn y Pentrefi Bychain a Chefn Gwlad Agored wedi cynyddu. Er bod hyn yn uwch na chanran darged y Cynllun yn yr aneddiadau haen is yn ystod y monitro hwn, mae hyn o un pwynt canran yn unig yn y ddau achos. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r adeg pan oedd diffyg cyflenwad tir pum mlynedd yn ardal y Cynllun. Arweiniodd hyn at roi caniatâd nad oedd o reidrwydd yn cyd-fynd â strategaeth ofodol y cynllun datblygu. Mae hefyd yn ganlyniad i anheddau mewn Pentrefi Bychain, Aneddiadau Gwledig a Chefn Gwlad Agored yn cael caniatâd ac yn cael eu hadeiladu i ddiwallu anghenion cymunedau gwledig; mae hyn yn cynnwys yr angen am dai fforddiadwy ac anheddau menter wledig.

Nid yw perfformiad y dangosydd hwn yn adlewyrchu'n gywir a yw'r polisïau yn y CDLl yn gweithio ai peidio. Mae lleoliad anheddau ychwanegol yn dibynnu ar ffactorau megis dyddiad y caniatâd cynllunio (fel y trafodwyd uchod) a ffactorau'r farchnad, yn enwedig ar gyfer blynyddoedd cynnar y cynllun. Argymhellir felly, oherwydd bod y sefyllfa'n gwella o ran dosbarthu tai a gwblheir yn ofodol yn gyson â'r hierarchaeth aneddiadau, fod y gwaith o fonitro'r dangosydd hwn yn parhau ac nad oes angen unrhyw gamau ychwanegol.

**Tabl 15. Nifer Net yr Anheddau Ychwanegol a Ddarparwyd yn ystod y Cyfnod Monitro ac ers Dyddiad Sylfaen Darpariaeth Dai y CDLl o'u cymharu â'r Targedau Hierarchaeth Aneddiadau ym Mholisi SP6 y CDLl.**

| Yr Hierarchaeth Aneddiadau | Nifer net yr anheddau ychwanegol yn ystod y cyfnod monitro | Canran | Y nifer cronnol o anheddau ychwanegol ers 1 Ebrill 2015 | Canran Gronnol | Targed Monitro |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tref** | 107 | 32% | 953 | 44% | >50% |
| **Pentref Mawr** | 140 | 41% | 603 | 28% | >25% |
| **Pentref Bach** | 36 | 11% | 185 | 8% | <10% |
| **Cefn Gwlad Agored / Anheddiad Gwledig** | 56 | 16% | 446 | 20% | <15% |
| **Cyfanswm** | **339** | | **2,187** | | **100%** |

| |
|---|
| **Cam Gweithredu**<br><br>**Parhau i fonitro**.<br><br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| |

### Amcan 4 — Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd

**Cefnogi newid i sir garbon isel gyda lefelau gwastraff isel trwy bob datblygiad, gan gynnwys lleihau'r gwastraff a anfonir at safleoedd tirlenwi, a chyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd lle mae'r risg o lifogydd yn uchel, a lle bo'n bosib, lleihau neu reoli'n well y risg o lifogydd ar gyfer cymunedau, seilwaith a busnesau.**

**Dangosydd Craidd Amcan 4 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.**

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB23 | Nifer y datblygiadau hynod fregus dderbyniodd ganiatâd cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C2.<br>Nifer y datblygiadau dderbyniodd ganiatâd cynllunio mewn ardaloedd gorlifdir C1. | | Parhau i Fonitro |

## AMB23:

## Nifer y datblygiadau hynod fregus dderbyniodd ganiatâd cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C2.

## Nifer y datblygiadau dderbyniodd ganiatâd cynllunio mewn ardaloedd gorlifdir C1.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau hynod fregus dderbyniodd ganiatâd cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C2.**<br><br>Nifer y datblygiadau dderbyniodd ganiatâd cynllunio mewn ardaloedd gorlifdir C1 |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM5 — Datblygiad a Pherygl o Lifogydd |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Peidio caniatáu unrhyw ddatblygiadau hynod fregus o fewn ardaloedd gorlifdir C2.<br><br>Peidio caniatáu unrhyw ddatblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1 heb fodloni holl brofion TAN 15. |
| **Trothwy:** | Caniatáu 1 datblygiad hynod fregus neu fwy mewn ardaloedd gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn unigol.<br><br>Caniatáu 1 datblygiad neu fwy mewn ardaloedd gorlifdir C1 lle na fodlonir holl brofion TAN 15 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019-2020):** | |
| **AMB 2021 (2020-2021):** | |
| **AMB 2022 (2021-2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar nifer y datblygiadau sy'n agored iawn i niwed a ganiatawyd ym mharthau llifogydd C1 (ardaloedd o'r gorlifdir a wasanaethir gan amddiffynfeydd rhag llifogydd) ac C2 (ardaloedd o'r gorlifdir nad oes ganddynt unrhyw amddiffynfeydd rhag llifogydd) Mapiau Cyngor Datblygu TAN 15. Fe'i cynlluniwyd i brofi gweithrediad Polisi DM5 y CDLl, fodd bynnag, mae hefyd yn caniatáu arsylwadau ar sut y mae'r ceisiadau a ganiateir yn cyd-fynd â TAN 15.

Dosberthir datblygiadau sy'n agored iawn i niwed yn TAN 15 fel "pob math o adeilad preswyl, (gan gynnwys gwestai a meysydd carafannau), adeiladau cyhoeddus (er enghraifft ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden) datblygiadau diwydiannol sy'n arbennig o agored i niwed (er enghraifft gorsafoedd ynni, gweithfeydd cemegol, gweithfeydd llosgi sbwriel) a safleoedd gwaredu gwastraff."

**Gwaith datblygu a ganiateir yn C2**

Yn y cyfnod monitro hwn, sef rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, caniatawyd cyfanswm o 21 o geisiadau cynllunio ar gyfer gwaith datblygu agored iawn i niwed a oedd yn llechfeddiannu naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar barth llifogydd C2. Fodd bynnag, roedd 15 o'r 21 cais y tu allan i Barthau Llifogydd 2 a 3 o'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio, a ystyrir bellach fel y ffynhonnell wybodaeth orau sydd ar gael ar berygl llifogydd a bydd, ar ôl cyhoeddi'r TAN 15 diwygiedig, yn disodli Mapiau Cyngor Datblygu (DAM) C1 a C2.

Ar gyfer y chwe chais arall, roedd pedwar ohonynt yn llechfeddiannu'n rhannol ar barth llifogydd C2. Fodd bynnag, roedd yr holl adeiladau, a oedd yn cynnwys cabanau ac anheddau gwyliau, wedi'u lleoli y tu allan i unrhyw ardaloedd a oedd mewn perygl o lifogydd. Roedd dau gais arall yn ymwneud â newid defnydd, gyda'r ddau yn ymwneud â throsi lloriau uchaf adeiladau i ddefnydd preswyl. Yn y ddau achos, roedd llai na thraean o'r safle o fewn ardal o risg llifogydd. Felly, ystyriwyd bod lefel y perygl o lifogydd yn hylaw, ac nad oedd yn gwrthdaro â TAN 15.

**Gwaith datblygu a ganiateir yn C1**

Yn ystod y cyfnod monitro, caniatawyd un cais cynllunio ar gyfer gwaith datblygu agored iawn i niwed a oedd yn llechfeddiannu naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl ar barth llifogydd C1. Roedd y cais yn ymwneud â newid defnydd o adwerthu yn ôl i ddefnydd preswyl. Ymgymerwyd ag Asesiad Canlyniad Llifogydd (FCA) i gefnogi'r cais a oedd yn dangos bod modd rheoli risgiau a chanlyniadau llifogydd i lefel dderbyniol. Ar sail canfyddiadau'r FCA a'i argymhellion, o ran mesurau lliniaru, ystyriwyd bod y datblygiad yn unol â TAN 15.

Felly, nid yw'r sbardun monitro mewn perthynas ag ardaloedd risg llifogydd C1 wedi'i dorri.

Mae'n werth nodi, pan fo Swyddogion yn penderfynu ar geisiadau cynllunio, yr ystyrir Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio hefyd yn ystyriaeth cynllunio perthnasol. Nid yw'r ardaloedd C1 lle ceir perygl o lifogydd wedi eu cynnwys mewn Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio; cawsant eu disodli gan ardaloedd amddiffynedig sydd wedi eu dynodi gan ddefnyddio meini prawf gwahanol i ardaloedd C1 lle ceir perygl o lifogydd. Ym Mhowys, heblaw am y Drenewydd, **nid** yw'r ardaloedd amddiffynedig yn gyson ag ardaloedd C1 lle ceir perygl o lifogydd.

Bydd y dangosydd monitro hwn yn cael ei ddiweddaru a'i adolygu yn y CDLl Newydd, er mwyn ystyried y TAN 15 newydd sydd ar ddod y disgwylir ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023, a Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

## Cam Gweithredu

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol

# 5. Dadansoddiad o Ddangosyddion Lleol

5.1.1 Nodir Dangosyddion Lleol yn y Fframwaith Monitro Blynyddol sy'n ffurfio Pennod 5 o'r CDLl Mabwysiedig.

5.1.2 Oni nodir fel arall, dim ond ceisiadau cynllunio Llawn ac Amlinellol a ganiatawyd a ystyriwyd, er mwyn atal unrhyw gyfrif dwbl.

# Thema 1 — Cynllunio ar gyfer Twf mewn Mannau Cynaliadwy

## Amcan 1 — Diwallu Anghenion y Dyfodol

**Er mwyn diwallu anghenion Powys dros gyfnod y cynllun hyd at 2026, darparu digon o dir mewn lleoliadau priodol ar gyfer:**

**i. 5,588 o anheddau i fodloni galw ar gyfer 4,500 o anheddau fydd yn bodloni holl anghenion tai poblogaeth Powys, sy'n cynyddu ac yn heneiddio, a'r lleihad o safbwynt maint cartrefi, gan gynnwys llety marchnad agored, cartrefi fforddiadwy, llety i sipsiwn a theithwyr, ac anghenion tai arbenigol eraill.**

**ii. 45 hectar o dir at ddefnydd cyflogaeth a datblygu economaidd.**

**iii. Adwerthu, twristiaeth, hamdden, seilwaith, gwasanaethau ac anghenion eraill.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 1 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB4 | Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd dyranedig (Dyraniadau Tai) fel % o'r ddarpariaeth tai cyffredinol. | | I'w Ailystyried mewn CDLl Newydd. |
| AMB5 | Cyfanswm yr unedau tai sy'n cael eu gorffen ar y Dyraniadau Tai. | | I'w Ailystyried mewn CDLl Newydd. |
| AMB6 | Nifer yr unedau tai sy'n cael eu gorffen ar hap-safleoedd (safleoedd heb eu dyrannu) y flwyddyn. | | Parhau i Fonitro |
| AMB8 | Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio, neu amrywio/dileu amodau cynllunio, cymeradwyo rhyddhau/diwygio dan adran 106A neu trwy Weithred Amrywio, sy'n ymwneud â datblygiadau tai gyda 5 uned neu fwy, lle bydd y cyfraniad cartrefi fforddiadwy a ganiateir yn is na'r targed perthnasol a osodwyd dan bolisi H5. | | Parhau i Fonitro |
| AMB10 | Nifer y cyfraniadau cartrefi fforddiadwy (unedau neu gyfraniad cyfatebol) sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio ar y safle, oddi ar y safle a thrwy symiau gohiriedig. | | Parhau i Fonitro |
| AMB11 | Nifer yr unedau Tai Rhent Cymdeithasol neu Ganolradd sy'n cael eu sicrhau fel % o'r holl unedau cartrefi fforddiadwy sy'n | | Parhau i Fonitro |

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| | cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio | | |
| AMB12 | Llunio a mabwysiadu CCA yn ymwneud â Chartrefi Fforddiadwy. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu eraill |
| AMB13 | Maint y datblygiadau cartrefi fforddiadwy a ganiateir ar safleoedd eithriedig mewn Trefi, Pentrefi Mawr, Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig. | | Yr Ymchwil Ychwanegol Gofynnol |

## AMB4: Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd dyranedig (Dyraniadau Tai) fel % o'r ddarpariaeth tai cyffredinol.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd dyranedig (Dyraniadau Tai) fel % o'r ddarpariaeth tai cyffredinol.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Twf Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H2 — Safleoedd Tai |
| **Targed:** | 8% o'r ddarpariaeth tai cyffredinol ar safleoedd i'w caniatáu bob blwyddyn |
| **Trothwy:** | Pan fydd canran y ddarpariaeth tai cyffredinol a ganiateir ar safleoedd HA yn syrthio o dan y targed am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Yn ystod y cyfnod monitro, rhoddwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 147 o unedau ar safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai (HA) yn y CDLl mabwysiedig, fel y dangosir yn Nhabl 16 isod. Ystyriwyd y 24 uned a ganiatawyd ar y safle HA yn Orchard Croft, Llandrinio, fel rhan o gais cynllunio mwy ar y cyd am 48 o unedau wedi'u rhannu ar draws dau safle (roedd y safle HA yn cael ei gyplysu â safle eithriedig yn yr un pentref a'i gynnig ar gyfer 100% Tai Fforddiadwy).
Fel canran o'r ddarpariaeth dai gyffredinol ar safleoedd HA, mae hyn yn 147 o unedau allan o 2,984 (Tabl H2 yn y CDLl), sy'n cyfateb i 4.9% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol.

Mae'r ffigur yn is na'r targed o 8% y flwyddyn y flwyddyn, sy'n cyfateb i 239 o unedau'n cael eu caniatáu ar safleoedd HA y flwyddyn. Mae hyn yn golygu bod y pwynt sbarduno ar gyfer y dangosydd monitro hwn yn parhau i gael ei dorri oherwydd diffyg darpariaeth dros bedair blynedd yn olynol fel a ganlyn:

- AMB 2020: 176 o unedau – 5.9%
- AMB 2021: 67 o unedau – 2.2%
- AMB 2022: 121 o unedau – 4.1%
- AMB 2023: 147 o unedau – 4.9%

**Tabl 16. Cydsyniadau Cynllunio Preswyl a Ganiatawyd ar Safleoedd a Ddyrannwyd ar gyfer Tai yn ystod y Cyfnod Monitro.**

| Cyfeirnod y Safle a'r Cyfeirnod Caniatâd Cynllunio | Enw'r Safle | Disgrifiad o'r Datblygiad | Yr Unedau a Ganiatawyd | Unedau/Capasiti yn y CDLI (tabl Polisi H2) |
|---|---|---|---|---|
| **P56 HA1**<br>**21/0577/OUT** | Tir i'r Dwyrain o Ysgol Trewern Trewern Y Trallwng Powys SY21 8TB | Caniatâd amlinellol ar gyfer codi hyd at 40 o anheddau, creu maes parcio ysgol newydd a ffordd fynediad a gwaith cysylltiedig | 40 | 27 |
| **P27 HA1**<br>**22/0007/OUT** | Tir gyferbyn ag Old Barn Close, Llandinam | Amlinelliad: Codi 4 tŷ ar wahân, garejis, creu mynedfa i gerbydau a gwaith cysylltiedig (pob mater wedi ei gadw) | 4 | 8 |
| **P28 HA3**<br>**21/1940/FUL** | Heol Ithon, Llandrindod | Datblygiad preswyl yn cynnwys 79 o unedau preswyl, creu mynediad i gerbydau, ffyrdd a'r holl waith cysylltiedig | 79 | 122 |
| **P29 HA1**<br>**21/1536/FUL**<br>**(Safle a ddyrannwyd yn rhannol)** | Tir yn Nhrawscoed ac yn Orchard Croft, Llandrinio Powys | Codi 48 o anheddau yn cynnwys 24 o gartrefi fforddiadwy ar safle Trawscoed a 24 o anheddau marchnad agored ar safle Orchard Croft i gynnwys tirweddu, draenio cynaliadwy, maes parcio a'r holl waith cysylltiedig | 24 | 30 |

**Cam Gweithredu**

**I'w Ailystyried mewn CDLI Newydd**

Ni chyflawnir strategaeth y cynllun.

## AMB5: Cyfanswm yr unedau tai sy'n cael eu gorffen ar y Dyraniadau Tai.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Cyfanswm yr unedau tai sy'n cael eu gorffen ar y Dyraniadau Tai.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Twf Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H2 — Safleoedd Tai |
| **Targed:** | Bydd nifer yr unedau tai ar safleoedd HA i'w gorffen bob blwyddyn fel a ganlyn:<br><br>2015–2016: 45<br>2016–2017: 221<br>2017–2018: 232<br>2018–2019: 254<br>2019–2020: 287<br>2020–2021: 304<br>2021–2022: 372<br>2022–2023: 325<br>2023–2024: 329<br>2024–2025: 312<br>2025–2026: 303 |
| **Trothwy:** | Pan fydd nifer yr anheddau ychwanegol sy'n cael eu gorffen ar safleoedd HA yn syrthio o dan y targed blynyddol am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r Fframwaith Monitro Blynyddol yn pennu targed blynyddol o unedau tai i'w cwblhau ar ddyraniadau tai. Yn y cyfnod monitro hwn, ni chofnodwyd bod unrhyw dai wedi'u cwblhau ar safleoedd Dyrannu Tai.

Mae'r targed blynyddol wedi'i seilio ar y gyfradd gyflawni a nodir yn nhaflwybr (gwreiddiol) y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu. Y targed blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2022-2023 yw 325 o unedau, ond mae cyflawni'r math hwn o nifer yn dibynnu ar ddigon o safleoedd yn cael caniatâd cynllunio. Mae'r gyfradd isel/dim o dai a gwblhawyd yn cydredeg â thanberfformiad y dyraniadau tai o ran cael caniatâd cynllunio (gweler dangosydd monitro AMB4) a gellir gweld bod hyn yn gwrthgyferbynnu'n sylweddol â pherfformiad adeiladu tai ar fathau eraill o safleoedd (339 o dai a gwblhawyd yn y flwyddyn, wedi'u rhannu rhwng 290 ar hap-safleoedd, 46 ar safleoedd a oedd wedi'u hymrwymo (HC) a thri ar safleoedd banc tir tai etifeddol (HLB)).

Mae Tabl 17 yn manylu ar gyfanswm a nifer cronnus y tai a gwblhawyd ar safleoedd tai a neilltuwyd bob blwyddyn ers mabwysiadu'r CDLl. Oherwydd absenoldeb unrhyw dai a gwblhawyd ar safleoedd  a ddyrannwyd ar gyfer y cyfnod monitro hwn, mae’r cyfanswm cronnus yn parhau fel y llynedd, sef 155.

Mae'n amlwg bod perfformiad safleoedd tai a ddyrannwyd yn parhau i fod yn is na'r targed ac, ar y cyfan, mae anheddau a gwblhawyd ar safleoedd tai a ddyrannwyd yn llawer is na'r disgwyl.

**Tabl 17. Yr Anheddau Cronnus Gwirioneddol ar Safleoedd Tai a Ddyrannwyd yn erbyn y Targed Cwblhau Cronnus ar gyfer Safleoedd Tai a Ddyrannwyd.**

| Cyfnod Monitro | Cyfanswm yr anheddau a gwblhawyd | Nifer cronnus o Anheddau a Gwblhawyd | Targed | Targed Cronnol |
|---|---|---|---|---|
| **2018 -2019** | 6 | 6 | 254 | 254 |
| **2019-2020** | 11 | 17 | 287 | 541 |
| **2020-2021** | 71 | 88 | 304 | 845 |
| **2021-2022** | 67 | 155 | 372 | 1,217 |
| **2022-2023** | 0 | 155 | 325 | 1,542 |

<u>**Cam Gweithredu**</u>

**I’w Ailystyried mewn CDLl Newydd**

Ni chyflawnir strategaeth y cynllun.

## AMB6: Nifer yr unedau tai sy’n cael eu gorffen ar hap-safleoedd (safleoedd heb eu dyrannu) y flwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer yr unedau tai sy’n cael eu gorffen ar hap-safleoedd (safleoedd heb eu dyrannu) y flwyddyn.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP1 — Twf Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Nifer y datblygiadau sy’n cael eu cyflawni ar hap-safleoedd i gyd-fynd â’r hyn a ragwelwyd yn yr amcanestyniad o ran hap-safleoedd, sef 110 anheddle’r flwyddyn |
| **Trothwy:** | Pan fydd nifer yr unedau tai sy’n cael eu cyflawni ar hap-safleoedd yn gwyro oddi wrth yr amcanestyniad cronnus, sef 220 anheddle dros ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

O'r 339 o dai a gwblhawyd yn y flwyddyn fonitro hon, roedd 290 o unedau ar hap-safleoedd. Rhannwyd y rhain rhwng 93 ar safleoedd bach a 197 ar safleoedd mawr; safle mawr yw un sy'n darparu ar gyfer o leiaf pum uned. Roedd y 46 uned arall ar safleoedd tai wedi’u hymrwymo (HC), gyda thair uned ar safleoedd banc tir tai (HLB).

Yn unol â chyfnodau monitro blaenorol, mae'n amlwg bod llawer mwy o dai wedi'u cwblhau ar hap-safleoedd yn erbyn y rhagdybiaeth darged o 110 o unedau. Dangosir ffigurau ar gyfer y tri chyfnod monitro diwethaf:

- 2020 i 2021: 185 o dai wedi’u cwblhau ar hap-safleoedd
- 2021 i 2022: 264 o dai wedi’u cwblhau ar hap-safleoedd
- 2022 i 2023: 290 o dai wedi’u cwblhau ar hap-safleoedd

Mae'r dangosydd yn dangos bod nifer y tai a gwblhawyd wedi gwyro uwchlaw'r rhagdybiaeth o 220 o anheddau am y ddwy flynedd yn olynol. Nid yw mynd y tu hwnt i'r targed cronnus o 220 o anheddau a nodwyd fel y pwynt sbarduno yn destun pryder, gan ei fod yn golygu bod cwblhau anheddau ar hap-safleoedd yn cyfrannu'n gryf at y cyflenwad o gartrefi newydd yn ardal CDLl Powys. Gellir ystyried bod hyn yn fodd defnyddiol o wrthbwyso’r cyfraddau cyflenwi cartrefi arafach na'r rhai a gynlluniwyd ar Ddyraniadau Tai CDLl mabwysiedig (safleoedd CT) ac Ymrwymiadau Tai CDLl (safleoedd HC).

Defnyddir y data hap-safleoedd hyn i lywio polisïau tai yn y CDLl Newydd.

| **<u>Cam Gweithredu</u>**<br><br>**Parhau i Fonitro**<br><br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
|---|
| |

### AMB8: Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio, neu amrywio/dileu amodau cynllunio, cymeradwyo rhyddhau/diwygio dan adran 106A neu trwy Weithred Amrywio, sy'n ymwneud â datblygiadau tai gyda 5 uned neu fwy, lle bydd y cyfraniad cartrefi fforddiadwy a ganiateir yn is na'r targed perthnasol a osodwyd dan bolisi H5.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio, neu amrywio/dileu amodau cynllunio, cymeradwyo rhyddhau/diwygio dan adran 106A neu trwy Weithred Amrywio, sy'n ymwneud â datblygiadau tai gyda 5 uned neu fwy, lle bydd y cyfraniad cartrefi fforddiadwy a ganiateir yn is na'r targed perthnasol a osodwyd dan bolisi H5.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP3 — Targed Tai Fforddiadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H5 — Cyfraniadau Tai Fforddiadwy |
| **Targed:** | Dim lleihad mewn na dileu'r cyfraniadau targed a ganiateir, oni bai eu bod yn cyd-fynd â darpariaethau polisi H5 o ran lleihau/dileu'r gofyniad hwn. |
| **Trothwy:** | Pan fydd 1 neu fwy o'r datblygiadau tai a ganiateir, neu os caiff amodau cynllunio dilynol eu hamrywio/dileu gollwng/diwygio, neu eu cymeradwyo dan adran 106A neu drwy Weithred Amrywio, mewn cysylltiad â datblygiadau tai gyda 5 uned neu fwy, lle bydd y cyfraniad cartrefi fforddiadwy a ganiateir yn is na'r targed perthnasol a osodwyd dan bolisi H5 ac nid yw'n cyd-fynd â pholisi H5 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn ceisio nodi achosion pan fo canrannau is o dai fforddiadwy na'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r targedau polisi a ganiatawyd. Mae'n casglu'r ganran a sicrhawyd yn rhan o gydsyniadau gwreiddiol, ynghyd ag unrhyw geisiadau dilynol a allai fod wedi eu gwneud er mwyn lleihau neu ddileu'r cyfraniad tai fforddiadwy sydd islaw'r hyn a ddisgwylir gan y targed. Gwneir darpariaeth ym Mholisi H5 y CDLl ar gyfer cyfraniadau i'w trafod ar ddatblygiadau unigol pan gânt eu cefnogi gan dystiolaeth dichonoldeb sy'n benodol i safle.

Mae canlyniadau dangosydd monitro AMB7 eisoes yn nodi bod targedau Polisi H5 y CDLl yn cael eu cyflawni yn ystod y cam caniatâd cynllunio gwreiddiol.

Caniatawyd un cais yn y cyfnod monitro i ddiddymu cytundeb Adran 106 yn ymwneud â darparu tai fforddiadwy. Fodd bynnag, gwnaed y cais oherwydd bod y safle'n cael ei

adeiladu fel lleiniau hunan-adeiladu, ac ni ellid clymu'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth tai fforddiadwy fesul cam wrth gyflwyno'r lleiniau hunanadeiladu fesul cam. Yn lle hynny, caniatawyd cais am ddiwygiad ansylweddol er mwyn gosod amod tai fforddiadwy addas yn lle'r cytundeb 'Adran 106' presennol. Mae hyn yn golygu, er bod y cytundeb Adran 106 wedi ei ddiddymu, nad oedd unrhyw golled yn nifer yr unedau tai fforddiadwy.

Bu achosion o fewn y cyfnod monitro lle cymeradwywyd ceisiadau i Ddileu neu Amrywio Amod (Adran 73), gyda chanran y ddarpariaeth o anheddau fforddiadwy yn is na'r targedau a nodir ym Mholisi H5 y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu. Mae'r ceisiadau hyn yn ymwneud â safleoedd sydd â chaniatâd sy'n bodoli lle na fu'n briodol diwygio nifer y tai fforddiadwy sydd eu hangen.

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB10: Nifer y cyfraniadau cartrefi fforddiadwy (unedau neu gyfraniad cyfatebol) sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio ar y safle, oddi ar y safle a thrwy symiau gohiriedig.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Diwallu Anghenion y Dyfodol |
| **Dangosydd:** | **Nifer y cyfraniadau cartrefi fforddiadwy (unedau neu gyfraniad cyfatebol) sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio ar y safle, oddi ar y safle a thrwy symiau gohiriedig.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP3 — Targed Tai Fforddiadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H5 — Cyfraniadau Tai Fforddiadwy |
| **Targed:** | I ddarparu mwyafrif y cyfraniadau cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio ar y safle |
| **Trothwy:** | Pan fydd cyfanswm nifer y cyfraniadau cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio oddi ar y safle a thrwy symiau gohiriedig yn uwch na chyfanswm y cyfraniadau cartrefi fforddiadwy (unedau) sy'n cael eu sicrhau ar y safle mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar y math o gyfraniad tai fforddiadwy a sicrhawyd trwy gydsyniadau cynllunio h.y. a yw'r cyfraniad a sicrhawyd i'w wneud ar y safle, oddi ar y safle neu drwy gyfraniad ariannol.  Fe'i cynlluniwyd i brofi gweithrediad y rhan o Bolisi H5 y CDLl sy'n gosod rhagdybiaeth o blaid cyfraniadau ar y safle yn hytrach na mathau eraill o gyfraniadau, oni bai y byddai darpariaeth ar y safle yn amhriodol.

Ceir crynodeb o'r canlyniadau ar gyfer y cyfnod monitro hwn yn Nhabl 18.

Mae cyfanswm o 138 o unedau tai fforddiadwy wedi'u caniatáu o dan Bolisi H5 y CDLl, fel rhan o ddatblygiadau o fewn ffiniau datblygu yn ystod y cyfnod monitro hwn. Roedd hyn yn cynnwys 17 o unedau tai fforddiadwy a ganiatawyd ar ddatblygiadau marchnad, 60 o unedau tai fforddiadwy a ganiatawyd ar ddatblygiad gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) a 61 o unedau tai fforddiadwy a ganiatawyd ar ddatblygiad gan yr Awdurdod Tai Strategol (SHA).

Darperir pob un o'r 138 o unedau tai fforddiadwy ar y safle, heb unrhyw arwydd o ddarpariaeth oddi ar y safle na chyfraniadau ariannol yn ystod cam y cais cynllunio. Mae canlyniadau'r gwaith monitro hwn yn dangos bod y rhan hon o Bolisi H5 y CDLl yn cael ei gweithredu'n gywir, gan fod darpariaeth tai fforddiadwy yn cael ei sicrhau ar y safle, sy'n dangos y bydd tai fforddiadwy yn cael eu darparu yn y lleoliad lle mae eu hangen nhw. Felly, nid oes angen gweithredu a bydd y gwaith monitro'n parhau.

Ategir y dull a nodir ym Mholisi H5 y CDLl gan ganllawiau ymarferol ychwanegol yn CCA Tai Fforddiadwy.  Mae hyn yn darparu canllawiau ar yr amgylchiadau ble gallai mathau eraill o ddarpariaeth fod yn briodol yn ogystal â'r dull o gyfrifo cyfraniadau ariannol a sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r cyfraniadau ariannol a geir at ddibenion darpariaeth tai fforddiadwy.

### Tabl 18. Yr Unedau Tai Fforddiadwy a Sicrhawyd fesul Math yn ystod y Cyfnod Monitro.

| Math o gyfraniad | Swm yr unedau (cyfwerth) | % cyfanswm yr unedau fesul math |
|---|---|---|
| **Ar y safle** | 138 | 100 |
| **Oddi ar y safle** | 0 | 0 |
| **Cyfraniadau ariannol** | 0 | 0 |

**Cam gweithredu**

**Parhau i'w fonitro.**

Mae polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

## AMB11: Nifer yr unedau Tai Rhent Cymdeithasol neu Ganolradd sy'n cael eu sicrhau fel % o'r holl unedau cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer yr unedau Tai Rhent Cymdeithasol neu Ganolradd sy'n cael eu sicrhau fel % o'r holl unedau cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP3 — Targed Tai Fforddiadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | I gyfartaledd y cymysgedd daliadaeth o ran cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio'n cyd-fynd â'r dystiolaeth o ran anghenion tai a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol sef:<br>• Rhent cymdeithasol — 75%<br>• Tai canolradd i'w rhentu — 25%<br>• Neu ganrannau diwygiedig mewn unrhyw Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a ddiweddarwyd |
| **Trothwy:** | Pan na fydd cymysgedd daliadaeth cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu sicrhau trwy ganiatâd cynllunio yn cyd-fynd â thystiolaeth yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol am ddwy flynedd yn olynol |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Yn rhan o ddatblygiadau yn y farchnad ac ar safleoedd eithriedig, mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar ddeiliadaeth tai fforddiadwy a sicrheir trwy ganiatâd cynllunio. Fe'i cynlluniwyd i brofi gweithrediad Polisi Strategol SP3 y CDLl pan fo'r cyfiawnhad rhesymegol yn nodi y dylai ystod y ddeiliadaeth unedau adlewyrchu'r anghenion lleol am dai. Mae'n cyfeirio at y dystiolaeth o'r angen am gymysgedd deiliadaeth rhent cymdeithasol/canolradd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, gan esbonio mai dim ond pan fônt wedi eu cefnogi gan dystiolaeth leol y caiff cymysgeddau eraill eu hystyried.

Ceir crynodeb o ganlyniadau'r gwaith monitro hwn yn Nhabl 19. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y mwyafrif o'r tai fforddiadwy a sicrheir ar rent yn gymdeithasol, a bod elfen o dai fforddiadwy canolradd i'w gwerthu yn cael eu sicrhau hefyd. Mae'r rhaniad deiliadaeth a sicrhawyd yn unol â'r dystiolaeth o angen sydd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol (2016).

Nid yw deiliadaeth yr 16 o unedau tai fforddiadwy a sicrhawyd yn ystod y cyfnod monitro wedi eu nodi. Roedd yr unedau hyn yn ymwneud ag unedau fforddiadwy a sicrhawyd fel rhan o ddatblygiadau marchnad dan Bolisi H5 y CDLl ac maent yn debygol o gael eu darparu fel tai fforddiadwy canolradd i'w rhentu neu eu gwerthu. Efallai na fydd y manylion

ynghylch deiliadaeth yr 16 uned hyn yn cael eu darparu tan y cam cyflawni amodau, ac felly ni chânt eu nodi eto.

Yn y dyfodol, bydd y dangosydd hwn yn cael ei fonitro o'i gymharu â'r rhaniad deiliadaeth a nodwyd gan Asesiad o'r Farchnad Dai Leol newydd 2022 y disgwylir ei gwblhau yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

**Tabl 19. Nifer yr Unedau Tai Fforddiadwy a Ganiateir fesul Deiliadaeth yn ystod y Cyfnod Monitro.**

| Deiliadaeth | Nifer yr unedau | % yr unedau cyffredinol |
|---|---|---|
| **Rhent cymdeithasol** | 117 | 83% |
| **Rhent canolradd** | 0 | 0% |
| **Canolradd ar werth** | 8 | 6% |
| **Heb ei Nodi** | 16 | 11% |

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB12: Llunio a mabwysiadu CCA yn ymwneud â Chartrefi Fforddiadwy.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadu CCA yn ymwneud â Chartrefi Fforddiadwy.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP3 — Targed Tai Fforddiadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H5 — Cyfraniadau Tai Fforddiadwy<br>Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H6 — Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig a Alluogwyd |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu CCA yn ymwneud â Chartrefi Fforddiadwy o fewn 6 mis i fabwysiadu'r Cynllun |
| **Trothwy:** | Os na chaiff y CCA yn ymwneud â Chartrefi Fforddiadwy eu mabwysiadu o fewn 6 mis i fabwysiadu'r Cynllun |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 – Mabwysiadwyd y CCA Hydref 2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd CCA Tai Fforddiadwy a ddiweddarodd ganllawiau blaenorol ym mis Hydref 2018, a oedd felly o fewn y targed amser o chwe mis o ddyddiad mabwysiadu y CDLl.

**Cam Gweithredu**

Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu ar hyn o bryd, yn parhau i fonitro.

## AMB13: Maint y datblygiadau cartrefi fforddiadwy a ganiateir ar safleoedd eithriedig mewn Trefi, Pentrefi Mawr, Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Diwallu Anghenion y Dyfodol |
| **Dangosydd:** | **Maint y datblygiadau cartrefi fforddiadwy a ganiateir ar safleoedd eithriedig mewn Trefi, Pentrefi Mawr, Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP6 — Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Anheddiad |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H1 — Cynigion Datblygu Dai<br>Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H6 — Tai Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig a Alluogwyd |
| **Targed:** | Bod maint y datblygiadau cartrefi fforddiadwy a ganiateir ar safleoedd eithriedig yn briodol i'r haen aneddiadau |
| **Trothwy:** | Caniateir 1 datblygiad neu fwy ar gyfer cartrefi fforddiadwy unigol ar safleoedd eithriedig mewn Trefi a Phentrefi Mawr mewn unrhyw flwyddyn unigol.<br><br>Caniateir 1 datblygiad neu fwy mewn Pentrefi Bach lle bydd y datblygiad yn golygu mwy na 5 o gartrefi fforddiadwy<br><br>Caniatáu 1 datblygiad neu fwy mewn Aneddiadau Gwledig lle nad yw'r datblygiad yn cynnwys cartref fforddiadwy unigol mewn unrhyw flwyddyn unigol |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar faint y datblygiadau tai fforddiadwy a ganiateir ar safleoedd eithriedig yn seiliedig ar eu haen aneddiadau. Fe'i cynlluniwyd i brofi polisïau H6 ac H1 y CDLl, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau fod o faint sy'n briodol i'r haen anheddiad. Yn benodol, mae'r gwaith monitro'n ceisio casglu achosion pan fo datblygiadau anheddau sengl wedi eu caniatáu ar safleoedd eithriedig mewn Trefi a Phentrefi Mawr, ac i'r gwrthwyneb pan fo datblygiadau ar raddfa fawr wedi eu caniatáu mewn Pentrefi Bach neu Aneddiadau Gwledig.

Mae'r cyfiawnhad rhesymegol i Bolisi H6 y CDLl yn esbonio bod safleoedd gerllaw Trefi a Phentrefi Mawr yn debygol o fod yn addas ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy mwy ac felly y dylid cadw'r safleoedd hyn ar gyfer datblygiadau gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu Awdurdodau Tai Strategol, ac na ddylid caniatáu anheddau unigol ar safleoedd o'r fath. Atgyfnerthir y bwriad hwn yn CCA Tai Fforddiadwy, sydd hefyd yn nodi amgylchiadau eithriadol ar gyfer pryd y gellir caniatáu cynlluniau llai yn y lleoliadau hyn.

| |
|---|
| Caniatawyd cyfanswm o ddau ddatblygiad ar safleoedd eithrio tai fforddiadwy. Roedd y ddau ddatblygiad yn ymwneud ag un annedd fforddiadwy mewn Anheddiad Gwledig, ac roeddent yn unol â'r raddfa a ddisgwylir gan Bolisi H6 y CDLl. |

| |
|---|
| **Cam Gweithredu**<br><br>**Parhau i Fonitro**<br><br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| |

## AMB16: Datblygiad adwerthu hyd at 1,000 metr sgwâr a ganiateir ac a gyflawnir ar ran o safle defnydd cymysg a ddyrennir dan bolisi R2.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Diwallu Anghenion y Dyfodol** |
| **Dangosydd:** | **Datblygiad manwerthu hyd at 1,000 metr sgwâr net a ganiateir ac a ddarperir ar ran o'r safle defnydd cymysg a ddyrannwyd o dan Bolisi R2.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP4 — Twf Adwerthu |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc R2 — Dyraniadau Adwerthu |
| **Targed:** | • Prosesu'r cam cyn ymgeisio erbyn 2020.<br>• Rhoi caniatâd cynllunio.<br>• Cychwyn y datblygiad erbyn 2024.<br>• Cwblhau'r datblygiad erbyn 2026. Prosesu'r camau cyn gwneud cais erbyn 2020. |
| **Trothwy:** | Methu bodloni unrhyw un o'r targedau a osodwyd mewn perthynas â'r camau datblygu. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021-2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Yn ôl cofnodion rheoli datblygu, ni fu unrhyw weithgarwch cynllunio diweddar ar y safle a neilltuwyd yn y CDLl mabwysiedig at ddefnydd manwerthu. Gan nad yw'r datblygiad wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod 2022-23, mae'r pwynt sbarduno wedi'i dorri ac, o ganlyniad i'r llithriad hwn, ystyrir bod y safle'n annhebygol o gyrraedd ei darged ar gyfer cyflawni.

Fodd bynnag, mae'n hysbys bod y safle wedi'i ailgyflwyno gan y perchennog/cynigydd i'w ystyried yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd trwy'r broses Safleoedd Ymgeisiol. Bydd ei botensial ar gyfer ailddyrannu yn y dyfodol yn cael ei adolygu'n llawn.

**Cam Gweithredu**

**Yr Ymchwil Ychwanegol Gofynnol**

Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen rhagor o waith ymchwil.

## Amcan 2 — Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy

**Cefnogi datblygu cynaliadwy, mynediad at wasanaethau ac integreiddio defnydd o dir, trwy gyfeirio tai, cyflogaeth a datblygiad gwasanaethau yn unol ag hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy. Caiff lefelau uwch datblygiad eu cyfeirio at drefi a phentrefi mwy Powys, ond os nad yw'r rhain yn gallu derbyn mwy o dwf oherwydd cyfyngiadau capasiti, caiff y datblygiadau eu cyfeirio at drefi neu bentrefi mawr gerllaw..**

### Dangosyddion Lleol Amcan 2 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB17 | Yr unedau tai net a ganiateir mewn pob haen aneddiadau i gael eu mesur fel canran o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir bob blwyddyn. | | Parhau i Fonitro |
| AMB18 | Nifer y datblygiadau tai marchnad agored a ganiateir mewn Pentrefi Bach.<br>Nifer y datblygiadau cartrefi fforddiadwy a ganiateir mewn Pentrefi Bach. | | Parhau i Fonitro |
| AMB19 | Maint y tir net a ganiateir ar gyfer cyflogaeth ym mhob haen aneddiadau i gael ei fesur fel canran o'r holl dir cyflogaeth a ganiateir. | | Yr Ymchwil Ychwanegol Gofynnol |

## AMB17: Yr unedau tai net a ganiateir mewn pob haen aneddiadau i gael eu mesur fel canran o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir bob blwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy** |
| **Dangosydd:** | **Yr unedau tai net a ganiateir mewn pob haen aneddiadau i gael eu mesur fel canran o'r holl ddatblygiadau tai a ganiateir bob blwyddyn.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP6 — Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Anheddiad |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H1 — Cynigion Datblygu Dai |
| **Targed:** | % yr unedau tai net a ganiateir trwy'r haen hierarchaeth bob blwyddyn yn unol â'r dosbarthiad isod:<br>• Trefi — caniateir o leiaf 50% o'r cyfanswm twf mewn tai.<br>• Pentrefi Mawr — caniateir o leiaf 25% o'r cyfanswm twf mewn tai.<br>• Pentrefi Bach — caniateir dim mwy na 10% o'r cyfanswm twf mewn tai.<br>• Aneddiadau Gwledig / Cefn Gwlad Agored gan gynnwys yr arfordir heb ei ddatblygu — caniateir dim mwy na 15% o'r cyfanswm twf mewn tai.<br>• |
| **Trothwy:** | Pan fydd cyfran cyfanswm y datblygiadau tai a ganiateir:<br>a) yn syrthio o dan y targedau ar gyfer Trefi a Phentrefi Mawr;<br>b) yn uwch na'r targedau ar gyfer Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig /Cefn Gwlad Agored gan gynnwys yr arfordir heb ei ddatblygu;<br>am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar ddosbarthiad datblygiadau tai a ganiateir ar draws yr hierarchaeth aneddiadau, fe'i cynlluniwyd i brofi polisïau SP6 ac H1 y CDLl. Yn benodol, mae'r gwaith monitro yn ystyried a yw datblygiadau preswyl yn cael eu caniatáu mewn ffordd sy'n dosbarthu twf ar draws yr hierarchaeth aneddiadau yn gyson â Pholisi Strategol SP6 y CDLl.

Dengys Tabl 20 isod nifer net yr anheddau a ganiateir yn ystod y cyfnod monitro o'i gymharu â'r hierarchaeth aneddiadau. Yna, defnyddir y ffigur hwn i gyfrifo canran y twf preswyl a ganiatawyd ar gyfer pob un o'r haenau anheddu. Ceir dwy golofn arall sy'n

dangos y cyfanswm cronnol a’r ganran; mae’r rhain yn ymwneud â nifer yr unedau a ganiatawyd ers Mabwysiadu’r CDLl ar 17 Ebrill 2018. Mae’r golofn olaf yn dangos y targed monitro sy’n dod o Bolisi SP6 y CDLl.

Mae canlyniadau o’r cyfnod monitro hwn yn dangos bod rhan dosbarthu preswyl polisïau SP6 ac H1 y CDLl yn cael eu gweithredu’n gywir; a bod mwyafrif y datblygiadau preswyl yn cael eu caniatáu yn nwy haen uchaf yr hierarchaeth aneddiadau yn unol â’r disgwyliadau a nodir yn strategaeth aneddiadau y CDLl.

Mae canran yr unedau anheddu a ganiatawyd mewn Cefn Gwlad Agored yn ystod y cyfnod yn uwch na’r hyn a nodir yn strategaeth y CDLl at 20% ond o edrych ar y ganran gronnol, cyflawnwyd y targed, sef o dan 15%, ar gyfer y nifer cronnol o unedau anheddu a ganiatawyd ers mabwysiadu’r CDLl. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd edrych ar dueddiadau dros nifer o flynyddoedd. Mae’r holl werthoedd yng ngholofn y ganran gronnol yn Nhabl 20 o fewn targedau monitro yr hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi SP6 y CDLl. Mae’r mwyafrif o’r anheddau a ganiateir mewn Cefn Gwlad Agored ar gyfer anheddau menter gwledig neu addasiadau ysguboriau sy’n cydymffurfio â pholisi Cenedlaethol a pholisi y CDLl.

**Tabl 20. Nifer Net yr Anheddau a Ganiatawyd yn ystod y Cyfnod Monitro ac ers i’r CDLl gael ei Fabwysiadu o’i gymharu â’r Targedau Hierarchaeth Aneddiadau ym Mholisi Strategol SP6 y CDLl.**

| Yr Hierarchaeth Aneddiadau | Nifer net yr anheddau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro | Canran | Cyfanswm cronnol y nifer net o anheddau a ganiatawyd ers i’r CDLl gael ei fabwysiadu | Canran Gronnol | Targed Monitro |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tref** | 170 | 46% | 1,138 | 57% | >50% |
| **Pentref Mawr** | 120 | 33% | 537 | 27% | >25% |
| **Pentref Bach** | 4 | 1% | 55 | 3% | <10% |
| **Cefn Gwlad Agored / Aneddiadau Gwledig** | 72 | 20% | 269 | 13% | <15% |
| **Cyfanswm** | **366** | | **1,999** | | **100%** |

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**Parhau i fonitro.**

Mae polisïau’r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

### AMB18:

### Nifer y datblygiadau tai marchnad agored a ganiateir mewn Pentrefi Bach.

### Nifer y datblygiadau cartrefi fforddiadwy a ganiateir mewn Pentrefi Bach.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau tai marchnad agored a ganiateir mewn Pentrefi Bach.**<br><br>**Nifer y datblygiadau cartrefi fforddiadwy a ganiateir mewn Pentrefi Bach.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP6 — Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Anheddiad |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H1 — Cynigion Datblygu Dai |
| **Targed:** | • Ni chaniateir datblygiadau marchnad agored gyda 2 uned neu fwy mewn Pentrefi Bach.<br>• Ni chaniateir datblygiadau tai fforddiadwy gyda 5 uned neu fwy mewn Pentrefi Bach |
| **Trothwy:** | • Os caniateir 1 datblygiad marchnad agored neu fwy gyda 2 uned neu fwy mewn Pentrefi Bach.<br>• Os caniateir 1 datblygiad tai fforddiadwy neu fwy gyda 5 uned neu fwy mewn Pentrefi Bach. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Fel y gwelwyd yn y dangosydd monitro AMB17, dim ond pedair uned newydd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt mewn Pentrefi Bach yn ystod y cyfnod monitro. Er bod Tabl 21 yn dangos bod y rhain i gyd yn gartrefi'r farchnad agored, gellir gweld eu bod yn cydymffurfio â gofynion polisi aneddiadau ar y raddfa hon.

**Tabl 21. Nifer yr Anheddau Newydd a gafodd Ganiatâd Cynllunio mewn Pentrefi Bach yn ystod y Cyfnod Monitro.**

| Pentref Bach | Nifer (Net) y Cartrefi Newydd ar y Farchnad Agored a Ganiatawyd | Nifer (Net) y Cartrefi Newydd Fforddiadwy a Ganiatawyd |
|---|---|---|
| **Caehopkin** | 2 | 0 |
| **Glantwymyn**<br>(Newid defnydd) | 1 | 0 |
| **Llandyssil** | 1 | 0 |

| **<u>Gweithred</u>**<br><br>**Parhau i Fonitro**<br><br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
|---|
| |

## AMB19: Maint y tir net a ganiateir ar gyfer cyflogaeth ym mhob haen aneddiadau i gael ei fesur fel canran o'r holl dir cyflogaeth a ganiateir.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Aneddiadau a Chymunedau Cynaliadwy** |
| **Dangosydd:** | **Maint y tir net a ganiateir ar gyfer cyflogaeth ym mhob haen aneddiadau i gael ei fesur fel canran o'r holl dir cyflogaeth a ganiateir.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP6 — Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Anheddiad |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | % y tir net a ganiateir ar gyfer cyflogaeth ym mhob haen aneddiadau'r flwyddyn i gyd-fynd â'r dosbarthiad isod:<br>• Trefi — caniateir o leiaf 50% o'r twf ar gyfer cyflogaeth.<br>• Pentrefi Mawr — ni chaniateir mwy na 20% o'r twf cyfanswm ar gyfer cyflogaeth.<br>• Safleoedd tu allan i'r hierarchaeth aneddiadau — dim mwy na 30% o'r twf cyfanswm ar gyfer cyflogaeth. |
| **Trothwy:** | Pan fydd cyfran y tir ar gyfer cyflogaeth a ganiateir:<br>a) yn syrthio o dan y targed ar gyfer Trefi;<br>b) yn uwch na'r targedau ar gyfer Pentrefi Mawr a Safleoedd tu allan i'r hierarchaeth aneddiadau;<br>am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar ddosbarthiad datblygiadau cyflogaeth a ganiateir ar draws yr hierarchaeth aneddiadau; fe'i cynlluniwyd i brofi Polisi Strategol SP6 y CDLl. Yn benodol, mae'r gwaith monitro yn ystyried a yw datblygiadau cyflogaeth yn cael eu caniatáu mewn ffordd sy'n dosbarthu twf ar draws yr hierarchaeth aneddiadau yn gyson â Pholisi Strategol SP6 y CDLl.

Dengys Tabl 22 isod yr arwynebedd net o dir cyflogaeth (mewn hectarau) a ganiatawyd ar draws yr hierarchaeth aneddiadau yn ystod y cyfnod monitro (1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023) ac ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu (17 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2022). Defnyddir arwynebedd net y tir cyflogaeth i gyfrifo canran y twf mewn tir cyflogaeth a ganiatawyd ar gyfer pob un o'r haenau anheddu. Mae'r golofn olaf yn dangos y 'Targed Monitro' sy'n dod o Bolisi SP6 y CDLl.

Mae Polisi SP6 y CDLl yn cyfeirio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau cyflogaeth i'r Trefi a'r Pentrefi Mawr (70% o'r twf). Fodd bynnag, o fewn y cyfnod monitro hwn, roedd llai na 17% o gyfanswm y tir cyflogaeth a ganiatawyd wedi'i leoli o fewn y Trefi a'r Pentrefi Mawr.

Mae'r prif reswm dros y gwahaniaeth hwn o fewn y cyfnod monitro yn ymwneud â rhoi caniatâd ym Mharc Busnes Clawdd Offa, Buttington. Nid yw Parc Busnes Clawdd Offa wedi'i leoli o fewn Tref na Phentref Mawr, ond mae'n safle cyflogaeth a ddyrannwyd yn y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu, sy'n gwasanaethu anghenion y Trallwng a'r cyffiniau.

Mae'r caniatâd cynllunio ym Mharc Busnes Clawdd Offa yn cyfrif am 2.513 ha o'r cyfanswm o 4.038 ha o dir cyflogaeth a ganiatawyd, o fewn y cyfnod monitro. Mae hyn yn arwain at wyriad oddi wrth y targedau a nodir yn y dangosydd monitro hwn o ran y ganran o dir cyflogaeth i'w leoli o fewn y Trefi a'r Pentrefi Mawr. Fodd bynnag, nid yw'n gwyro oddi wrth y strategaeth CDLl mabwysiedig a Pholisi E1 y CDLl, sy'n cyfeirio datblygiad cyflogaeth at safleoedd a ddyrannwyd.

Mae'r dosbarthiad twf cyflogaeth ar draws yr hierarchaeth aneddiadau yn ddibynnol ar y mathau o anghenion cyflogaeth a chyfleoedd sy'n codi. Mae'r sbardun ar gyfer y dangosydd monitro hwn wedi ei gyrraedd, mae cyfran y tir cyflogaeth a ganiateir yn haenau is yr hierarchaeth aneddiadau wedi mynd y tu hwnt i'r targed am ddwy flynedd yn olynol. Cynhelir gwaith ymchwil fel tystiolaeth i gefnogi'r broses o baratoi'r CDLl Newydd; bydd hyn yn cynnwys ailystyried targedau a'r strategaeth ofodol mewn cysylltiad â datblygu cyflogaeth.

**Tabl 22. Dosbarthiad y Tir Cyflogaeth a Ganiatawyd yn ystod y Cyfnod Monitro ar draws yr Hierarchaeth Aneddiadau, ynghyd â'r Cyfansymiau Cronnol ers Mabwysiadu'r CDLl.**

| Yr Hierarchaeth Aneddiadau | Arwynebedd net (hectarau) o dir cyflogaeth a ganiatawyd yn ystod cyfnod monitro | Canran | Arwynebedd net (hectarau) o dir cyflogaeth a ganiatawyd ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu | Canran | Targed Monitro |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tref** | 0.652 | 16% | 10.984 | 39% | >50% |
| **Pentref Mawr** | 0.002 | <1% | 6.172 | 22% | <20% |
| **Pentref Bach / Anheddiad Gwledig / Cefn Gwlad Agored** | 3.384 | 84% | 11.038 | 39% | <30% |
| **Cyfanswm** | **4.038** | **100%** | **28.194** | **100%** | **100%** |

| |
|---|
| **<u>Cam Gweithredu</u>**<br><br>**Yr Ymchwil Ychwanegol Gofynnol**<br><br>Nid yw polisïau'r cynllun datblygu yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad ac mae angen rhagor o waith ymchwil. |
| |

## Amcan 3 — Defnyddio Tir mewn Ffordd Effeithlon

**Cefnogi ail-ddefnyddio ac adfer tir a ddatblygwyd yn gynt mewn lleoliad cynaliadwy ac addas a lle nad yw hyn yn bosib, defnyddio safleoedd maes glas mewn ffordd effeithlon. Arfer tybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiad anghynaladwy mewn cefn gwlad agored, gan gynnwys yr arfordir heb ei ddatblygu, datblygu ar bridd gyda gwerth amgylcheddol ac amaethyddol uchel ac adnoddau mwynau pwysig a gydnabyddir fel adnoddau y mae pen draw iddynt.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 3 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB20 | Maint datblygiad (hectarau) a lleoliad datblygiad hap-safleoedd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd yn gynt ac ar safleoedd maes glas. | | Yr Ymchwil Ychwanegol Gofynnol |
| AMB21 | Cyfartaledd dwysedd cyffredinol (unedau fesul hectar) a ganiateir mewn cysylltiad â datblygiadau tai mewn Trefi, Pentrefi Mawr, Pentrefi Bach, ac Aneddiadau Gwledig. | | Angen Adolygu Polisi |
| AMB22 | Maint y datblygiadau parhaol, sterileiddio a ganiateir mewn ardal diogelu mwynau. | | Parhau i Fonitro |

## AMB20: Swm (hectarau) a lleoliad y datblygiadau ar hap a ganiateir ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a thir maes glas.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Defnyddio Tir mewn Ffordd Effeithlon** |
| **Dangosydd:** | **Maint datblygiad (hectarau) a lleoliad datblygiad hap safleoedd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd yn gynt ac ar safleoedd maes glas.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP6 — Dosraniad Twf ar draws yr Hierarchaeth Anheddiad |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | I fwyafrif y datblygiad ar hap-safleoedd a ganiateir digwydd ar dir a ddatblygwyd yn gynt a'i leoli o fewn ffiniau datblygu Trefi a Phentrefi Mawr. |
| **Trothwy:** | I fwyafrif y datblygiad ar hap-safleoedd a ganiateir ddigwydd ar safleoedd maes glas tu allan i ffiniau datblygu Trefi a Phentrefi Mawr |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar ddosbarthiad y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd ar safleoedd ar hap, ar gyfer pob math o ddatblygiad, ar draws yr hierarchaeth aneddiadau. Rhoddir dadansoddiad ychwanegol ynghylch a oedd y cynnig ar safle maes glas neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol fel y'i diffinnir yn Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.

Mae canfyddiadau cychwynnol yn dangos bod caniatâd wedi'i roi yn ystod y cyfnod monitro (sef rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023) ar hap-safleoedd ar gyfer arwynebedd o 93.01 hectar (ha). O'r 93.01 ha hyn, roedd 25.17 ha (27%) ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, gyda 66.16 ha (71%) ar safleoedd maes glas a 1.68 ha (2%) ar gymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir glas. Fodd bynnag, o edrych yn agosach, gwelir y bydd rhai o'r ceisiadau ar safleoedd maes glas yn parhau i gael eu dosbarthu fel tir glas pan fydd y cynnig datblygu wedi'i gwblhau. Mae hyn yn cynnwys pob caniatâd ar gyfer datblygiadau amaethyddol (13.99 ha), cynigion mannau agored (0.11 ha) a chynlluniau ynni adnewyddadwy (7.44 ha) - lle mae'r rhan fwyaf o'r defnydd tir gwreiddiol yn aros yr un fath (boeleri biomas wedi'u gosod mewn adeiladau amaethyddol presennol, a phaneli solar ffotofoltäig wedi'u gosod ar dir amaethyddol).

O ganlyniad i hynny, er mwyn asesu a dadansoddi'r dangosydd hwn yn briodol o'i gymharu'n fanwl â pholisïau'r CDLl, bydd yr holl geisiadau am ynni adnewyddadwy — ble mae mwyafrif y defnydd tir gwreiddiol yn aros yr un fath, ynghyd â chynigion ar gyfer datblygiadau amaethyddol a mannau agored a fydd yn cael eu heithrio o'r data. Bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio'n llwyr ar dai, cyflogaeth, twristiaeth a seilwaith ac unrhyw

ddatblygiad Cefn Gwlad Agored arall a fyddai’n arwain at newid o faes glas i dir a ddatblygwyd yn flaenorol.

Mae'r canlyniadau diwygiedig yn dangos bod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn ystod y cyfnod monitro ar hap-safleoedd ar gyfer arwynebedd o 70.41 ha. O’r 70.41 ha, roedd 24.11 ha (34%) ohonynt ar dir a ddatblygwyd o’r blaen, gyda 44.62 ha (63%) ar safleoedd maes glas a 1.68 ha (2%) ar safleoedd yn cynnwys cymysgedd o dir glas a thir a a oedd wedi’i ddatblygu o’r blaen.

Mae Ffigur 4 yn dangos dosbarthiad y datblygiadau ar hap-safleoedd a ganiatawyd ar draws yr hierarchaeth aneddiadau a'r swm (arwynebedd hectar) ohono ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol / safleoedd maes glas.

Mae'r canlyniadau a ddangosir yn Ffigur 4 yn dangos bod dosbarthiad y datblygiadau ar hap-safleoedd a ganiatawyd ar draws yr haen aneddiadau yn gyson â'r strategaeth aneddiadau a Pholisi SP6 ar gyfer pob haen o'r hierarchaeth aneddiadau ac eithrio Cefn Gwlad Agored.

Mae'r arwynebedd ddatblygiadau ar hap-safleoedd a ganiateir yng Nghefn Gwlad Agored (sef maes glas a thir a oedd wedi’i ddatblygu o'r blaen) yn cyfrif am 76% o gyfanswm arwynebedd y datblygiadau ar hap-safleoedd a ganiateir.

O edrych ar y canlyniadau yn erbyn y targed monitro ar gyfer y dangosydd hwn, **“Mae mwyafrif y datblygiadau ar hap-safleoedd a ganiateir ar dir glas sydd wedi ei leoli y tu allan i ffiniau datblygu Trefi a Phentrefi Mawr**,” gwelir bod **51% o ddatblygiadau ar hap-safleoedd wedi eu lleoli ar dir glas y tu allan i ffiniau datblygu** Trefi a Phentrefi Mawr gyda'r rhan fwyaf yn haen Cefn Gwlad Agored yr hierarchaeth. Mae hyn yn is na'r ganran a gofnodwyd yn y cyfnod monitro blaenorol, AMB 2022: 60%.

Mae Ffigur 5 wedi ei anodi er mwyn deall pa fath o ddatblygiadau (defnyddiau tir) a ganiatawyd ar dir maes glas mewn cefn gwlad agored. Y gwerth a ddefnyddir i gyfrifo’r ganran yw’r arwynebedd (hectarau) a ganiatawyd i fod yn gyson â’r data uchod. Mae’n werth nodi bod y ffigurau hyn yn cynnwys addasu adeiladau amaethyddol.


Dengys Ffigur 5 fod datblygiadau twristiaeth yn cyfrif am 63% o'r arwynebedd a ganiateir ar dir glas yng Nghefn Gwlad Agored. Roedd y ceisiadau a ganiatawyd yn cwmpasu arwynebedd o 22.26 ha, gan gynnwys 74 o geisiadau ar wahân ar gyfer 219 o unedau llety unigol (mae'r rhain yn cynnwys cytiau bugeiliaid, podiau glampio, cabanau a llety gwyliau traddodiadol). Mae'r canlyniadau'n gyson â chanfyddiadau'r AMBau blaenorol a'r Adolygiad Monitro. Yn y dangosydd monitro AMB37, ystyrir sut mae'r caniatadau cynllunio hyn yn cyd-fynd â pholisïau'r CDLl.

Mae Ffigur 5 hefyd yn dangos bod datblygiadau preswyl yn cyfrif am 21% o'r arwynebedd a ganiatawyd ar dir glas yng Nghefn Gwlad Agored. O edrych ar y data yn fanwl, roedd 62% o'r rhai a ganiatawyd ar gyfer addasu ysguboriau, ac roedd 30% ar gyfer anheddau menter wledig. Roedd y gweddill ar gyfer defnydd preswyl nad oedd yn arwain at annedd newydd, megis newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio cwrtil preswyl. Caniateir trosi adeiladau amaethyddol i ddefnydd preswyl ac anheddau menter wledig ill dau trwy bolisi cynllunio Cenedlaethol.

Mae’r canlyniadau ar gyfer y cyfnod monitro hwn yn dangos bod mwyafrif y datblygiadau ar hap yn cael eu caniatáu ar dir maes glas y tu allan i ffiniau datblygu Trefi a Phentrefi Mawr. Mae hyn yn golygu bod y sbardun wedi ei dramgwyddo; fodd bynnag, mae’r dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu bod y datblygiadau hyn yn cyd-fynd â’r CDLl a’r Polisi Cenedlaethol.

Mae'n werth cofio hefyd bod ardal y Cynllun yn un o'r ardaloedd mwyaf gwledig yng Nghymru. Mae cyfanswm arwynebedd y Cynllun yn cyfateb ag oddeutu 430,301 hectar, a dim ond 3,054 hectar o hyn sydd o fewn ffiniau datblygu yr aneddiadau (llai nag 1% o'r arwynebedd cyfan). Mae canlyniadau'r dangosydd hwn yn adlewyrchu nodweddion yr ardal ac anghenion ehangach yr economi a'r boblogaeth.


**Ffigur 4. Siart yn Dangos Lleoliad Datblygiadau ar Hap a Ganiatawyd mewn Hectarau ar draws yr Hierarchaeth Aneddiadau fesul Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol / Tir Maes Glas.**




| | Cefn Gwlad Agored | Anheddiad Gwledig | Pentref Bach | Pentref Mawr | Tref |
|---|---|---|---|---|---|
| Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol | 17.83 | 0.07 | 0.56 | 1.61 | 4.05 |
| Tir Glas | 35.52 | 0.27 | 0.35 | 7.59 | 0.90 |
| Cymysg | 0.07 | 0.00 | 0.00 | 0.59 | 1.01 |

Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol | Tir Glas | Cymysg

**Ffigur 5. Siart yn Dangos Canran yr Arwynebedd a Ganiatawyd ar gyfer Cynigion Datblygu Gwahanol ar Dir Glas mewn Cefn Gwlad Agored**



**Cam Gweithredu**

**Yr Ymchwil Ychwanegol Gofynnol**

Edrych ar dystiolaeth ar ddatblygu cynaliadwy a buddion economaidd i lywio strategaeth a pholisïau'r CDLl Newydd.

## AMB21: Cyfartaledd dwysedd cyffredinol (unedau fesul hectar) a ganiateir mewn cysylltiad â datblygiadau tai mewn Trefi, Pentrefi Mawr, Pentrefi Bach, ac Aneddiadau Gwledig.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Defnyddio Tir mewn Ffordd Effeithlon** |
| **Dangosydd:** | **Cyfartaledd dwysedd cyffredinol (unedau fesul hectar) a ganiateir mewn cysylltiad â datblygiadau tai mewn Trefi, Pentrefi Mawr, Pentrefi Bach, ac Aneddiadau Gwledig.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi sy'n Seiliedig ar Bwnc H4 — Dwysedd Tai |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | I fwyafrif dwysedd cyffredinol tai a ganiateir ar safleoedd gyd-fynd â'r canllawiau amrediad a amlinellir ym mholisi H4 mewn cysylltiad â:<br>• Threfi a phentrefi Mawr — 27 uned fesul hectar.<br>• Pentrefi Bach — 20–25 uned fesul hectar.<br>• Aneddiadau Gwledig — 10–15 uned fesul hectar.<br>• |
| **Trothwy:** | Os bydd dwysedd cyffredinol cyfartalog y datblygiadau tai a ganiateir ym mhob categori aneddiadau'n syrthio o dan y targedau ar gyfer pob math o anheddiad mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar ddwysedd y datblygiadau a gyflawnwyd ar ddatblygiadau a ganiatawyd ar draws yr haenau anheddu. Fe'i cynlluniwyd i brofi gweithrediad Polisi H4 y CDLl ac yn benodol yr ystodau arweiniad ar gyfer dwysedd a nodir yn y Polisi. Mae datblygiadau a ganiateir ar ddwyseddau is na'r rhai a bennir yn y Polisi yn dynodi defnydd llai effeithlon o dir. Fodd bynnag, fel y nodir ym Mholisi H4 y CDLl, caniateir amrywio dwyseddau pan ellir eu cyfiawnhau trwy dystiolaeth o amgylchiadau neu gyfyngiadau lleol.

Nodir y canlyniadau monitro ar gyfer dwysedd cyfartalog datblygiad ar gyfer pob math o haen/datblygiad aneddiadau o'u cymharu â'r ystodau arweiniad yn Nhabl 23. Mae'r canlyniadau'n dangos bod dwysedd cyfartalog y datblygiadau a ganiateir mewn Trefi, sef 35 annedd yr hectar, yn parhau i fod yn unol â'r canllaw, sef o leiaf 27 annedd yr hectar a nodir yn y polisi. Mae'r canlyniadau'n parhau i ddangos bod y dwyseddau a gyflawnwyd mewn Pentrefi Mawr yn is na'r disgwyl; fodd bynnag, mae dwysedd cyfartalog datblygiadau ar raddfa lai mewn Pentrefi Bach ac Aneddiadau Gwledig yn bodloni disgwyliadau polisi. Mae dwysedd cyfartalog anheddau sengl ar draws yr haenau aneddiadau yn is na'r canllaw polisi, sef 10-15 uned yr hectar.

Roedd wyth datblygiad o fewn Trefi, yn ymwneud ag adeiladu o'r newydd, newid defnydd ac addasu, yn uwch na'r canllawiau dwysedd yn ystod y cyfnod monitro hwn. Fodd bynnag, nid oedd tri datblygiad wedi cyrraedd y canllawiau dwysedd, gan gynnwys cynllun ar gyfer byngalos â chymorth yn Ystradgynlais, sy'n cael ei ystyried yn dderbyniol o ystyried math dwysedd is y datblygiad. Cafodd arwynebedd datblygadwy o gynllun chwe thŷ yn Llandrindod ei leihau, gan ei fod yn cynnwys maes parcio newydd a ffordd fynediad i'r fynwent. Roedd cynllun addasu tafarn yn Llandrindod hefyd yn cynnwys dwysedd isel.

Roedd y dwysedd ar gyfer saith o'r naw datblygiad tai a ganiatawyd mewn Pentrefi Mawr yn is na'r canllawiau dwysedd. Roedd y rhesymau a roddwyd dros ddwysedd is yn cynnwys cyfyngiadau safle a gofynion seilwaith, a oedd yn lleihau arwynebedd y safleoedd y gellid eu datblygu. Roedd datblygiad yn Llandrinio yn cynnwys gorsaf bwmpio newydd ac roedd datblygiad arall yn Nhrewern yn cynnwys darparu maes parcio ysgol newydd. Effeithiwyd ar ran o safle yng Nghastell Caereinion gan gyfyngiadau dŵr wyneb. Defnyddiwyd cymeriad yr anheddau cyfagos hefyd i gyfiawnhau datblygiadau dwysedd is, yn enwedig mewn lleoliadau ar gyrion aneddiadau.

Roedd datblygiadau a ganiatawyd mewn Pentrefi Bychain yn ystod y cyfnod monitro hwn yn cynnwys addasu cyn ganolfan iechyd yn annedd yng Nglantwymyn, datblygiad o ddau annedd yn Aber-craf ac un annedd yn Llandyssil. Dim ond y cynllun yn Aber-craf oedd yn bodloni'r canllaw dwysedd ar gyfer Pentrefi Bach, sef 20 uned yr hectar. Nodir na chafodd dwysedd ei ystyried yn Adroddiad y Swyddog ar gyfer y datblygiadau hyn, sydd felly'n awgrymu nad yw'r polisi'n cael ei gymhwyso'n gyson.

Roedd dwysedd dau ddatblygiad a ganiatawyd yn Aneddiadau Gwledig Fron a Llanfihangel-yng-Ngwynfa yn disgyn o fewn yr ystod canllaw polisi o 10-15 uned yr hectar, gyda chynllun newid defnydd yng Ngarthmyl yn uwch na'r amrediad canllaw, gyda dwysedd o 19 uned yr hectar.

Mae canlyniadau'r cyfnod monitro hwn yn dangos bod dwysedd yn cael ei ystyried gan Swyddogion yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig mewn Trefi a Phentrefi Mawr, ond i raddau llai mewn aneddiadau haen is. Mae'r duedd ar gyfer dwyseddau is mewn Pentrefi Mawr yn parhau. Ymddengys o'r dadansoddiad o geisiadau cynllunio bod cyd-destun lleol safleoedd o fewn Pentrefi Mawr, yn ogystal â chyfyngiadau safle-benodol, yn cael cryn bwysau wrth wneud penderfyniadau. Mae hyn yn adlewyrchu cymeriad dwysedd isel presennol Pentrefi Mawr, mewn cymhariaeth â Threfi lle gallai fod mwy o gyfle i gyflawni dwysedd uwch o gyfleoedd addasu neu fewnlenwi.

Mae'r sbardun ar gyfer y dangosydd hwn yn parhau i gael ei gyrraedd mewn perthynas â Phentrefi Mawr ac anheddau sengl, ac, felly, mae angen ymagwedd newydd tuag at ddwysedd tai ar draws haenau aneddiadau a mathau o ddatblygiadau fel rhan o broses y CDLl Newydd. Bydd angen i'r dull hwn ystyried nodau polisi cynllunio cenedlaethol ynghylch dwysedd a nodir yn Cymru'r Dyfodol, sy'n disgwyl i ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol fod â dwysedd o 50 annedd yr hectar o leiaf. Bydd Polisi H4 y CDLl yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses CDLl Newydd.

**Tabl 23. Dwysedd y Datblygiad Cyfartalog a Ganiatawyd yn ystod y Cyfnod Monitro fesul Haen Aneddiadau / Math o Ddatblygiad**

| Haen aneddiadau / math o ddatblygiad | Dwysedd cyfartalog (anheddau fesul hectar) | Ystod arweiniad |
|---|---|---|
| **Tref** | 35 | 27+ |
| **Pentref Mawr** | 19 | 27+ |
| **Pentref Bach** | 21 | 20-25 |
| **Anheddiad Gwledig** | 11 | 10-15 |
| **Anheddau sengl** | 7 | 10-15 |

**Cam Gweithredu**

**Angen Adolygu'r Polisi**

Nid yw polisïau cynllun datblygu yn cael eu gweithredu ac maent yn methu â chyflawni; efallai y bydd angen adolygiad o'r polisi penodol.

## AMB22: Maint y datblygiadau parhaol, sterileiddio a ganiateir mewn ardal diogelu mwynau.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Defnyddio Tir mewn Ffordd Effeithlon** |
| **Dangosydd:** | **Maint y datblygiadau parhaol, sterileiddio a ganiateir mewn ardal diogelu mwynau.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM8 — Diogelu Mwynau |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad parhaol sterileiddio mewn ardal diogelu mwynau, oni bai ei fod yn cyd-fynd â pholisi DM8. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy ar gyfer datblygiad parhaol sterileiddio, mewn ardal diogelu mwynau nad yw'n cyd-fynd â pholisi DM8, mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Nod y dangosydd hwn yw profi effeithiolrwydd Polisi DM8 y CDLl — Diogelu Mwynau. Mae'r polisi'n nodi bod Ardaloedd Diogelu Mwynau wedi eu dynodi ar gyfer dyddodion tywod a graean, tywodfaen, calchfaen, creigiau igneaidd a glo brig, a dangosir yr ardaloedd hyn ar Fap Cynigion y CDLl yn unol â gofynion polisi cenedlaethol. Nid yw diffinio ardaloedd o'r fath yn awgrymu unrhyw ragdybiaeth y byddant yn cael eu cloddio, yn hytrach, y nod yw sicrhau eu bod yn parhau i fod ar gael pan fydd angen i genedlaethau'r dyfodol eu defnyddio nhw.

Yn ystod y cyfnod monitro (sef rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023), caniatawyd 174 o geisiadau o fewn Ardal Diogelu Mwynau neu'n gorgyffwrdd yn rhannol ag un. O'r 174 o geisiadau, nid oedd 40 yn rhestru Polisi DM8 y CDLl o fewn y rhestr o bolisïau a ystyriwyd, yn adroddiad y Swyddog.

O'r 40 o gynigion, roedd 39 ar gyfer cynigion yr ystyriwyd nad oeddent yn cael unrhyw effaith; mae enghreifftiau'n cynnwys addasu neu ailddatblygu adeiladau presennol, mân estyniadau i adeiladau presennol neu gynigion ar gyfer lleoli podiau gwersylla a charafanau sefydlog (h.y., gwaith datblygu nad yw'n barhaol). . Ar gyfer yr un cais a oedd yn weddill, roedd dynodi'r Ardal Diogelu Mwynau fel cyfyngiad wedi'i fethu. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad oedd y cynnig datblygu yn cydymffurfio â Pholisi DM8 y CDLl, ond nad oedd wedi cael ei ystyried.

Cafodd mesurau eu rhoi ar waith, ar ddechrau 2021, i sicrhau bod Ardaloedd Diogelu Mwynau yn cael eu cipio yn gyson fel cyfyngiad. Mae hyn wedi arwain at welliant amlwg ym mherfformiad dangosydd monitro AMB22 yn yr AMB hwn, o'i gymharu ag AMB 2021. Oherwydd y gwelliannau a welwyd gyda'r dangosydd monitro hwn, argymhellir bod y

gwaith monitro'n parhau am flwyddyn bellach; erbyn hyn, mae'r sefyllfa wedi symud ymlaen tuag at weithredu polisïau cynllun datblygu yn effeithiol.

Oherwydd y gwelliannau a welwyd gyda'r dangosydd monitro hwn, argymhellir bod y gwaith monitro'n parhau am flwyddyn arall, mae'r sefyllfa bellach wedi symud ymlaen at weithredu polisïau'r cynlluniau datblygu yn effeithiol.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## Amcan 4 — Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd

**Cefnogi newid i sir garbon isel gyda lefelau gwastraff isel trwy bob datblygiad, gan gynnwys lleihau'r gwastraff a anfonir at safleoedd tirlenwi, a chyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd lle mae'r risg o lifogydd yn uchel, a lle bo'n bosib, lleihau neu reoli'n well y risg o lifogydd ar gyfer cymunedau, seilwaith a busnesau.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 4 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB24 | Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â Draenio Tir. | | Heb ei Asesu |
| AMB25 | Nifer y datblygiadau gwastraff a ganiateir:<br>a) ar ddyraniadau cyflogaeth a restrir dan bolisi E1;<br>b) tu fewn i ffiniau datblygu;<br>c) mewn cefn gwlad agored. | | Parhau i Fonitro |

### AMB24: Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â Draenio Tir.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â Draenio Tir.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM6 — Mesurau Atal Llifogydd a Draenio Tir |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu'r CCA mewn cysylltiad â Draenio Tir o fewn 24 mis i fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff y CCA mewn cysylltiad â Draenio Tir eu mabwysiadu o fewn 24 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Roedd CCA Draenio Tir i fod i gael eu mabwysiadu erbyn 17 Ebrill 2020, ond gohiriwyd hynny wrth iddynt aros am gadarnhad gan Gorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros ddraenio tir. Er bod y CDLl yn cynnwys ymrwymiad i gynhyrchu CCA Draenio Tir, dylid nodi bod proses y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy wedi ei chyflwyno ar ôl i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Paratowyd CCA Draenio Tir ac ymgynghorwyd arnynt, ond mae angen cyfraniad Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy yn awr cyn y gellir symud y CCA ymlaen i'w mabwysiadu.

Disgwylir i TAN15 diwygiedig gael ei gyhoeddi a fydd yn dirymu'r defnydd o'r Mapiau Cyngor Datblygu. Bydd angen i'r CCA Draenio Tir terfynol gyd-fynd â pholisi Cenedlaethol gan gynnwys TAN15 diwygiedig pan gaiff ei gyhoeddi.

**Cam Gweithredu**

Heb ei Asesu

## AMB25: Nifer y datblygiadau gwastraff a ganiateir:

a) ar ddyraniadau cyflogaeth a restrir dan bolisi E1;
b) tu fewn i ffiniau datblygu;
c) mewn cefn gwlad agored.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau gwastraff a ganiateir:**<br>**a) ar ddyraniadau cyflogaeth a restrir dan bolisi E1;**<br>**b) tu fewn i ffiniau datblygu;**<br>**c) mewn cefn gwlad agored.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc W1 — Lleoliad Datblygiadau Gwastraff |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad gwastraff mewn cefn gwlad agored, oni bai iddo gydymffurfio â pholisi W1. |
| **Trothwy:** | Caniatáu 1 datblygiad gwastraff neu fwy mewn cefn gwlad agored nad yw'n cydymffurfio â pholisi W1. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Diben y dangosydd monitro hwn yw nodi'r achosion hynny pan ddefnyddir y CDLl i ganiatáu datblygiadau gwastraff mewn Cefn Gwlad Agored.

Nod Polisi W1 y CDLl yw canolbwyntio a chefnogi lleoliadau cynigion datblygu gwastraff yn y safleoedd cyflogaeth a nodir ym mholisïau E1 ac E4 y CDLl neu o fewn ffiniau datblygu diffiniedig Trefi a Phentrefi Mawr. Aiff ymlaen i ddisgrifio'r pum maen prawf y byddai angen eu bodloni cyn y byddai datblygiadau o'r fath yn cael eu caniatáu mewn cefn gwlad agored. Nod y dangosydd hwn felly yw profi effeithiolrwydd y pum maen prawf hyn o ran diogelu cefn gwlad agored rhag datblygiadau amhriodol.

Yn ystod y cyfnod monitro, doedd dim ceisiadau cynllunio ar gyfer cynigion datblygu gwastraff a ganiatawyd yn ardal y Cynllun.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

**Amcan 5 — Ynni a Dŵr**

**Cefnogi arbed ynni a dŵr a chreu ynni o adnoddau adnewyddadwy mewn lleoliadau priodol lle bo'n dderbyniol o safbwynt effaith economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a chronnus.**

**Yn enwedig:**

**Cyfrannu at gyflawni targedau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ym Mhowys. Cyflawni cyfraniad y sir i'r i'r targedau cenedlaethol o safbwynt creu ynni adnewyddadwy.**

**Dangosyddion Lleol Amcan 5 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.**

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB26 | Capasiti ychwanegol a mewnosodir (MW) — datblygiadau tyrbinau gwynt a ganiateir mewn Ardaloedd Chwilio Strategol bob blwyddyn. | Amh. | Amh. |
| AMB27 | Capasiti ychwanegol a mewnosodir (MW) — Datblygiadau Solar ffotofoltäig a ganiateir mewn Ardaloedd Chwilio Lleol bob blwyddyn. | | Adolygiad Polisi yn Ofynnol |
| AMB28 | Nifer y cynlluniau gwresogi cymunedol/ardal a ganiateir dan bolisi DM13 (maen prawf 15) yn flynyddol. | | Adolygiad Polisi yn Ofynnol |
| AMB29 | Gosod capasiti ychwanegol (MW) ar gyfer trydan adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir yn flynyddol.<br>Gosod capasiti ychwanegol (MW) ar gyfer ynni thermal adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir yn flynyddol. | | Parhau i Fonitro |
| AMB30 | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Ynni Adnewyddadwy. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid Oes Angen Gweithredu |
| AMB31 | Nifer y datblygiadau a ganiateir ar gyfer ynni gwynt a Solar ffotofoltäig dros 5 MW. | | Parhau i Fonitro |

## AMB26: : Capasiti ychwanegol a mewnosodir (MW) — datblygiadau tyrbinau gwynt a ganiateir mewn Ardaloedd Chwilio Strategol bob blwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Ynni a Dŵr |
| **Dangosydd:** | **Capasiti ychwanegol a mewnosodir (MW) — datblygiadau tyrbinau gwynt a ganiateir mewn Ardaloedd Chwilio Strategol bob blwyddyn.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc RE1 — Ynni Adnewyddadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Cyfrannu at gyrraedd targedau capasiti AChS TAN 8 |
| **Trothwy:** | Ni chaniateir gosod unrhyw ddatblygiadau tyrbinau gwynt ychwanegol o fewn AChS am ddwy flynedd yn olynol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | Amh. |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | Amh. |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | Amh. |

**Dadansoddiad**

Nid yw hwn yn ddangosydd monitro mwyach. Mae ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw wedi disodli Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 ac Ardaloedd Chwilio Strategol ar gyfer ynni gwynt yn Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021)

**Cam Gweithredu**

Amh.

## AMB27: Capasiti ychwanegol a mewnosodir (MW) — Datblygiadau Solar ffotofoltäig a ganiateir mewn Ardaloedd Chwilio Lleol bob blwyddyn.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Ynni a Dŵr |
| **Dangosydd:** | **Capasiti ychwanegol a mewnosodir (MW) — Datblygiadau Solar** ffotofoltäig **a ganiateir mewn Ardaloedd Chwilio Lleol bob blwyddyn.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc RE1 — Ynni Adnewyddadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Bod angen cyfrannu tuag at greu ynni adnewyddadwy trwy ddatblygiadau Solar newydd a ganiateir mewn AChLl. |
| **Trothwy:** | Ni chaniateir capasiti ychwanegol a mewnosodir mewn datblygiadau Solar ffotofoltäig mewn AChLl am ddwy flynedd yn olynol |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd monitro hwn yw monitro pa mor effeithiol yw Polisi RE1 y CDLl o ran sicrhau bod cynigion ar gyfer solar ffotofoltäig rhwng 5 a 50MW yn canolbwyntio ar Ardaloedd Chwilio Lleol dynodedig y CDLl.

Nododd y CDLl 20 Ardal Chwilio Lleol ledled y sir. Nodwyd y rhain fel ardaloedd ym Mhowys yr ystyrir eu bod yn cynnwys y cyfyngiad lleiaf ar gyfer prosiectau cynhyrchu trydan adnewyddadwy solar ffotofoltäig ar raddfa ganolig i fwy.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni fu unrhyw gapasiti ychwanegol a osodwyd yn unrhyw un o'r 20 Ardal Chwilio Lleol yn ardal y Cynllun.

Mae absenoldeb unrhyw gydsyniadau cynllunio Solar Ffotofoltäig a ganiateir yn yr Ardaloedd Chwilio Lleol a nodwyd ar gyfer y cyfnod monitro hwn a thros gyfnod o fwy na dwy flynedd yn olynol yn golygu bod sbardun y dangosydd monitro wedi ei gyrraedd.

Fodd bynnag, cydnabyddir y posibilrwydd mai ffactorau economaidd, megis newidiadau i gyfundrefn gymorthdaliadau ac anallu i gael cysylltiadau cost-effeithiol â grid, yn hytrach na'r polisi, yw'r ffactorau sy'n rheoli. Mae'n bosibl y bydd angen casglu rhagor o dystiolaeth, sy'n gysylltiedig ag adolygiad o'r polisi.

Mae'r sbardun ar gyfer y dangosydd monitro hwn wedi ei gyrraedd, ni chaniatawyd capasiti ychwanegol o ddatblygiadau solar Ffotofoltäig gosodedig mewn Ardaloedd Chwilio Lleol am fwy na dwy flynedd yn olynol. Cynhelir gwaith ymchwil fel tystiolaeth i gefnogi'r broses o baratoi'r CDLl Newydd; bydd hyn yn cynnwys ailystyried y polisïau a'r cynigion o ran ynni adnewyddadwy gan gynnwys defnyddio Ardaloedd Chwilio Lleol.

**Cam Gweithredu**

**Adolygiad Polisi yn Ofynnol**

Nid yw polisïau cynlluniau datblygu yn cael eu gweithredu ac maent yn methu â chyflawni; mae'n bosibl y bydd angen adolygiad o'r polisi penodol.

### AMB28: Nifer y cynlluniau gwresogi cymunedol/ardal a ganiateir dan bolisi DM13 (maen prawf 15) yn flynyddol..

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Ynni a Dŵr |
| **Dangosydd:** | **Nifer y cynlluniau gwresogi cymunedol/ardal a ganiateir dan bolisi DM13 (maen prawf 15) yn flynyddol.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM13 — Dyluniad ac Adnoddau (Maen Prawf 14) |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Cynnwys caniatáu cynlluniau gwresogi cymunedol/ardal dan bolisi DM13 (maen prawf 14). |
| **Trothwy:** | Ni chaniateir cynlluniau gwresogi cymunedol/ardal dan bolisi DM13 (maen prawf 15). |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn ceisio profi perfformiad Maen Prawf 14 o Bolisi DM13, o ran cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gwresogi cymunedol/ardal. Mae'r maen prawf yn ei gwneud yn ofynnol i ymchwilio i "dichonoldeb technegol ac ariannol rhwydweithiau gwresogi cymunedol a/neu ardal pryd bynnag y mae Dwysedd Galw Gwres y cynnig datblygu yn fwy na 3MW/Km$^2$".

Mae Rhwydweithiau Gwresogi Cymunedol neu Ardal yn gweithio ar egwyddor rhwydwaith a rennir o bibellau gwresogi sy'n cynhesu un neu fwy o adeiladau, mewn ardaloedd poblog neu drefol fel arfer, ble mae'r galw yn ddibynadwy neu bron yn gyson. Maent yn arfer cynnwys un ffynhonnell wres a phibellau sydd wedi eu hinswleiddio'n drwm, sy'n rhedeg o dan y ddaear rhwng yr eiddo dan sylw. Mewn trefi a dinasoedd Ewropeaidd y mae'r dechnoleg yn gymharol gyffredin ynddynt, maent yn arfer cynnwys Gwres a Phŵer Cyfunedig neu waith Gwres a Phŵer Oeri Cyfunol. Mae'r rhain yn defnyddio'r gwres dros ben sy'n cael ei greu trwy gynhyrchu trydan. Mae'r trydan naill ai'n cael ei ddefnyddio gan yr adeilad/au sy'n rhan o'r rhwydwaith neu fe'i gwerthir i'r Grid Cenedlaethol. Gall y generaduron Gwres a Phŵer Cyfunedig/Gwres a Phŵer Oeri Cyfunol eu hunain ddefnyddio amrywiaeth o danwyddau, o ddiesel i fiomas, ac felly fe'u hystyrir naill ai'n garbon isel neu'n gwbl adnewyddadwy.

Fel gyda'r AMB blaenorol (AMB 2021), ni chaniatawyd unrhyw geisiadau o'r fath, naill ai'n cynnwys graddfa, neu sydd mewn lleoliad, sy'n debygol o fod yn ymarferol neu'n ddichonadwy. Wrth ystyried pa mor effeithiol yw'r rhan hon o'r polisi, mae angen cadw nifer o ffactorau mewn cof wrth ddehongli'r canlyniad hwn.

Mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr gynnal ymchwiliad er mwyn penderfynu a yw defnyddio rhwydwaith o'r fath yn ddichonol yn ariannol ac yn dechnegol. Os

canfyddir nad yw cynllun yn ddichonol, nid oes gofyniad iddo weithredu un. Ni chofnodir unrhyw ymchwiliadau o'r fath yng ngweithgareddau monitro y Cyngor, felly ni fu'n bosibl gwybod faint o gynigion a ymgymerodd â'r ymchwiliadau hwn ac a'i diystyrodd oherwydd nad oedd yn ddichonadwy.

Cydnabyddir hefyd nad yw rhwydweithiau gwresogi ardal yn debygol o fod yn ddichonol oni bai bod y cynnig yn cynnwys galw digonol (e.e., lleoliad preswyl (trefol fel arfer) megis bloc o fflatiau, ysbyty, neu gartref preswyl, pwll nofio cyhoeddus, neu ganolfan hamdden ac ati) a/neu ei fod yn agos at ddefnyddwyr tebyg eraill sy'n gofyn am alw thermol rheolaidd neu uchel. Felly, mae'r cyfle i ganiatáu cynllun o'r fath yn dibynnu'n llwyr ar geisiadau o leoliadau priodol yn y lle cyntaf, ac yna byddai'n rhaid i'r ceisiadau hynny gadarnhau dichonoldeb rhwydwaith o'r fath. Felly, mae'n bosibl nad yw diffyg unrhyw gynllun a ganiateir yn cyfeirio at fethiant yn y polisi, ond at ffactorau ehangach megis nifer, graddfa a lleoliadau ceisiadau yn y lle cyntaf.

Cynhelir gwaith ymchwil fel tystiolaeth i gefnogi'r broses o baratoi'r CDLl Newydd; bydd hyn yn cynnwys ailystyried y polisïau a'r cynigion o ran ynni adnewyddadwy gan gynnwys cynlluniau gwresogi cymunedol/ardal.

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**Adolygiad Polisi yn Ofynnol**

Nid yw polisïau cynlluniau datblygu yn cael eu gweithredu ac maent yn methu â chyflawni; mae'n bosibl y bydd angen adolygiad o'r polisi penodol.

## AMB29:

## Gosod capasiti ychwanegol (MW) ar gyfer trydan adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir yn flynyddol.

## Gosod capasiti ychwanegol (MW) ar gyfer ynni thermal adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir yn flynyddol.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Ynni a Dŵr** |
| **Dangosydd:** | **Gosod capasiti ychwanegol (MW) ar gyfer trydan adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir yn flynyddol.**<br>**Gosod capasiti ychwanegol (MW) ar gyfer ynni thermal adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir yn flynyddol.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc RE1 — Ynni Adnewyddadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM13 — Dyluniad ac Adnoddau |
| **Targed:** | • Gosod capasiti ychwanegol ar gyfer trydan adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir — 30.85MW (cyfraniad trydan potensial) erbyn 2021.<br>• Gosod capasiti ychwanegol ar gyfer trydan adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir — 61.7MW (cyfraniad trydan potensial) erbyn 2026.<br>• Gosod capasiti ychwanegol ar gyfer ynni thermal adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir — 3.5MW (cyfraniad thermal potensial) erbyn 2021.<br>Gosod capasiti ychwanegol ar gyfer ynni thermal adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir — 7MW (cyfraniad thermal potensial) erbyn 2026. |
| **Trothwy:** | Pan fydd maint y capasiti ychwanegol a osodir ar gyfer ynni adnewyddadwy, isel mewn carbon neu ddi-garbon a ganiateir yn syrthio o dan y cyfraniad trydan neu thermal potensial. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd monitro hwn yw monitro effeithiolrwydd Polisi RE1 y CDLl o ran cyfrannu at gyflawni'r targedau cenedlaethol a nodir yn y cyfiawnhad rhesymegol dros Bolisi RE1.

Cefnogir Polisi RE1 y CDLl gan Asesiad Ynni Adnewyddadwy Powys Diweddariad (2017) sy'n nodi faint o drydan adnewyddadwy di-garbon neu garbon isel ac ynni thermol y gellid

disgwyl yn rhesymol i'r sir ei gyfrannu tuag at y targedau cenedlaethol. O ran trydan, roedd y gwahanol ffynonellau a restrir yn Asesiad Ynni Adnewyddadwy Powys (Biomas, Ynni Dŵr, Nwy Tirlenwi, Pŵer Gwynt, Solar Ffotofoltäig, Treulio Anaerobig, Gwres a Phŵer Cyfunedig ac Ynni Adnewyddadwy sydd wedi ei Integreiddio i'r Adeiladau) yn debygol o gyfrannu capasiti ychwanegol o 61.7MW at yr hyn sydd eisoes yn bodoli, cyn diwedd cyfnod y Cynllun yn 2026.

Yn ystod y cyfnodau monitro blaenorol (rhwng 17 Ebrill 2018 a31 Mawrth 2019, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, a rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022), caniatawyd cyfanswm o 38.1641MW o gapasiti cynhyrchu trydan adnewyddadwy, di-garbon neu garbon isel yn ardal y Cynllun. Yn ogystal, ychwanegwyd cyfanswm o 21.1462MW o gapasiti gosodedig thermol adnewyddadwy neu garbon isel.

O ddadansoddi data'r Cyngor ar gyfer y cyfnod monitro hwn, sef rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gwelwyd bod 7.0243MW ychwanegol o gapasiti cynhyrchu trydan adnewyddadwy, di-garbon neu garbon isel wedi'i ganiatáu, ynghyd â 1.6045MW pellach o gapasiti thermol.

O'u hychwanegu at gyfansymiau'r flwyddyn flaenorol, mae'r ffigurau cronnus, bron bum mlynedd ar ôl mabwysiadu'r CDLl, bellach fel a ganlyn:

- Trydan; 45.1884MW
- Thermol; 23.0665MW

Gyda llai na 17MW o gapasiti gosodedig trydanol bellach yn ofynnol er mwyn cyrraedd targed oes y Cynllun, disgwylir i'r polisi fod wedi caniatáu'r 61.7MW a ragwelir erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. Mae'r ffigurau ar gyfer cynhwysedd thermol hyd yn oed yn well, gan fod y targed o 7MW erbyn diwedd cyfnod y Cynllun yn 2026 eisoes wedi'i guro.

O ganlyniad i'r perfformiad hwn, nid oes angen cymryd camau ychwanegol a bydd perfformiad Polisi RE1 y CDLl yn parhau i gael ei fonitro.

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB30: Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Ynni Adnewyddadwy.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Ynni a Dŵr |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Ynni Adnewyddadwy.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc RE1 — Ynni Adnewyddadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM13 — Dyluniad ac Adnoddau |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Ynni Adnewyddadwy o fewn 12 mis i fabwysiadu'r Cynllun. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff y CCA mewn cysylltiad ag ynni Adnewyddadwy eu mabwysiadau o fewn 12 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | Mabwysiadwyd y CCA Ebrill 2019. |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd y CCA Ynni Adnewyddadwy ym mis Ebrill 2019.

**Cam Gweithredu**

Nid oes angen gweithredu.

## AMB31: Nifer y datblygiadau a ganiateir ar gyfer ynni gwynt a Solar ffotofoltäig dros 5 MW.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Ynni a Dŵr** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir ar gyfer ynni gwynt a Solar ffotofoltäig dros 5 MW.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc RE1 — Ynni Adnewyddadwy |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau, oni bai bod eu maint a lleoliad yn cydymffurfio â meini prawf 1 a 2 polisi RE1. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy o faint (MW) ac mewn lleoliad nad ydynt yn cydymffurfio â meini prawf 1 a 2 polisi RE1. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae meini prawf 1 a 2 o Bolisi RE1 y CDLl yn ymwneud â sicrhau bod yr Ardaloedd Chwilio Strategol ar gyfer datblygiadau gwynt adnewyddadwy, ac Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer datblygiadau solar ffotofoltäig, yn darparu ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy o faint priodol (25MW ac uwch ar gyfer gwynt a rhwng 5MW a 50MW ar gyfer solar). Fodd bynnag, oherwydd bod Cymru’r Dyfodol — Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021) wedi ei gyflwyno ers y cyfnod monitro diwethaf, a TAN 8 — Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy wedi ei ddirymu yn sgil hynny, nid yw’r dynodiad Ardaloedd Chwilio Strategol yn bodoli mwyach. O ganlyniad i hynny, o’r pwynt hwn ymlaen, dim ond â Maen Prawf 2 o Bolisi RE1 y CDLl y mae’r dangosydd monitro hwn yn ymwneud ag ef.

Mae maen prawf 2 yn diogelu'r 20 Ardal Chwilio Lleol yn ardal y Cynllun trwy sicrhau nad yw'r Ardaloedd yn cael eu sterileiddio gan ddatblygiadau adnewyddadwy, carbon isel neu ddi-garbon eraill a fyddai'n anghydnaws â phwrpas yr Ardal Chwilio Lleol. Byddai datblygiadau anghydnaws o'r fath yn cynnwys datblygiadau solar o dan 5MW mewn Ardal Chwilio Lleol pe bai eu presenoldeb yn creu effaith gronnol annerbyniol a fyddai'n golygu na fyddai'r Ardal Chwilio Lleol ar gael i ddatblygiadau mwy y mae'r Ardal wedi'i dynodi ar eu cyfer.

Mae Maen Prawf 2 yn diogelu’r 20 Ardal Chwilio Lleol yn ardal y Cynllun trwy sicrhau nad yw’r Ardaloedd yn cael eu sterileiddio gan ddatblygiadau adnewyddadwy di-garbon neu garbon isel eraill a fyddai’n anghydnaws â diben yr Ardal Chwilio Lleol. Byddai datblygiadau anghydnaws o’r fath yn cynnwys datblygiadau solar o dan 5MW mewn Ardal Chwilio Lleol pe byddai eu presenoldeb yn creu effaith gronnol annerbyniol a fyddai’n golygu nad yw’r Ardal Chwilio Lleol ar gael ar gyfer datblygiadau ar raddfa fwy y mae’r Ardal wedi ei dynodi ar eu cyfer.

Mae dadansoddiad o'r data Rheoli Datblygu ar gyfer y cyfnod monitro yn datgelu na chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau sy'n effeithio ar Ardal Chwilio Lleol.

O ganlyniad i'r perfformiad hwn nid oes angen unrhyw gamau pellach a bydd perfformiad Polisi RE1 y CDLl yn parhau i gael ei fonitro.

| **Cam Gweithredu** |
| --- |
| **Parhau i Fonitro**<br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| |

# Thema 2 — Cefnogi Economi Powys

## Amcan 6 — Economi Lewyrchus

**Cefnogi economi amrywiol, cadarn a llewyrchus ar draws Powys, gan gynnwys economi wledig gadarn, sy’n gynaliadwy ac yn gallu ymateb i newid. Sicrhau taw trefi a phentrefi mawr yw’r prif bwyslais ar gyfer datblygu economaidd, a bod canol ein trefi’n fywiog, yn ddichonol ac yn ddeniadol.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 6 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB32 | Datblygiad adwerthu mawr, swyddfeydd a hamdden (metrau sgwâr) a ganiateir tu fewn a thu allan i ardaloedd Canol Tref. | | Parhau i Fonitro |
| AMB33 | Nifer y datblygiadau a ganiateir ar gyfer datblygu economaidd ar safleoedd cyflogaeth a defnydd cymysg dyranedig mewn cysylltiad â busnes (B1), diwydiant cyffredinol (B2), storfeydd a dosbarthu (B8) aml-ddefnydd, defnydd atodol a defnydd arall. | | Parhau i Fonitro |
| AMB34 | Nifer y datblygiadau cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd heb eu dyrannu. | | Parhau i Fonitro |
| AMB35 | Nifer y datblygiadau a ganiateir at ddefnydd amgen o ran safleoedd cyflogaeth presennol a restrir dan bolisi E4. | | Parhau i Fonitro |
| AMB36 | Nifer y datblygiadau a ganiateir yng nghanol Trefi fyddai’n arwain at lai na:<br>• 75% unedau mewn Prif Ffryntiad Siopa;<br>• 66% unedau mewn Ffryntiad Siopa Eilaidd;<br>at ddefnydd A1 ac A3. | | Adolygiad Polisi yn Ofynnol |

## AMB32: Datblygiad adwerthu mawr, swyddfeydd a hamdden (metrau sgwâr) a ganiateir tu fewn a thu allan i ardaloedd Canol Tref.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Economi Lewyrchus |
| **Dangosydd:** | **Datblygiad adwerthu mawr, swyddfeydd a hamdden (metrau sgwâr) a ganiateir tu fewn a thu allan i ardaloedd Canol Tref.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc E2 — Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Heb eu Dyrannu ar gyfer Cyflogaeth. |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc TD1 — Datblygiadau Twristiaeth |
| **Targed:** | Peidio caniatáu unrhyw ddatblygiadau adwerthu mawr, swyddfeydd neu hamdden tu allan i ardaloedd Canol Tref, oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, TAN 4, neu bolisïau E2 a TD1 y CDLl. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad adwerthu, swyddfeydd neu hamdden mawr neu fwy tu allan i ardaloedd Canol Tref nad yw'n cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, TAN 4, neu bolisïau E2 a TD1 y CDLl mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Nod y dangosydd monitro hwn yw profi gweithrediad polisïau E2 a TD1 y CDLl er mwyn sicrhau mai dim ond mewn ardaloedd canol trefi y lleolir datblygiadau mawr ar gyfer manwerthu, swyddfeydd neu hamdden, oni bai eu bod yn cydymffurfio â Pholisïau Cenedlaethol, TAN 4, neu bolisïau E2 a TD1 y CDLl.

Mae polisïau'r CDLl yn cefnogi cyfleoedd datblygu priodol ar raddfa fach ar gyfer cyflogaeth mewn ardaloedd nad ydynt wedi eu dyrannu at ddibenion o'r fath. Byddai unrhyw geisiadau a gyflwynir nad ydynt yn cyd-fynd â'r meini prawf perthnasol a nodir yn y polisïau yn groes i bolisi.

Yn ystod y cyfnod monitro, caniatawyd tri chais am waith datblygu mawr a oedd yn dod o fewn y categorïau manwerthu, swyddfeydd neu hamdden y tu allan i Ardaloedd Canol Trefi. Roedd dau o'r tri chais ar gyfer datblygiadau twristiaeth ac ystyriwyd eu bod yn cydymffurfio â Pholisi CDLl TD1.

Roedd y trydydd cais ar gyfer datblygu siop goffi a phod lluniaeth (dosbarthiadau defnydd A3) gyda lonydd prynu drwy ffenest y car, a gwesty ar gyrion y Trallwng yn Buttington. Mae'r Trallwng wedi'i ddynodi'n Ganolfan Ardal Fanwerthu yn y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu; fodd bynnag, nid yw'r cynnig wedi ei leoli yng nghanol y dref, ond yn ymyl ffin y datblygiad ar gyrion y dref.

Yn adroddiad y Swyddog, mae'n datgan, "Mae'r Datganiad Cynllunio a gyflwynwyd yn cynnwys prawf dilyniannol sy'n amlinellu'r angen am y datblygiad arfaethedig a chyfiawnhad dros leoliad y safle. Mae'n amlinellu nad yw'n bosibl cynnal 'prawf angen' meintiol ar gyfer unedau A3 gan nad yw data gwariant a throsiant ar gael yn yr un modd ag ar gyfer cynigion unedau A1. Fodd bynnag, mae 'prawf angen' ansoddol wedi'i gynnal, a dadleuir y byddai'r unedau A3 arfaethedig yn gwasanaethu'n bennaf fel 'safan fer' i deithwyr ar y rhwydwaith ffyrdd 'A' mewndrefol ar yr A483 a'r A458, y mae'r lleoliad hwn yn gallu ei ddarparu mewn ffordd unigryw, gan ei fod ar gyffordd tair ffordd dosbarth 'A'…." ar ben hynny, mae'n nodi, "…. mae'r cynnig yn cynnwys dwy uned prynu drwy ffenest y car A3; ac mae'r prawf dilyniannol a gyflwynwyd yn ei gwneud yn glir bod lleoliad y safle gyferbyn â'r rhwydwaith cefnffyrdd a natur prynu drwy ffenest y car yr unedau yn rhan hanfodol o'r cynnig ehangach."

O ran lleoliad y gwesty, mae adroddiad y Swyddog yn nodi "O ran y prawf dilyniannol, fel yr amlinellir uchod, ni nodir bod unrhyw safleoedd dilyniannol o faint ac addasrwydd digonol a ffefrir ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn ei gyfanrwydd o fewn y Trallwng ar hyn o bryd. Mae wedi ei nodi bod y cynnig ar gyfer dwy uned A3 a gwesty C1 yn hanfodol i'w gilydd, ac felly ni fyddai'n rhesymol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fynnu bod y gwesty yn cael ei ddarparu yn nes at ganol y dref os nad oes digon o le ar gyfer y ddwy uned prynu drwy ffenest y car A3 ar y safle hefyd."

Mae'r cyfiawnhad a roddir ar gyfer lleoliad y siop goffi a'r pod lluniaeth (dosbarthiadau defnydd A3) gyda lonydd prynu drwy ffenest y car, ynghyd â'r gwesty, yn cyfrannu cryn dipyn at fodloni'r profion dilyniannol yn y polisi cynllunio Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae angen rhoi ystyriaeth, wrth adolygu'r polisïau ar gyfer y CDLl Newydd, i sut y bydd cynigion o'r fath yn cael eu trin o fewn polisïau manwerthu a thwristiaeth y Cynllun.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

### AMB33: Nifer y datblygiadau a ganiateir ar gyfer datblygu economaidd ar safleoedd cyflogaeth a defnydd cymysg dyranedig mewn cysylltiad â busnes (B1), diwydiant cyffredinol (B2), storfeydd a dosbarthu (B8) aml-ddefnydd, defnydd atodol a defnydd arall.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Economi Lewyrchus |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir ar gyfer datblygu economaidd ar safleoedd cyflogaeth a defnydd cymysg dyranedig mewn cysylltiad â busnes (B1), diwydiant cyffredinol (B2), storfeydd a dosbarthu (B8) aml-ddefnydd, defnydd atodol a defnydd arall.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP2 — Twf Cyflogaeth |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc E1 — Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd a Ddyrannwyd ar gyfer Cyflogaeth<br>Polisi yn Seiliedig ar Bwnc E3 — Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Cyflogaeth Defnydd Cymysg a Dyrannwyd |
| **Targed:** | Caniatáu defnydd at ddiben cyflogaeth o fewn dosbarthiadau B1, B2 a B8, neu ddefnydd atodol yn unig ar safleoedd cyflogaeth a defnydd cymysg dyranedig, oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisïau E1 ac E3. |
| **Trothwy:** | Caniatáu 1 datblygiad cyflogaeth neu fwy ar safleoedd cyflogaeth a defnydd cymysg dyranedig nad yw'n cydymffurfio â pholisïau E1 ac E3 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd monitro hwn yw profi gweithrediad polisïau E1 ac E3 y CDLl er mwyn sicrhau bod y dyraniadau yn y CDLl yn parhau i ddarparu tir cyflogaeth ledled ardal y Cynllun.

Mae polisi'r CDLl yn hybu'r dyraniadau cyflogaeth (a rhai o'r dyraniadau defnydd cymysg) ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8, ond mae hefyd yn galluogi cynigion ar gyfer defnydd cyflogaeth cynorthwyol ategol nad ydynt mewn gorchymyn dosbarth defnydd B sy'n gwella dichonoldeb safleoedd ac yn galluogi datblygiadau ar safleoedd newydd. Byddai unrhyw geisiadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r maen prawf hwn yn groes i bolisi.

Yn ystod y cyfnod monitro, caniatawyd tri chais cynllunio (3.735 ha) ar gyfer defnyddiau cyflogaeth. Roedd y defnyddiau cyflogaeth a gynigiwyd ar gyfer y safleoedd hyn i gyd yn cydymffurfio â'r defnyddiau a ganiateir a'r categori ar gyfer y safleoedd (Allweddol, Ansawdd Uchel, Defnydd Lleol a Chymysg) yn unol â pholisïau CDLl E1 ac E3, ar safleoedd a neilltuwyd ar gyfer tir cyflogaeth yn y Cynllun.

| |
|---|
| **Cam Gweithredu**<br><br>**Parhau i Fonitro**<br><br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| |

### AMB34: Nifer y datblygiadau cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd heb eu dyrannu.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Economi Lewyrchus |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd heb eu dyrannu.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc E2 — Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Heb eu Dyrannu ar gyfer Cyflogaeth |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir datblygiad cyflogaeth ar safleoedd heb eu dyrannu oni bai ei fod yn cydymffurfio â pholisi E2. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad cyflogaeth neu fwy ar safleoedd heb eu dyrannu nad yw'n cydymffurfio â pholisi E2 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Caniatawyd cyfanswm o saith cais cynllunio ar gyfer cynigion cyflogaeth ar safleoedd cyflogaeth heb eu dyrannu (nid ar ddyraniad cyflogaeth nac o fewn ardal diogelu cyflogaeth) yn ystod y cyfnod monitro.

Dengys Ffigur 6 isod ble'r oedd y cynigion cyflogaeth o ran yr hierarchaeth aneddiadau a natur y datblygiad (e.e., addasu/newid defnydd, estyniad, adeilad newydd neu ailddatblygu).

Mae Polisi E2 y CDLl yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu ar safleoedd heb eu dyrannu ystyried lleoliadau ar safleoedd cyflogaeth cyfredol neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn y lle cyntaf os nad yw safle cyflogaeth sydd wedi ei ddyrannu yn addas. Yn dilyn hyn, mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i fodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:


- Mae'r cynnig ar gyfer hyd at 0.5 hectar, ac fe'i lleolir mewn anheddiad a chanddo ffin ddatblygu neu mae'n gyfagos ag un.
- Mae'r cynnig ar gyfer ehangu, estyn neu wella amgylchedd cyfyngedig safleoedd ac adeiladau cyflogaeth sydd eisoes yn bodoli.
- Mae'r cynnig yn briodol i'w leoliad o ran maint a natur ac fe'i cefnogir gan achos busnes sy'n dangos cyfiawnhad dros ei leoliad.

Roedd pob un o'r pedwar cynnig yn y Trefi a'r Pentrefi Mawr ar safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn anheddiad, felly gellir eu hystyried yn awtomatig fel rhai sy'n cydymffurfio â Pholisi E2 y CDLl.

Caniatawyd y tri chynnig arall yng Nghefn Gwlad Agored oherwydd cydymffurfiaeth â'r polisïau a restrir yn Nhabl 24.

Mae Tabl 24 yn nodi un datblygiad cyflogaeth a ganiatawyd ar safle heb ei ddyrannu nad oedd o reidrwydd yn unol â Pholisi E2 y CDLl, ond a oedd yn unol â Pholisi Cenedlaethol. Yn yr achos hwn, ystyrir mai problem gyda geiriad y fframwaith monitro blynyddol hwn, targed y dangosydd monitro a'r pwynt sbarduno oedd y diffyg cydymffurfio â Pholisi E2 y CDLl, ac nid y ffordd y penderfynwyd ar y cais cynllunio.

**Ffigur 6. Siart Yn Dangos Nifer y Ceisiadau Cynllunio a Ganiatawyd yn ystod Cyfnod Monitro ar Safleoedd Cyflogaeth Heb eu Dyrannu fesul Hierarchaeth Aneddiadau a'r Math o Ddatblygiad.**




**Tabl 24. Ceisiadau a Ganiatawyd yn ystod y Cyfnod Monitro, ar gyfer Datblygiadau Cyflogaeth ar Safleoedd Heb eu Dyrannu mewn Cefn Gwlad Agored yn erbyn Polisi CDLl.**

| Cais | Egwyddor Datblygu | Yn Unol â Pholisi |
|---|---|---|
| **21/0224/FUL** | Newid defnydd tir o amaethyddol i iard goed, fel estyniad i'r gwaith storio a phrosesu pren a sglodion pren cyfreithlon presennol, codi adeilad newydd ac adeiladu mynedfa newydd i'r A438. | Polisi CDLl E2 (maen prawf 2) |
| **21/1571/FUL** | Codi 2 danc tanwydd â bwnd dwbl ar blinthiau concrit gyda system dosbarthu sgid llwytho gwaelod. | Polisi CDLl E2 (maen prawf 2) |
| **22/0073/FUL** | Newid defnydd sgubor o hen siop fferm i fragdy meicro a melin seidr gyda siop atodol - bragdy/siop seidr ac ystafell tap/ystafell flasu ynghyd â maes parcio cysylltiedig. | TAN 23, rhan 3.2.1 |

| |
|---|
| **Cam Gweithredu**<br><br>**Parhau i Fonitro**<br><br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| |

## AMB35: Nifer y datblygiadau a ganiateir at ddefnydd amgen o ran safleoedd cyflogaeth presennol a restrir dan bolisi E4.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Economi Lewyrchus |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir at ddefnydd amgen o ran safleoedd cyflogaeth presennol a restrir dan bolisi E4.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc E4 — Safleoedd Cyflogaeth a Ddiogelir |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM16 — Diogelu Safleoedd Cyflogaeth Presennol |
| **Targed:** | Ni chaniateir datblygiadau at ddefnydd amgen o ran safleoedd cyflogaeth presennol a restrir dan bolisi E4 oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisi DM16. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy at ddefnydd amgen o ran safleoedd cyflogaeth presennol a restrir dan bolisi E4 nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi DM16 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd monitro hwn yw profi gweithrediad polisïau E4 a DM16 y CDLl er mwyn sicrhau bod y safleoedd cyflogaeth a ddiogelir yn y CDLl yn parhau i ddiogelu swyddogaeth yr ardaloedd cyflogaeth cyfredol ledled ardal y Cynllun.

Dim ond caniatáu defnydd arall ar safleoedd cyflogaeth a ddiogelir pan fo cynigion yn gallu dangos nad oes angen y safle cyflogaeth mwyach, na fyddai'r cynnig yn arwain at dan ddarpariaeth o dir neu fangreoedd cyflogaeth ac nad yw'r cynnig datblygu yn niweidio safleoedd na'r mangreoedd cyflogaeth cyfagos y mae Polisi DM16 y CDLl.

Yn ystod y cyfnod monitro, nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau di-gyflogaeth a ganiatawyd ar safle diogelu cyflogaeth.

Felly, ni chaniatawyd unrhyw geisiadau ar gyfer defnydd amgen o safle diogelu cyflogaeth nad oedd yn cydymffurfio â pholisïau cyflogaeth y CDLl.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitron –** Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB36: Nifer y datblygiadau a ganiateir yng nghanol Trefi fyddai'n arwain at lai na:

- **75% unedau mewn Prif Ffryntiad Siopa;**
- **66% unedau mewn Ffryntiad Siopa Eilaidd;**

**at ddefnydd A1 ac A3.**

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Economi Lewyrchus** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir yng nghanol Trefi fyddai'n arwain at lai na:**<br>• **75% unedau mewn Prif Ffryntiad Siopa;**<br>• **66% unedau mewn Ffryntiad Siopa Eilaidd;**<br>**at ddefnydd A1 ac A3.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc R3 — Datblygiad mewn Ardaloedd Canol Tref |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir datblygiad sy'n arwain at lai na chanran yr unedau a bennir gan bolisi R3 o safbwynt y Ffryntiadau Siopa perthnasol at ddefnydd A1 ac A3, oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisi R3. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy sy'n arwain at lai na chanran yr unedau a bennir gan bolisi R3 mewn cysylltiad â'r Ffryntiadau Siopa perthnasol at ddefnydd A1 neu A3 nad yw'n cydymffurfio â pholisi R3, mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Fel y nodir yn AMB 2021, nid yw'r dangosydd monitro hwn yn cael ei fonitro'n weithredol mwyach oherwydd problemau gyda'r data gwaelodlin, sy'n golygu bod y targedau % yn aneffeithiol. Penderfynwyd y bydd angen diweddaru'r gyfres o bolisïau ym maes manwerthu ar gyfer y CDLl Newydd.

Mae Tabl 25 yn dangos y cydsyniadau a roddwyd yn ystod y cyfnod monitro sy'n berthnasol i'r unedau mewn Prif Ffryntiau neu Ffryntiau Eilaidd a newidiwyd (noder mai dim ond ar gyfer y Trallwng a'r Drenewydd y diffinnir ffryntiau Eilaidd). Mae'r penderfyniadau yn cydymffurfio â pholisïau, gan ystyried Polisi R3 y CDLl.

**Tabl 25. Ceisiadau i Newid Defnydd a Ganiatawyd mewn Prif Barth Manwerthu neu Barth Manwerthu Eilaidd yn ystod y Cyfnod Monitro.**

| Tref | Ffryntiad | Caniatâd | Manylion |
|---|---|---|---|
| **Llanfair-ym-Muallt** | Sylfaenol | 22/1941/FUL | Adeiladau'r Goron, 11 Broad Street<br>Addasu swyddfeydd llawr cyntaf ac ail lawr i ddarparu dwy uned breswyl. |
| **Trefyclo** | Sylfaenol | 22/0527/FUL | 25 - 27 Stryd Fawr<br>Isrannu 26 a 27 Stryd Fawr yn ddwy uned fanwerthu ar wahân |
| **Trefyclo** | Sylfaenol | 22/0965/FUL | Fflat yn 25-27 Stryd Fawr<br>Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr o ddefnydd storio i ddefnydd preswyl |
| **Y Trallwng** | Sylfaenol | 22/0241/FUL | The Pinewood Tavern, Broad Street<br>Adnewyddu llawr gwaelod Pinewood Tavern ac addasu ystafelloedd gwesty segur a llety rheolwyr yn chwe uned llety gwyliau hunangynhwysol uwchben.<br>Ail-lunio mynedfa bar wreiddiol ar gornel Broad Street a Hall Street, amnewid ac adnewyddu'r fynedfa i'r llety llawr uchaf ac estyniad 'blaen siop' newydd i flaen Rhif 2 Broad Street |
| **Y Trallwng** | Sylfaenol | 22/0553/FUL | 23 Broad Street<br>Newid defnydd llawr cyntaf ac ail lawr o fanc i bedwar fflat, a chadw uned llawr gwaelod A2 presennol. Cael gwared ar waliau a ffitiadau mewnol |
| **Ystradgynlais** | Sylfaenol | 22/0865/FUL | Banc Barclays, 2 Brecon Road<br>Newid defnydd hen fanc yn fwyty a siop, ynghyd â newidiadau |
| **Y Drenewydd** | Eilaidd | 22/1157/FUL | Gweithdai De-ddwyrain O 26-27 Shortbridge Street<br>Dymchwel gweithdy / adeilad storio presennol a chodi strwythur newydd yn cynnwys hyd at bum uned (rhannol ôl-weithredol)<br>Defnydd: Diwydiannol / Storio / Dosbarthu |
| **Y Drenewydd** | Eilaidd | 22/0870/FUL | 31 Stryd y Farchnad, Yn Ymestyn Dros 30 Stryd y Farchnad a'r Adeilad y tu ôl i Rif 31 |

| Tref | Ffryntiad | Caniatâd | Manylion |
|---|---|---|---|
| | | | Newid defnydd ac addasu swyddfeydd i greu 5 uned breswyl, i gynnwys gosod grisiau allanol a rhodfa, dymchwel estyniad croes, newidiadau mewnol ac allanol a'r holl waith cysylltiedig (swyddfeydd i'w cadw ar y llawr gwaelod) |

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**Adolygiad Polisi yn Ofynnol**

Wrth asesu natur y caniatâd cynllunio yn y cyfnod monitro, cedwir at egwyddorion Polisi R3 y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu, i gadw canol trefi hanfodol, hyfyw a deniadol. Serch hynny, ni ellir defnyddio'r manylion y tu ôl i'r dangosydd monitro hwn a'r asesiad yn erbyn y Pwynt Sbarduno yn effeithiol a dylid eu hadolygu. Bydd hyn yn digwydd fel rhan o'r CDLl Newydd.

## Amcan 7 — Sectorau Economaidd Allweddol

**Cynnal ac atgyfnerthu sectorau economaidd allweddol ym Mhowys gan gynnwys gweithgynhyrchu yn Nyffryn Hafren ac Ystradgynlais, cyfleoedd twristiaeth cynaliadwy gydol y flwyddyn, amaethyddiaeth a'r economi gwledig.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 7 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB37 | Nifer y cyfleusterau twristiaeth newydd, atyniadau neu estyniad i ddatblygiadau presennol a ganiateir. | | Parhau i Fonitro |
| AMB38 | Nifer y datblygiadau a ganiateir at ddefnydd amgen o safbwynt cyfleusterau twristiaeth presennol mewn ardaloedd gwledig | | Parhau i Fonitro |

### AMB37: Nifer y cyfleusterau twristiaeth, atyniadau neu estyniadau newydd i ddatblygiadau sydd eisoes yn bodoli a ganiateir.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Sectorau Economaidd Allweddol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y cyfleusterau twristiaeth newydd, atyniadau neu estyniad i ddatblygiadau presennol a ganiateir.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc TD1 — Datblygiadau Twristiaeth |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau ar gyfer cyfleusterau twristiaeth newydd, atyniadau, neu estyniadau i ddatblygiadau presennol oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisi TD1. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy ar gyfer llety twristiaeth newydd, cyfleusterau neu atyniadau, neu estyniadau i ddatblygiadau presennol nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi TD1 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Diben y dangosydd hwn yw sicrhau bod y broses datblygu twristiaeth yn unol â Pholisi TD1 y CDLl ac na chaniateir datblygiad amhriodol, annerbyniol mewn aneddiadau nac mewn cefn gwlad agored. Oherwydd ei chyfraniad i'r economi, mae cefnogi twristiaeth yn un o egwyddorion allweddol y CDLl; ond mae'r ACLl yn ceisio sicrhau bod datblygiadau'n gynaliadwy ac nad ydynt yn cael effaith andwyol annerbyniol ar gymeriad nac ymddangosiad ardal, yr amgylchedd naturiol a hanesyddol nac amwynderau, asedau neu ddynodiadau presennol.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 95 o geisiadau datblygu twristiaeth, ac roedd pob un ohonynt yn unol â Pholisi TD1 y CDLl, sy'n dangos bod y polisi'n cael ei weithredu'n briodol.


O edrych ar ddosbarthiad y datblygiadau twristiaeth ar draws yr hierarchaeth aneddiadau, roedd 93% o'r ceisiadau a ganiatawyd mewn Cefn Gwlad Agored ac fel y gwelir yn nangosydd monitro AMB20, roedd 74 o gyfanswm y ceisiadau (78%) ar safleoedd maes glas mewn Cefn Gwlad Agored.

Canfu dadansoddiad o'r 95 o geisiadau cynllunio a ganiatawyd fod cyfanswm o 241 o unedau unigol o lety twristiaeth wedi'u caniatáu. Mae Ffigur 7 isod yn rhannu'r 241 o unedau yn fathau; mae nifer a mathau o lety yn debyg iawn i'r hyn a ganiatawyd yn y cyfnod monitro blaenorol (gweler AMB 2022).

Nid arweiniodd deg o'r 95 o geisiadau cynllunio ar gyfer defnydd twristiaeth at unedau llety. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion ar gyfer mân ddatblygiad sy'n gysylltiedig â gwersyllfa a chyfleuster presennol.

Ystyriwyd bod pob un o'r 95 o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu twristiaeth yn cydymffurfio â Pholisi DM4 y CDLl — Tirwedd. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth wrth baratoi'r CDLl Newydd ynghylch a yw Polisi Tirwedd DM4, wedi ei eirio'n ddigonol mewn cysylltiad â datblygu twristiaeth, gan gynnwys unrhyw effeithiau cronnus ac a oes angen diwygio geiriad Polisi TD1 y CDLl — Datblygu Twristiaeth.

### Ffigur 7. Siart sy'n Dangos Cyfanswm y Math a Nifer yr Unedau Llety a Ganiatawyd yn Ystod y Cyfnod Monitro.




**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

### AMB38: Nifer y datblygiadau a ganiateir at ddefnydd amgen o safbwynt cyfleusterau twristiaeth presennol mewn ardaloedd gwledig.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Sectorau Economaidd Allweddol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir at ddefnydd amgen o safbwynt cyfleusterau twristiaeth presennol mewn ardaloedd gwledig.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc TD2 — Defnyddio Datblygiad Twristiaeth mewn Ffyrdd Eraill |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau i newid defnydd datblygiadau twristiaeth presennol i ddefnydd amgen mewn ardaloedd gwledig oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisi TD2. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy ar gyfer defnydd amgen (tu allan i dwristiaeth) o safbwynt datblygiadau twristiaeth presennol mewn ardaloedd gwledig nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi TD2 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar ddatblygiadau sy'n newid defnydd cyfleuster twristiaeth sydd eisoes yn bodoli i ddefnydd arall. Mae llety, cyfleusterau ac atyniadau presennol i dwristiaid ym Mhowys yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economïau twristiaeth a busnes lleol ac mae'r CDLl yn ceisio osgoi colled sylweddol cyfleusterau o'r fath er mwyn diogelu economi Powys sy'n dibynnu'n drwm ar dwristiaeth.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, caniatawyd dau gais a oedd yn caniatáu newid defnydd o gyfleuster twristiaeth i ddefnydd arall. Lleolwyd y ddau gais yng Nghefn Gwlad Agored (ardaloedd gwledig). Roedd un o'r ceisiadau ar gyfer addasu rhan o adeilad ffrâm ddur, a leolir o fewn parc gwyliau, yn annedd preswyl marchnad agored. Dywed adroddiad y Swyddog, "Deellir bod yr adeilad lletyol yn dal i gael ei ddefnyddio at ddibenion masnachol mewn cysylltiad â'r cyfleusterau pysgota a hamdden ym Mharc Clychau'r Gog….". Penderfynwyd bod y cais yn dderbyniol yn erbyn y polisïau yn TAN23 mewn perthynas ag ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig; fodd bynnag, ni roddwyd ystyriaeth i gydymffurfio â Pholisi CDLl TD2. Yn yr achos hwn, mae'r diddordeb masnachol mewn cysylltiad â'r cyfleusterau pysgota a hamdden i'w gadw ar y llawr gwaelod, a bydd yr annedd yn cael ei lleoli ar y llawr cyntaf; mae hyn yn golygu nad oes cyfleuster twristiaeth wedi'i golli.

Roedd y cais arall yn ymwneud â newid defnydd gwesty (C1) i gynnwys defnydd cymysg; tŷ annedd (C3) a gwesty (C1). Yn yr achos hwn, cyflwynwyd tystiolaeth ddigonol gan gynnwys manylion marchnata ochr yn ochr â'r cais i ddangos bod cadw'r eiddo fel gwesty

yn unig yn anhyfyw. Cydnabyddir bod rhywfaint o lety twristiaid wedi'i golli, ond cadwyd y cyfleuster twristiaeth ei hun er bod hynny wedi gostwng o ddeg ystafell wely i bedair.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## Amcan 8 — Adfywio

**Cefnogi adfywio ac adnewyddu amgylchedd adeiledig Powys, ei threfi hanesyddol a'i safleoedd cyflogaeth a chefnogi gweithgareddau adfywio fel menter Ardaloedd Twf Lleol Powys.**

### Dangosydd Lleol Amcan 8 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB39 | Datblygiad cyflogaeth a ganiateir (hectarau) a gyflenwir mewn Ardaloedd Twf Lleol Powys. | | Mae'r Dangosydd Lleol hwn wedi ei ddiddymu o'r AMB oherwydd natur y fenter Ardal Twf Lleol a diffyg data cadarn. |

# Thema 3 — Cefnogi'r Seilwaith a Gwasanaethau

## Amcan 9 — Seilwaith a gwasanaethau

**Cefnogi darparu seilwaith a gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cymunedau Powys yn y dyfodol.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 9 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB40 | Nifer y datblygiadau mawr a ganiateir lle cafwyd sicrwydd ynghylch seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. | | Parhau i Fonitro |
| AMB41 | Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â Rhwymedigaethau Cynllunio. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid Oes Angen Gweithredu |

## AMB40: Nifer y datblygiadau mawr a ganiateir lle cafwyd sicrwydd ynghylch seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Seilwaith a gwasanaethau |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau mawr a ganiateir lle cafwyd sicrwydd ynghylch seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM1 — Ymrwymiadau Cynllunio |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Cael sicrwydd ynghylch seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr yng nghyswllt datblygiadau a ganiateir lle bo'n briodol. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi DM1 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Yn ôl Cofrestr Adran 106 yr ACLl, roedd un cais cynllunio wedi'i ganiatáu ar gyfer datblygiad mawr, a sicrhaodd seilwaith drwy gyfraniadau datblygwyr o fewn y cyfnod monitro.

Caniatâd cynllunio: 22/1137/FUL - Datblygu siop goffi gyda lôn "prynu drwy ffenest y car" a gwesty, dymchwel rhannol/cadw Limekiln Cottage yn rhannol, a gwaith priffyrdd cysylltiedig, maes parcio a gwesty. Tirlunio (ailgyflwyno 21/2136/FUL) ar dir yn Limekiln Cottage, Buttington Cross, Y Trallwng. Sicrhaodd Adran 106 gyfraniad ariannol o £20,000 ar gyfer gwelliannau i Lwybr Tynnu'r Gamlas mewn cysylltiad â Theithio Llesol gan fod y llwybr tynnu'n cysylltu'r safle â Chanol Tref y Trallwng.

Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod Polisi DM1 y CDLl yn parhau i gael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio amodau cynllunio fel y bo'n briodol i sicrhau rhagor o les cynllunio. Erbyn hyn, mae'r defnydd o amodau wedi dod yn gyffredin o ran sicrhau ar y safle Tai Fforddiadwy yn hytrach na thrwy Adran 106. Felly caiff darpariaeth Tai Fforddiadwy ei monitro ar wahân.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro -** Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB41: Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â Rhwymedigaethau Cynllunio.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Seilwaith a gwasanaethau |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â Rhwymedigaethau Cynllunio.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM1 — Ymrwymiadau Cynllunio |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM12 — Datblygiadau mewn Cadarnleoedd y Gymraeg<br>Polisi Rheoli Datblygu DM13 — Dyluniad ac Adnoddau<br>Polisi yn Seiliedig ar Bwnc H5 — Cyfraniadau Tai Fforddiadwy |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â Rhwymedigaethau Cynllunio o fewn 6 mis i fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff y CCA mewn cysylltiad â Rhwymedigaethau Cynllunio eu mabwysiadu o fewn 6 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | Mabwysiadwyd y CCA ym mis Hydref 2018 |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd CCA Rhwymedigaethau Cynllunio ym mis Hydref 2018 a oedd felly o fewn y targed amser o chwe mis o ddyddiad mabwysiadu y CDLl.

**Cam Gweithredu**

Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu eraill.

## Amcan 10 — Asedau Pwysig

**Cefnogi'r gwaith o weithredu a datblygu asedau o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a leolir ym Mhowys.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 10 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| AMB42 | Datblygiadau a ganiateir o fewn Ardal Hyfforddi Pontsenni at ddibenion gweithredol. | | Parhau i Fonitro |
| AMB43 | Caniatawyd nifer o ddatblygiadau a ganiateir a fyddai'n effeithio ar adnoddau neu asedau strategol, neu eu gweithrediad, fel y nodir ym Mholisi SP7. | | Parhau i Fonitro |

## AMB42: Caniatáu datblygiadau tu fewn i Faes Hyfforddi Pontsenni at ddiben gweithrediadol.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Asedau Pwysig** |
| **Dangosydd:** | **Caniatáu datblygiadau tu fewn i Faes Hyfforddi Pontsenni at ddiben gweithrediadol.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP7 — Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc MD1 — Cynigion Datblygu gan y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| **Targed:** | I Faes Hyfforddi Pontsenni barhau fel cyfleuster hyfforddi o arwyddocâd cenedlaethol, ac i'r Cynllun gefnogi rhedeg y maes hyfforddi'n gyffredinol. |
| **Trothwy:** | Os gwrthodir caniatâd cynllunio ar gyfer 1 cynnig datblygu neu fwy at ddiben gweithrediadol mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Canlyniad / camau gweithredu, flwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd monitro hwn yw nodi achosion pan fo'r CDLl yn methu â chefnogi effeithiolrwydd gweithredol ardal hyfforddiant milwrol Pontsenni.

Cynhwysir y maes hyfforddi ym Mholisi SP7 y CDLl oherwydd ei bwysigrwydd strategol yn ardal y Cynllun ac yn genedlaethol. Mae'r polisi'n nodi mai dim ond cynigion datblygu na fydd yn cael effaith annerbyniol ar yr ased/adnodd na'r dibenion y caiff ei ddiogelu ar eu cyfer y dylid eu caniatáu. Mae Polisi MD1 y CDLl hefyd yn diogelu'r maes hyfforddi rhag unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cyfaddawdu ei weithrediad ac yn cefnogi cynigion a fydd yn cynnal defnydd gweithredol y cyfleuster presennol.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau o fewn ardal hyfforddi milwrol Pontsenni.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

## AMB43: Nifer y datblygiadau a ganiateir fyddai'n effeithio ar adnoddau neu asedau strategol, neu eu gweithredu, fel y nodir ym mholisi SP7.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Asedau Pwysig** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir fyddai'n effeithio ar adnoddau neu asedau strategol, neu eu gweithredu, fel y nodir ym mholisi SP7.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP7 — Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir datblygiadau fyddai'n cael effaith niweidiol annerbyniol ar adnoddau ac asedau strategol a nodwyd, neu ar eu gweithredu. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy fyddai'n cael effaith niweidiol annerbyniol ar adnoddau ac asedau strategol a nodwyd, neu eu gweithredu, nad yw'n cydymffurfio â pholisi SP7, a lle bo'n berthnasol, os oes gwrthwynebiad yn parhau gan ymgynghoreion statudol (h.y. CNC, CADW) neu Swyddog Perthnasol y Cyngor mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Er mwyn nodi cydsyniadau a allai dramgwyddo'r targed neu'r trothwy, bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar achosion ble mae datblygiad wedi gwneud y canlynol:

- Cael caniatâd gan y Pwyllgor Cynllunio yn erbyn argymhelliad Swyddog i'w wrthod ar sail Polisi Strategol SP7 y CDLl, neu
- Cael caniatâd ar Apêl pan roedd y Cyngor wedi gwrthod caniatâd yn wreiddiol ar sail Polisi Strategol SP7 y CDLl.

Er mwyn nodi'r penderfyniadau cynllunio a allai ddod o dan y categori hwn, astudiwyd Cofnodion pob Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod monitro â'r bwriad o ymchwilio i achosion y penderfynwyd arnynt yn erbyn argymhelliad Swyddog. Ymchwiliwyd hefyd i benderfyniadau apêl a gefnogwyd (yn erbyn gwrthodiad gwreiddiol y Cyngor). Yna, gellir asesu achosion sy'n berthnasol i'r dangosydd monitro. Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Ni wnaeth y Pwyllgor Cynllunio unrhyw benderfyniadau i gymeradwyo cais cynllunio yn erbyn argymhelliad y Swyddog i'w wrthod. Mae hyn yn golygu nad yw'r sbardun wedi ei dramgwyddo.
- Cadarnhawyd un Apêl yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod caniatâd cynllunio a oedd wedi cynnwys seiliau Polisi Strategol SP7 y CDLl mabwysiedig. Roedd hyn yn ymwneud â datblygiad o fewn Ardal Gadwraeth Tref-y-clawdd lle'r oedd y

Cyngor yn ystyried bod y cynigion yn niweidiol i gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. (Gwrthodwyd 21/1374/HH ar 3 Tachwedd 2021).

Mae'r Cofnodion yn ddefnyddiol i ddangos bod Polisi SP7 y CDLl mabwysiedig yn cael ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau. Er enghraifft, ym mis Hydref 2022, gwrthododd y Pwyllgor Cynllunio ganiatâd ar gyfer uned magu moch (20/1122/FUL) yn unol ag argymhelliad y Swyddog oherwydd mater dyddodiad amonia a'r effaith ar SoDdGA lleol, gyda SP7 wedi'i ddyfynnu. Yn yr un modd, cafodd SP7 ei gynnwys fel rheswm dros wrthod ym mis Mawrth 2023 i gynnig ailddatblygu tir llwyd yn y Drenewydd (22/1033/FUL) lle’r oedd mater yr effaith andwyol ar leoliad Adeiladau Rhestredig a’r Ardal Gadwraeth yn bryder. Enghraifft arall yw'r achos Apêl ar gyfer 21/0438/FUL a gadarnhawyd yn rhannol yn unig (newid defnydd), a chytunwyd y canfuwyd bod ffenestri/drysau UPVC yn annerbyniol mewn Ardal Gadwraeth o dan bolisïau a oedd yn cynnwys Polisi SP7 y CDLl.

Mae canlyniadau’r dangosydd monitro hwn yn golygu yr ystyrir bod y Polisi’n cael ei ddefnyddio’n effeithiol ac yn ôl y bwriad i ddiogelu adnoddau ac asedau strategol.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau’r cynllun datblygu yn effeithiol.

# Thema 4 — Gwarchod Asedau Naturiol, Adeiledig a Hanesyddol

## Amcan 11 — Treftadaeth Naturiol

**Gwarchod a diogelu adnoddau tir, awyr a dŵr Powys sy'n bwysig o safbwynt ansawdd amgylcheddol, geoamrywiaeth a bioamrywiaeth a lle bo'n bosib, sicrhau fod unrhyw ddatblygiad yn eu gwella.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 11 - Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB44 | Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â bioamrywiaeth. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid Oes Angen Gweithredu |
| AMB45 | Nifer y datblygiadau a ganiateir ar neu sy'n effeithio ar ddynodiadau safle lleol pwysig fel y nodir ym mholisi DM2 (3). | | Parhau i Fonitro |

## AMB44: Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â bioamrywiaeth.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Treftadaeth Naturiol** |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â bioamrywiaeth.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP7 — Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc DM2 — Yr Amgylchedd Naturiol |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadau CCA mewn cysylltiad â bioamrywiaeth o fewn 6 mis i fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff CCA mewn cysylltiad â bioamrywiaeth eu mabwysiadu o fewn 6 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | Mabwysiadwyd y CCA ym mis Hydref 2018 |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021-2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd CCA Bioamrywiaeth ym mis Hydref 2018 a oedd felly o fewn y targed amser o chwe mis o ddyddiad mabwysiadu y CDLl.

**Cam Gweithredu**

Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu eraill.

## AMB45: Nifer y datblygiadau a ganiateir ar neu sy’n effeithio ar ddynodiadau safle lleol pwysig fel y nodir ym mholisi DM2 (3).

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Treftadaeth Naturiol |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir ar neu sy’n effeithio ar ddynodiadau safle lleol pwysig fel y nodir ym mholisi DM2 (3).** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc DM2 — Yr Amgylchedd Naturiol |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau ar neu sy’n effeithio ar ddynodiadau safle lleol pwysig oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisi DM2 (3). |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy ar neu sy’n effeithio ar ddynodiadau safle lleol pwysig nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi DM2 ac os oes gwrthwynebiad yn parhau gan Ecolegydd y Sir neu Ymddiriedolaeth Natur Leol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Polisi DM2 y CDLl Mae’r Amgylchedd Naturiol yn darparu diogelwch ar gyfer amrywiaeth o safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau sydd wedi eu dynodi ar lefel ryngwladol, Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol. Nod y dangosydd monitro hwn yw profi gallu’r polisi i ddiogelu’r dynodiadau safle sy’n bwysig yn lleol a restrir o dan adran 3 o’r polisi, sef Gwarchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol a Safleoedd Adolygu Cadwraeth Ddaearegol.

Mae adran 3 o’r polisi hefyd yn cynnwys Cynefinoedd a Rhywogaethau y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth lleol, ond ni chynhwysir y rhain o dan y dangosydd monitro hwn oherwydd nad ydynt yn cael eu dosbarthu fel dynodiad safle. Fodd bynnag, mae’r rhain yn destun dangosydd rhif 2 yr AAS yn fframwaith monitro yr AAS.

Yn y cyfnod monitro hwn mae cyfanswm o ddeg cais wedi'u caniatáu, a oedd yn agos at Warchodfa Natur Leol, SGBRh neu GCRS. Datgelodd dadansoddiad o’r deg cais y canlynol:

- Roedd dau gais wedi'u lleoli yn agos (o fewn 10 metr) i ffin GNL; fodd bynnag, oherwydd natur y datblygiad, ni ystyriwyd bod angen ymgynghori ag Ecolegydd y Sir na'r Ymddiriedolaeth Natur Leol. Roedd y cais cyntaf ar gyfer adeiladu croen gwaith brics newydd i Adeilad Rhestredig, a'r ail oedd ar gyfer codi cyfleuster storio wedi'i sgrinio gan wal fyw a darparu ramp allanfa dân.
- Roedd pedwar cais wedi'u lleoli'n agos at SGBRh (o fewn 30m i 48m). Yn ogystal, caniatawyd un cais (22/0471/FUL) ar dir ger SGBRh  ar gyfer adeiladu is-orsaf

drydan ac adeilad rheoli newydd. Nodwyd SGBRh Carno mewn datganiad ategol a gadarnhaodd y bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at adleoli'r is-orsaf y tu allan i ffin SGBRh, ac na ragwelir y bydd yn effeithio ar y safle. Caniatawyd cais pellach o fewn safle SGBRh ar gyfer newid defnydd adeilad presennol o ddefnydd preswyl i swyddfa a storfa.

- Cymeradwywyd dau gais o fewn 44m i 97m i ffin GCRS.

I grynhoi, mae'r gwelliannau a nodwyd yn y cyfnod monitro blaenorol wedi'u cynnal lle mae dynodiadau'r safleoedd wedi'u nodi'n glir ar bob cais a'u hystyried ochr yn ochr â'r cais. Ni chaniatawyd unrhyw gais lle mae gwrthwynebiad naill ai gan Ecolegydd y Sir, neu Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt nad aed i'r afael ag ef.

Noder bod y dangosydd hwn yn debyg i Ddangosydd 34 yr AAS.

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## Amcan 12 — Adnoddau

**Hwyluso rheoli adnoddau naturiol ac amgylcheddol Powys mewn ffordd gynaliadwy tra ar yr un pryd galluogi datblygu, gan gynnwys darparu banc dir sy'n cyfateb i o leiaf 25 mlynedd o agregau craig mâl.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 12 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB46 | Amrediad yr agregau crai a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau a fynegir fel canran o'r cyfanswm capasiti sydd ei hangen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (gofynion MTAN). | | Parhau i Fonitro |
| AMB47 | Nifer y datblygiadau a ganiateir tu fewn i glustogfeydd gweithio mwynau diffiniedig. | | Parhau i Fonitro |

## AMB46: Amrediad yr agregau crai a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau a fynegir fel canran o'r cyfanswm capasiti sydd ei hangen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (gofynion MTAN).

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Adnoddau |
| **Dangosydd:** | **Amrediad yr agregau crai a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau a fynegir fel canran o'r cyfanswm capasiti sydd ei hangen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (gofynion MTAN).** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc M1— Safleoedd Mwynau Presennol |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi yn Seiliedig ar Bwnc M2—Safleoedd Mwynau Newydd |
| **Targed:** | Canran yr agregau craig mâl o'i gymharu â tharged blynyddol y CDLl a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol. |
| **Trothwy:** | Llai na 25 mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir mewn unrhyw flwyddyn unigol |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd monitro hwn yw monitro perfformiad polisïau M1 — Safleoedd Mwynau Presennol, ac M2 — Safleoedd Mwynau Newydd y CDLl, o ran eu gallu i gynnal cyflenwad o agregau o'u cymharu â gofyniad y MTAN fel y mynegir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau (Adolygiad 1af, 2014 ac 2il Adolygiad 2020).

Mae Tabl 5.7 yr 2il Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau yn nodi nad oes unrhyw ddosraniad o dywod a graean a enillwyd o'r tir ym Mhowys ac mai cyfanswm y dosraniad o agregau creigiau wedi eu malu dros gyfnod o 25 mlynedd yw 87.98 miliwn tunnell (2il Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau). Pan fynegir hyn fel dosraniad blynyddol, mae'n cyfateb â 3.519 miliwn tunnell fesul blwyddyn.

Yn ystod y cyfnod monitro, doedd dim ceisiadau a oedd yn ymwneud â safleoedd mwynau presennol. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau i weithio safleoedd newydd ar gyfer agregau crai a enillir. Ni chyhoeddwyd data cyfraddau cloddio blynyddol ar gyfer y cyfnod monitro ac o'r herwydd nid yw cyfrifiad canrannol yn bosibl. Fodd bynnag, o ystyried y banc tir presennol a nodwyd yn 2il Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd monitro hwn.

| |
|---|
| **Cam Gweithredu**<br>**Parhau i Fonitro**<br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| |

### AMB47: Nifer y datblygiadau a ganiateir tu fewn i glustogfeydd gweithio mwynau diffiniedig.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Adnoddau |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir tu fewn i glustogfeydd gweithio mwynau diffiniedig.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM9 — Gwaith Mwynau Presennol |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad tu fewn i'r clustogfeydd gweithio mwynau diffiniedig, oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r meini prawf a amlinellir ym mholisi DM9. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy tu fewn i'r clustogfeydd gweithio mwynau diffiniedig nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi DM9 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd monitro hwn yw monitro effeithiolrwydd Polisi DM9 y CDLl — Gweithfeydd Mwynau Presennol, a'i allu i ddiogelu clustogfeydd gwaith mwynau presennol sy'n cyfyngu ar weithrediadau'r safle mwynau rhag datblygu.

Mae'r polisi'n cynnwys y meini prawf ar gyfer caniatáu datblygiadau a'r rhain yw:

- Ni fyddai'r cynnig yn cyfyngu ar weithrediadau'r safle mwynau;
- Ni fyddai'r gwaith cloddio mwynau ar y safle yn effeithio'n annerbyniol ar y cynnig; a
- Gall y cynnig ddangos y mesurau lliniaru priodol.

Caniatawyd chwe chais cynllunio a oedd wedi'u lleoli o fewn parthau clustogi gwaith mwynau. Fodd bynnag, roedd pedwar o'r ceisiadau o fewn Ardal Waith a Ganiateir Nant Helen. Bydd safle mwynau Nant Helen yn cau erbyn Mehefin 2023, gyda chaniatâd eisoes wedi'i roi ar gyfer ei ôl-ddefnydd a'i adfer. Felly, ystyrir bod y pedwar cais yn unol â Pholisi DM9 y CDLl ac na fyddant yn cyfyngu ar weithrediadau safle mwynau.

Mae'r ddau gais arall yn cynnwys un ar gyfer adeilad amaethyddol a'r llall ar gyfer gosod tair rhes o baneli solar ar y ddaear. Nid yw'r naill gais na'r llall yn cael ei ystyried yn ddatblygiad sensitif a fyddai'n cael ei effeithio'n annerbyniol gan weithrediadau echdynnu mwynau, neu a fyddai'n cyfyngu ar weithrediadau safle mwynau.

Doed i'r casgliad bod yr holl geisiadau a ganiatawyd wedi eu rhoi yn unol â Pholisi DM9 y CDLl.

| |
|---|
| **<u>Cam Gweithredu</u>**<br>**Parhau i Fonitro**<br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| |

## Amcan 13 — Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol

### i. Tirwedd

**Diogelu, gwarchod a/neu wella tirweddau unigryw Powys ac ardaloedd cyfagos, gan gynnwys tirweddau gwarchodedig.**

### ii. Yr Amgylchedd Hanesyddol

**Diogelu, gwarchod a/neu wella'r amgylchedd hanesyddol unigryw, treftadaeth ac asedau diwylliannol Powys, yn enwedig asedau lleol nad ydynt yn destun dulliau gwarchod statudol nac yn ddynodedig dan ddeddfwriaeth genedlaethol, a sicrhau fod unrhyw ddatblygiad yn parchu gwahanolrwydd lleol.**

**Dangosyddion Lleol Amcan 13 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.**

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB48 | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Archeoleg. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid Oes Angen Gweithredu |
| AMB49 | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â thirweddau. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid Oes Angen Gweithredu |
| AMB50 | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â Dyluniad Anheddau. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid Oes Angen Gweithredu |
| AMB51 | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â'r Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid Oes Angen Gweithredu |
| AMB52 | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Ardaloedd Cadwraeth. | Mabwysiadwyd y CCA | Nid Oes Angen Gweithredu |
| AMB53 | Nifer y datblygiadau ynni gwynt a datblygiadau mawr a ganiateir a gyflwynir gydag Asesiad o Effaith Weledol ac Effaith ar y Dirwedd. | | Parhau i Fonitro |
| AMB54 | Nifer y datblygiadau a ganiateir tu fewn i neu sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth. | | Parhau i Fonitro |

## AMB48: Paratoi a mabwysiadu CCA sy'n ymwneud ag Archaeoleg.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol** |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Archeoleg.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP7 — Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Archeoleg tu fewn i 24 mis o fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff CCA mewn cysylltiad ag Archeoleg eu mabwysiadu o fewn 24 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | Mabwysiadwyd y CCA ym mis Orffennaf 2021. |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd y CCA Archeoleg ym mis Gorffennaf 2021. Gohiriwyd y broses gymeradwyo oherwydd pandemig COVID-19 wrth i'r Cyngor fynd i'r modd Busnes Critigol. Ailddechreuwyd y gwaith CCA yn 2021 pryd y gwnaed diweddariadau ffeithiol i'r CCA drafft, gan eu cyflwyno i Weithgor y CDLl ym mis Ebrill 2021, cyn eu cyflwyno i gael eu mabwysiadu gan y Cabinet.

**Cam Gweithredu**

Nid Oes Angen Gweithredu.

### AMB49: Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â thirweddau.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol** |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â thirweddau.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM4 — Tirwedd |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi Strategol SP7 — Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â Thirweddau tu fewn i 12 mis o fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff CCA mewn cysylltiad â Thirweddau eu mabwysiadu o fewn 12 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

**Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:**

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | Mabwysiadwyd y CCA Ebrill 2019 |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mabwysiadwyd CCA Tirwedd ym mis Ebrill 2019 a oedd felly o fewn y targed amser o 12 mis o ddyddiad mabwysiadu y CDLl.

**<u>Cam Gweithredu</u>**

Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu eraill.

### AMB50: Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â Dyluniad Anheddau.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol** |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â Dyluniad Anheddau.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM13 — Dyluniad ac Adnoddau |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â Dyluniad Anheddau o fewn 18 mis i fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff CCA mewn cysylltiad â Dyluniad Anheddau eu mabwysiadu o fewn 18 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | Mabwysiadwyd y CCA ym mis Ionawr 2020. |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021-2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd CCA Arweiniad Dylunio Preswyl ym mis Ionawr 2020 a oedd felly o fewn y targed amser o 18 mis o ddyddiad mabwysiadu y CDLl.

**Cam Gweithredu**

Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu eraill.

## AMB51: Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â'r Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol** |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â'r Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP7 — Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â'r Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol o fewn 24 mis i fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff CCA mewn cysylltiad â'r Amgylchedd Hanesyddol gan gynnwys y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol eu mabwysiadu o fewn 24 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | Mabwysiadwyd y CCA ym mis Gorffennaf 2021. |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd CCA yr Amgylchedd Hanesyddol ym mis Gorffennaf 2021. Gohiriwyd y broses gymeradwyo oherwydd pandemig COVID-19 wrth i'r Cyngor fynd i'r modd Busnes Critigol. Ailddechreuwyd y gwaith CCA yn 2021 pryd y gwnaed diweddariadau ffeithiol i'r CCA drafft, gan eu cyflwyno i Weithgor y CDLl ym mis Ebrill 2021, cyn eu cyflwyno i gael eu mabwysiadu gan y Cabinet.

**Cam Gweithredu**

Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu eraill.

## AMB52: Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Ardaloedd Cadwraeth.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol** |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Ardaloedd Cadwraeth.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Strategol SP7 — Diogelu Adnoddau ac Asedau Strategol |
| **Polisïau Perthnasol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM13 — Dyluniad ac Adnoddau |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad ag Ardaloedd Cadwraeth o fewn 18 mis i fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff CCA mewn cysylltiad ag Ardaloedd Cadwraeth eu mabwysiadu o fewn 18 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | Mabwysiadwyd y CCA ym mis Ionawr 2020. |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021-2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd CCA Ardaloedd Cadwraeth ym mis Ionawr 2020 a oedd felly o fewn y targed amser o 18 mis o ddyddiad mabwysiadu y CDLl.

**Cam Gweithredu**

Nid oes angen unrhyw gamau gweithredu eraill.

## AMB53: Nifer y datblygiadau ynni gwynt a datblygiadau mawr a ganiateir a gyflwynir gydag Asesiad o Effaith Weledol ac Effaith ar y Dirwedd.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau ynni gwynt a datblygiadau mawr a ganiateir a gyflwynir gydag Asesiad o Effaith Weledol ac Effaith ar y Dirwedd.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM4 — Tirwedd |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiadau fyddai'n gallu cael effaith sylweddol ar y dirwedd neu effaith weledol, oni bai y'u cyflwynir gydag Asesiad o Effaith Weledol ac Effaith ar y Dirwedd. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy fyddai'n gallu cael effaith sylweddol ar y dirwedd neu effaith weledol a ganiateir heb Asesiad o Effaith Weledol ac Effaith ar y Dirwedd i gyd-fynd â'r cais. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd monitro hwn yw profi gweithrediad Polisi DM4 y CDLl — Tirwedd sy'n ceisio atal datblygiad rhag cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion a rhinweddau gwerthfawr tirwedd Powys. Mae'r Polisi yn gofyn am gynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y dirwedd a/neu amwynder gweledol er mwyn cynnal Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol. Ymhelaethir ar hyn ym mharagraff 4.2.33 o'r CDLl: "Bydd yn rhaid i gynigion a allai gael effaith sylweddol ar y dirwedd a/neu ar amwynder gweledol gael Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol yn unol â'r canllawiau perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys yr holl gynigion ynni gwynt (heb gynnwys mastiau anemometreg) a'r rhan fwyaf o ddatblygiadau mawr…"

Yn ystod y cyfnod monitro, caniatawyd 14 o geisiadau a oedd yn bodloni'r disgrifiad o fod yn "gynnig ynni gwynt" neu'n "ddatblygiad mawr", mewn Cefn Gwlad Agored.

Crynhoir yr wybodaeth a gyflwynwyd, sy'n dangos sut yr ystyriwyd y dirwedd ar gyfer y 14 cais, yn Nhabl 26 isod.

Ers mabwysiadu'r Cynllun, ceisiwyd adolygiad barnwrol i herio penderfyniad yr ACLl i ganiatáu cais cynllunio mawr mewn Cefn Gwlad Agored, heb i Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol gael ei gyflwyno gyda'r cais (a restrir ymhlith sawl rheswm).

Noda'r barnwr y canlynol yn y llythyr sy'n manylu ar ganlyniad yr adolygiad barnwrol:

"Nid oedd polisi DM4 na'r canllawiau (gan gyfeirio at y CCA) y cyfeirir atynt yn gwneud Asesiad Effaith Weledol ffurfiol yn orfodol. Mater i'r swyddogion a/neu aelodau'r pwyllgor oedd penderfynu a ddylai hyn fod yn ofynnol yn yr achos penodol, ac o ystyried eu

hasesiad nhw a wnaed â chymorth ymweliad â'r safle, na fyddai unrhyw effaith weledol sylweddol, ni ellir dadlau bod y penderfyniad i beidio â gofyn am asesiad o'r fath yn afresymol neu'n anghyfreithlon ar sail arall".

Mae safbwynt y barnwr yn cefnogi'r dull a ddefnyddir gan yr ACLI, pan fo'r Swyddogion Cynllunio yn gwneud dyfarniadau penodol o'r hyn sy'n gyfystyr ag **'effaith sylweddol'** yn seiliedig ar p'un a yw datblygiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac effaith weledol (tirwedd sensitif iawn neu oherwydd natur a graddfa'r datblygiad), ac o'r herwydd mae'r angen am Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol yn amrywio.

Mabwysiadwyd CCA Tirwedd ym mis Ebrill 2019. Mae'r CCA yn rhoi manylion am sut y dylid ystyried y dirwedd wrth ystyried dyluniad a lleoliad datblygiad arfaethedig. O'r 14 cais a ganiatawyd, roedd 12 o'r ceisiadau, fel y'u rhestrir yn Nhabl 26, yn cydymffurfio i ryw raddau â'r canllawiau.

Ar gyfer y ddau gais arall, ni chyflwynwyd unrhyw fanylion ynglŷn â sut yr ystyriwyd tirwedd fel rhan o'r cynnig. Roedd un ar gyfer gosod generadur ynni adnewyddadwy a oedd yn cynnwys tyrbin gwynt 15-metr ac arae solar, ar safle tŵr telathrebu, ochr yn ochr â thyrbin presennol. Roedd adroddiad y Swyddog ar gyfer y cais hwn yn dweud y byddai'r tyrbin gwynt arfaethedig yn is o ran uchder na'r tŵr presennol ac wedi'i gefnu i'r gogledd gan dir coedwig. Yn dilyn ystyriaeth fanwl o'r cynnig yn erbyn LANDMAP, daeth y Swyddog Cynllunio i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion a rhinweddau gwerthfawr tirwedd Powys.

Roedd yr ail gais, lle nad oedd y cyflwyniad cynllunio yn cynnwys unrhyw fanylion am sut yr ystyriwyd tirwedd fel rhan o'r cynnig, yn ymwneud ag adeiladu storfa slyri newydd. Yn yr achos hwn, mae'r safle wedi ei leoli o fewn Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig, felly roedd asesiad effaith wedi ei wneud i asesu effaith weledol y bwriad yng nghyd-destun y Parc a'r Ardd Hanesyddol Gofrestredig. Yn dilyn yr asesiad, a sylwadau gan Cadw, cynigiwyd tirlunio pellach i sicrhau na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion a rhinweddau gwerthfawr tirwedd Powys na'r Parc a'r Ardd Hanesyddol Gofrestredig.

O'r dadansoddiad, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr un o'r ceisiadau a ganiatawyd yn ystod y cyfnod wedi cael effaith weledol sylweddol ar y dirwedd oni bai eu bod yn cael eu hategu gan Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol.

**Tabl 26. Dogfennaeth a Gyflwynwyd sy'n Manylu ar Ystyriaeth Tirwedd ar gyfer Ceisiadau Mawr mewn Cefn Gwlad Agored yn ystod y Cyfnod Monitro.**

| Nifer y ceisiadau | Dogfen Ystyried Tirwedd a Gynhwyswyd wrth Gyflwyno Cais Cynllunio |
|---|---|
| 2 | Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol a Gyflwynwyd yn rhan o Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| 1 | Cyflwynwyd Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol |
| 1 | Cyflwynwyd Asesiad Tirwedd |
| 7 | Dull cyfiawn o ymdrin â thirwedd yn y Datganiad Dylunio a Mynediad. |
| 1 | Dull cyfiawn o ymdrin â thirwedd mewn Datganiad Cynllunio |
| 2 | Dim Ystyriaeth Tirwedd |

| |
|---|
| **Cam Gweithredu**<br>**Parhau i Fonitro**<br>Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol. |
| |

## AMB54: Nifer y datblygiadau a ganiateir tu fewn i neu sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir tu fewn i neu sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM13 — Dyluniad ac Adnoddau |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir datblygiad tu fewn i neu sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisi DM13 neu ganllawiau cenedlaethol. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy tu fewn i neu sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth nad yw'n cydymffurfio â pholisi DM13 neu ganllawiau cenedlaethol, a lle bo gwrthwynebiad yn parhau gan Swyddog Treftadaeth Adeiledig y Cyngor. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar ddatblygiadau a ganiatawyd a leolir naill ai mewn Ardal Gadwraeth neu mewn man sy'n effeithio ar un ohonynt.  Diben y dangosydd yw profi gweithrediad polisïau DM13 (3) ac SP7 (2 v.) y CDLl ac, yn benodol, casglu achosion pan ganiatawyd datblygiad pan fo gwrthwynebiad eithriadol gan Swyddog Cadwraeth Treftadaeth Adeiledig y Cyngor a phan nad yw'n cydymffurfio â'r polisïau hyn.

Mae 48 o ddatblygiadau o fewn gosodiad Ardal Gadwraeth neu sy'n effeithio ar Ardal Gadwraeth wedi'u cofnodi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mewn dros hanner yr achosion hyn, cadarnhaodd y BHCO naill ai bod cefnogaeth i'r cynigion, neu ddim gwrthwynebiad iddynt, gydag amodau neu yn dilyn gwybodaeth ychwanegol a diwygiadau a wnaed i'r cynigion. gydag amodau neu'n dilyn gwybodaeth ychwanegol a diwygiadau a wnaed i'r cynigion.

Roedd sawl achos hefyd lle nad oedd y BHCO wedi ymateb ar adeg ysgrifennu adroddiad y Swyddog, gyda llawer yn ymwneud â newid defnydd yn unig, a dim newidiadau allanol, na fyddai, felly, yn effeithio ar gymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Roedd eraill yn ymwneud â safleoedd y tu allan i Ardaloedd Cadwraeth, ond wrth eu hymyl, lle'r oedd effaith y datblygiad arfaethedig ar y lleoliad a'r golygfeydd i mewn ac allan o'r ardaloedd hyn wedi'u hystyried gan Swyddogion Rheoli Datblygu yn erbyn y polisïau cynllunio perthnasol. Roedd swyddogion hefyd wedi cyfeirio at y canllawiau yn y CCA Ardaloedd Cadwraeth er mwyn llywio eu penderfyniadau.

Nodir y gwrthodwyd cais ôl-weithredol yn ymwneud â newid defnydd siop i swyddfa fusnes a gosod ffenestr a drws UPVC yn swyddfa etholaeth Aelod Seneddol yn Ardal Gadwraeth Llandrindod. Nid oedd y Swyddog Cadwraeth Treftadaeth Adeiledig yn gwrthwynebu elfen newid defnydd y cais; fodd bynnag, penderfynwyd nad oedd gosod ffenestr a drws UPVC yn cadw na gwella cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Roedd yr ymgeisydd wedi ceisio cyfiawnhau'r angen i ddefnyddio UPVC ar sail diogelwch; fodd bynnag, ni ystyriwyd bod hyn yn drech na'r pryderon a godwyd ynghylch cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth. Gwrthodwyd apêl yn erbyn y penderfyniad mewn perthynas â'r elfen ffenestri UPVC, a chytunodd yr Arolygydd gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai defnyddio'r deunydd hwn yn erydu golwg yr Ardal Gadwraeth trwy leihau nifer y drysau a ffenestri ffrâm bren nodweddiadol a ddefnyddir.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau lle'r oedd gwrthwynebiad gan y BHCO nad aed i'r afael ag ef. Mae canlyniadau'r cyfnod monitro hwn yn dangos bod Swyddogion yn penderfynu ar geisiadau cynllunio yn erbyn y polisïau a'r canllawiau cynllunio perthnasol, ac yn unol â chyngor Swyddog Cadwraeth y Dreftadaeth Adeiledig. Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro i brofi gweithrediad polisïau a chanllawiau Ardal Gadwraeth y Cyngor.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

# Thema 5 — Cefnogi Cymunedau Iach

## Amcan 14 — Ffyrdd Iach o Fyw

**Annog ffyrdd iach ac egnïol o fyw trwy alluogi mynediad at fannau agored, ardaloedd ar gyfer hamdden ac amwynderau gan gynnwys rhandiroedd neu fannau tyfu, a sicrhau fod datblygiadau'n cynnig cyfleoedd ar gyfer cerdded, seiclo, mannau agored a mannau chwarae lle bo'u hangen.**

**Dangosyddion Lleol Amcan 14 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.**

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB55 | Maint y ddarpariaeth (hectarau) a math y ddarpariaeth mannau agored cyhoeddus sy'n cael eu cadarnhau yng nghyswllt datblygiadau preswyl mawr a ganiateir. | | Parhau i Fonitro |
| AMB56 | Ardal y man agored cyhoeddus (hectarau) fyddai'n cael ei golli a'i sicrhau yn sgil rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu. | | Parhau i Fonitro |
| AMB57 | Llunio a mabwysiadu CCA mewn cysylltiad â Mannau Agored. | | Heb ei Asesu |

## AMB55: Maint y ddarpariaeth (hectarau) a math y ddarpariaeth mannau agored cyhoeddus sy'n cael eu cadarnhau yng nghyswllt datblygiadau preswyl mawr a ganiateir.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Ffyrdd Iach o Fyw |
| **Dangosydd:** | **Maint y ddarpariaeth (hectarau) a math y ddarpariaeth mannau agored cyhoeddus sy'n cael eu cadarnhau yng nghyswllt datblygiadau preswyl mawr a ganiateir.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM3 — Man Agored Cyhoeddus |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Bod datblygiadau preswyl mawr yn cyfrannu tuag at ymateb i'r diffygion o safbwynt mannau agored a nodir yn yr Asesiad Mannau Agored o safbwynt maint a math y mannau agored cyhoeddus a ddarperir. |
| **Trothwy:** | Os caiff 1 datblygiad preswyl mawr neu fwy ei ganiatáu lle ni wneir unrhyw ddarpariaeth bendant ar gyfer mannau agored cyhoeddus lle nodwyd diffygion yn yr Asesiad Mannau Agored mewn unrhyw flwyddyn unigol.<br><br>Os caniateir 1 datblygiad preswyl mawr neu fwy lle nid yw'r math o fan agored cyhoeddus yn cyfateb i'r math a nodwyd yn yr Asesiad Mannau Agored mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar swm (hectarau) a'r math o ddarpariaeth man agored cyhoeddus a sicrheir mewn cysylltiad â'r holl ddatblygiadau preswyl mawr a ganiateir. Diben y dangosydd yw profi gweithrediad Polisi DM3 y CDLl, pan ddylai natur darpariaeth mannau agored a sicrheir gael ei harwain gan ddiffygion yn yr Asesiad Mannau Agored (2018) cyhoeddedig.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer saith datblygiad preswyl mawr yn ystod y cyfnod monitro. Sicrhawyd cyfraniad mannau agored, o ran darpariaeth ar y safle, ar gyfer pedwar o'r saith caniatâd a roddwyd. Roedd tri yn cynnwys offer chwarae sefydlog, gyda'r pedwerydd yn darparu ar gyfer gwella hamdden gyda mainc, oherwydd nad oedd unrhyw ddiffygion o ran mannau agored o fewn pellter cerdded i safle'r cais.

Ar gyfer y tri o'r saith cais arall y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn y cyfnod monitro, roedd un yn darparu ar gyfer maes parcio newydd (i alluogi mynediad i faes chwarae a chyfleusterau cymunedol presennol) yn lle man agored. Roedd un arall yn ymwneud ag ail-ddefnyddio adeilad (tir a ddatblygwyd o'r blaen) mewn ardal gadwraeth, ac o ganlyniad

i'r costau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, nid oedd yn ymarferol darparu ar gyfer man agored hefyd. Roedd y cais a oedd yn weddill ar gyfer amrywio amod cynllunio ar ganiatâd cynllunio oedd yn bodoli. Yn yr achos hwn, ni ystyriwyd ei bod yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu rhwymedigaethau cynllunio pellach, na'r hyn a gymeradwywyd yn flaenorol, o ystyried bod y newidiadau'n ymwneud â gwelliannau i ddyluniad y cynllun gwreiddiol.

Mewn pedwar o'r ceisiadau, ystyriwyd bod maint a natur y ddarpariaeth/cyfraniad o fannau agored yn briodol, ei fod yn cyfateb i'r mathau sy'n ofynnol gan yr Asesiad Mannau Agored ac yn cydymffurfio â Pholisi DM3 y CDLl mabwysiedig. Ar gyfer y tri chais arall, ystyrir bod y cyfiawnhad a roddir dros beidio â darparu man agored yn dderbyniol.

**<u>Cam Gweithredu</u>**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB56: Ardal y man agored cyhoeddus (hectarau) fyddai'n cael ei golli a'i sicrhau yn sgil rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Ffyrdd Iach o Fyw |
| **Dangosydd:** | **Ardal y man agored cyhoeddus (hectarau) fyddai'n cael ei golli a'i sicrhau yn sgil rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM3 — Man Agored Cyhoeddus |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Budd net o ran man agored cyhoeddus yn sgil rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu.<br><br>Dim colled net o ran man agored cyhoeddus a nodwyd neu a ddiffiniwyd yn yr Asesiad Mannau Agored yn sgil rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu. |
| **Trothwy:** | Dim budd net o ran man agored cyhoeddus yn sgil rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu mewn unrhyw flwyddyn unigol.<br><br>Colled net o ran man agored cyhoeddus a nodwyd neu a ddiffiniwyd yn yr Asesiad Mannau Agored yn sgil rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygu mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**Dadansoddiad**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn edrych ar faint (hectarau) o fannau agored a gollwyd ac a enillwyd o ganlyniad i geisiadau cynllunio a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro. Diben y dangosydd yw profi gweithrediad Polisi DM3 y CDLl pan fo ardaloedd a nodir fel mannau agored yn yr Asesiad Mannau Agored yn cael eu diogelu a phan fo datblygiadau tai deg arall yn cyfrannu at y ddarpariaeth mannau agored.

Y cynnydd net mewn mannau agored cyhoeddus

Ni fu'n bosibl cofnodi'n gywir gyfanswm y mannau agored a ganiatawyd oherwydd bod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth mannau agored a sicrhawyd yn cael ei wneud drwy amod cynllunio neu Adran 106. Mae'r amod yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion (lleoliad, maint, cynnal a chadw a...) y ddarpariaeth gael eu cyflwyno yn ddiweddarach. Darperir manylion yn y dangosydd monitro AMB55 o'r pedwar cais lle sicrhawyd darpariaeth mannau agored.

Yn ogystal â'r cynnydd net mewn mannau agored cyhoeddus a sicrhawyd trwy ddatblygiadau tai, cymeradwywyd wyth cais cynllunio yn ymwneud â mannau agored

cyhoeddus yn ystod y cyfnod monitro. Roedd pob un o’r wyth cais yn ymwneud ag ychwanegu nodweddion i wella'r ddarpariaeth bresennol.

Y golled net mewn mannau agored cyhoeddus

Mae nifer o geisiadau cynllunio wedi’u caniatáu ar fannau agored, wedi’u mapio yn yr Asesiad Mannau Agored, y gellir eu hystyried fel rhai ategol / rhai sy’n gwella’r mannau agored presennol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau fel llwybrau troed, llifoleuadau, toiledau compost ac ystafelloedd newid. Nid oes yr un yn cael ei ystyried fel newid defnydd nac yn arwain at golli man agored.

I gloi, yn ystod y cyfnod monitro bu cynnydd net mewn mannau agored cyhoeddus. Ar y cyfan, mae Polisi DM3 y CDLl sydd wedi’i fabwysiadu wedi'i fel y bwriadwyd. Fodd bynnag, wrth ailystyried y polisi, yn y CDLl Newydd, dylid ystyried ei gwneud yn gliriach bod diogelu mannau agored cyhoeddus yn ymestyn y tu hwnt i'r hyn a fapiwyd yn yr asesiad mannau agored i adlewyrchu canfyddiadau Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau’r cynllun datblygu yn effeithiol.

## AMB57: Llunio a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn cysylltiad â Mannau Agored.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | Ffyrdd Iach o Fyw |
| **Dangosydd:** | **Llunio a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn cysylltiad â Mannau Agored.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM3 — Man Agored Cyhoeddus |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Llunio a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol mewn cysylltiad â Mannau Agored o fewn 18 mis i fabwysiadu'r CDLl. |
| **Trothwy:** | Os na chaiff Canllawiau Cynllunio Atodol mewn cysylltiad â Mannau Agored eu mabwysiadu o fewn 18 mis i fabwysiadu'r CDLl. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019-2020):** | |
| **AMB 2021 (2020-2021):** | |
| **AMB 2022 (2021-2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Cam Gweithredu</u>**

Er nad yw CCA Mannau Agored wedi gwneud cynnydd y tu hwnt i'r cam drafftio, mae Asesiad Mannau Agored (2018) cyhoeddedig yn darparu dulliau effeithiol o brofi cynigion datblygu a'u colled neu eu darpariaeth Mannau Agored. Mae CCA Rhwymedigaethau Cynllunio hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer darpariaeth Mannau Agored, felly nid ystyrir bod peidio â chyhoeddi CCA Mannau Agored yn niweidiol.

**<u>Cam Gweithred</u>**

Heb ei Asesu

## Amcan 15 — Y Gymraeg a Diwylliant Cymreig

**Cefnogi a diogelu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ym Mhowys ac yn benodol mewn Cadarnleoedd y Gymraeg yng ngogledd-orllewin a de-orllewin y sir.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 15 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB58 | Nifer y datblygiadau tai mawr a ganiateir tu fewn i neu sy'n estyniadau synhwyrol i Drefi a Phentrefi Mawr a nodir ym mholisi DM12 (Cadarnleoedd y Gymraeg) a gyflwynir gyda Chynllun Gweithredu Iaith sy'n amlinellu mesurau lliniaru i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymreig. | | **Parhau i Fonitro** |

## AMB58: Nifer y datblygiadau tai mawr a ganiateir tu fewn i neu sy'n estyniadau synhwyrol i Drefi a Phentrefi Mawr a nodir ym mholisi DM12 (Cadarnleoedd y Gymraeg) a gyflwynir gyda Chynllun Gweithredu Iaith sy'n amlinellu mesurau lliniaru i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymreig.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Y Gymraeg a Diwylliant Cymreig** |
| **Dangosydd:** | Nifer y datblygiadau tai mawr a ganiateir tu fewn i neu sy'n estyniadau synhwyrol i Drefi a Phentrefi Mawr a nodir ym mholisi DM12 (Cadarnleoedd y Gymraeg) a gyflwynir gyda Chynllun Gweithredu Iaith sy'n amlinellu mesurau lliniaru i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymreig. |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM12 — Datblygiadau mewn Cadarnleoedd y Gymraeg |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | I bob datblygiad tai mawr tu fewn i neu sy'n estyniadau synhwyrol i Drefi a Phentrefi Mawr a nodwyd cyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith sy'n cynnwys mesurau lliniaru i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymreig. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad tai mawr neu fwy tu fewn i neu sy'n estyniadau synhwyrol i Drefi a Phentrefi Mawr a nodwyd heb gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith sy'n cynnwys mesurau lliniaru i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymreig mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r dangosydd monitro hwn yn profi gweithrediad Polisi DM12 y CDLl, sy'n berthnasol i ddatblygiadau ar hap mawr a ganiatawyd yng Nghadarnleoedd y Gymraeg.

Mae dau ddatblygiad wedi'u nodi yn ystod y cyfnod monitro hwn, yn Ystradgynlais a Machynlleth. Roedd y caniatâd yn Ystradgynlais yn ymwneud â chymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl ar safle a ddyrannwyd yn y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu, ac, felly, ni fyddai Polisi CDLl DM12 yn berthnasol i'r datblygiad hwn.

Roedd y caniatâd ym Machynlleth yn ymwneud ag amrywio amod ar ganiatâd presennol i ganiatáu ar gyfer newidiadau i ddyluniad a gosodiad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru cenedlaethol. Roedd Adroddiad y Swyddog yn cydnabod bod y safle wedi'i leoli o fewn Cadarnle'r Gymraeg, sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau ar hap-safleoedd ar gyfer 10 annedd neu fwy fod yn destun Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i egluro nad oedd y cais gwreiddiol yn destun Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, ac felly nad ystyriwyd ei bod yn rhesymol gofyn am asesiad ar gyfer y newidiadau arfaethedig o ran dyluniad a gosodiad ar hyn o bryd.

Canfuwyd felly nad oedd Polisi DM12 y CDLl sydd wedi'i fabwysiadu yn berthnasol i'r mathau o ddatblygiadau/ceisiadau a ganiateir mewn Cadarnleoedd y Gymraeg yn ystod y cyfnod monitro hwn. Cynigir parhau i fonitro gweithrediad y polisi hwn, yn enwedig o ystyried anghysondebau yn y gorffennol o ran sut yr oedd y polisi yn cael ei gymhwyso.

**Cam Gweithredu**

**Parhau i Fonitro**

Gweithredir polisïau'r cynllun datblygu yn effeithiol.

## Amcan 16 — Llesiant y gymuned

**Hyrwyddo datblygu sy'n cefnogi llesiant a chydlyniant y gymuned, yn enwedig mewn cymunedau sy'n dioddef oherwydd amddifadedd lluosog ac allgáu cymdeithasol.**

### Dangosyddion Lleol Amcan 16 — Tabl Cryno ar gyfer Cyfnod yr AMB.

| Cyfeirnod: | Dangosydd | Asesiad | Gweithred |
|---|---|---|---|
| AMB59 | Nifer y datblygiadau a ganiateir sy'n arwain at golli cyfleuster cymunedol presennol neu gyfleuster hamdden dan do, neu siop leol/siop y pentref, tafarn neu wasanaeth. | | Adolygiad Polisi yn Ofynnol |

## AMB59: Nifer y datblygiadau a ganiateir sy'n arwain at golli cyfleuster cymunedol presennol neu gyfleuster hamdden dan do, neu siop leol/siop y pentref, tafarn neu wasanaeth.

| | |
|---|---|
| **Amcan:** | **Llesiant y gymuned** |
| **Dangosydd:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir sy'n arwain at golli cyfleuster cymunedol presennol neu gyfleuster hamdden dan do, neu siop leol/siop y pentref, tafarn neu wasanaeth.** |
| **Polisïau Allweddol:** | Polisi Rheoli Datblygu DM11 — Amddiffyn Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol Presennol |
| **Polisïau Perthnasol:** | |
| **Targed:** | Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad sy'n arwain at golli cyfleuster cymunedol presennol neu gyfleuster hamdden dan do, neu siop leol/siop y pentref, tafarn neu wasanaeth oni bai ei fod yn cydymffurfio â pholisi DM11. |
| **Trothwy:** | Os caniateir 1 datblygiad neu fwy sy'n arwain at golli cyfleuster cymunedol presennol neu gyfleuster hamdden dan do, neu siop leol/siop y pentref, tafarn neu wasanaeth nad yw'n cydymffurfio â pholisi DM11 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |

### Deilliant / camau gweithredu, blwyddyn ar ôl blwyddyn:

| | |
|---|---|
| **Mabwysiadwyd y CDLl:** | 17/04/2018 |
| **AMB 2020 (2019–2020):** | |
| **AMB 2021 (2020–2021):** | |
| **AMB 2022 (2021–2022):** | |
| **AMB 2023 (2022-2023):** | - |

**Dadansoddiad**

Mae Polisi DM11 y CDLl yn ceisio diogelu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol oni ellir cyfiawnhau defnydd arall yn unol â'r polisi. Er mwyn profi gweithrediad Polisi DM11 y CDLl, mae'r dangosydd monitro hwn yn monitro nifer y cydsyniadau cynllunio a roddir ar gyfer newid defnydd sy'n cynnwys colli cyfleuster neu wasanaeth cymunedol sydd eisoes yn bodoli.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, caniatawyd 14 datblygiad o'r math hwn, y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â newid defnydd/addasu i ddefnyddiau newydd, gydag un datblygiad yn ymwneud ag adeilad newydd. Arweiniodd y datblygiadau hyn at golli (neu mewn rhai achosion, colled rhannol) ystod o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys capel, sefydliadau preswyl, tafarndai, bragdy micro a chanolfan ymwelwyr, gwesty, canolfan gofal iechyd, siopau, caffi, a banc a chyn ysgol. Roedd naw o'r datblygiadau yn cynnig defnydd preswyl, gyda defnyddiau arfaethedig eraill gan gynnwys swyddfeydd, bragdy micro a melin seidr gyda siop, busnes a siop therapi cyflenwol, llety gwyliau ac unedau byw â chymorth yn gysylltiedig â chartref gofal.

O ran dosbarthiad y datblygiadau a ganiateir ar draws yr hierarchaeth aneddiadau, roedd y mwyafrif wedi eu lleoli mewn Trefi, gyda nifer cyfyngedig mewn Pentrefi Bach a Chefn Gwlad Agored – gweler Tabl 27. Felly, mae mwyafrif y datblygiadau hyn wedi dod ymlaen yn y mwyaf lleoliadau cynaliadwy, yn ôl y CDLl mabwysiedig.

Roedd hanner y datblygiadau wedi'u hasesu'n benodol o dan Bolisi DM11 y CDLI mabwysiedig ac wedi'u cyfiawnhau a'u cefnogi gan dystiolaeth yn ymwneud â hyfywedd, marchnata, a defnyddiau/darpariaeth amgen, er mwyn dangos cydymffurfiaeth â meini prawf y polisi.

Fodd bynnag, nid oedd Polisi CDLI DM11 wedi'i ddefnyddio gan Swyddogion i asesu'r datblygiadau sy'n weddill. Yn hytrach, roedd swyddogion yn dibynnu ar Bolisi R3 y CDLI mabwysiedig wrth asesu ceisiadau yn ymwneud â cholli siopau mewn Trefi a pholisïau perthnasol eraill, megis Polisi H1 y CDLI, Polisi E2 y CDLI a chanllawiau cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol 6 ar ailddefnyddio adeiladau gwledig.

Ceir rhai problemau o hyd ynghylch cysondeb yn y ffordd y caiff Polisi CDLI DM11 ei gymhwyso ac ynghylch y berthynas rhwng y polisi hwn a pholisïau CDLI mabwysiedig eraill megis polisïau R3 a C1. Mae hyn yn amlygu'r angen i adolygu ac egluro cwmpas a geiriad y polisi, a darparu diffiniadau cliriach o gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol. Tynnir y materion cysondeb hyn i sylw Swyddogion Rheoli Datblygu, er hynny, bydd Polisi DM11 y CDLI yn cael ei adolygu yn rhan o broses y CDLI Newydd.

### Tabl 27. Caniatâd Cynllunio a Ganiatawyd ar gyfer Newid Defnydd Cyfleusterau neu Wasanaethau Cymunedol a oedd Eisoes yn Bodoli fesul Haen Aneddiadau yn ystod y Cyfnod Monitro.

| Hierarchaeth aneddiadau y CDLI | Nifer y cydsyniadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau neu wasanaethau cymunedol a oedd eisoes yn bodoli |
|---|---|
| **Trefi** | 9 |
| **Pentrefi Mawr** | 0 |
| **Pentrefi Bach** | 1 |
| **Cefn Gwlad Agored** | 4 |
| **Cyfanswm** | 14 |

**Gweithred**

**Adolygiad Polisi yn Ofynnol**

Nid yw polisïau cynlluniau datblygu yn cael eu gweithredu ac maent yn methu â chyflawni; mae'n bosibl y bydd angen adolygiad o'r polisi penodol.

# 6. Canlyniadau Dangosyddion yr AAS

## 6.1 Canlyniadau ar gyfer Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021

6.1.1 Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol helpu i wireddu datblygu cynaliadwy. I sicrhau taw dyna’r achos, mae angen cyfreithiol i brofi cynaliadwyedd y CDLl wrth baratoi’r cynllun. Cyfeirir at ran o’r broses hon fel yr AAS. Mae AAS CDLl Powys yn cynnwys fframwaith monitro sydd hefyd yn cynnwys 34 o ddangosyddion AAS a ddefnyddir i brofi perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun. Mae’r adran hon yn delio gyda’r dangosyddion AAS ynghyd â dadansoddiad o’r canlyniadau ar gyfer bob dangosydd.

6.1.2 Mae’r broses fonitro yn ddibynnol ar ystod eang o wybodaeth ystadegol sy’n dod o ffynonellau awdurdod lleol ac allanol. Er cysondeb ar draws oes y Cynllun, pan fo angen, mae’r ffynonellau wedi eu nodi ar gyfer pob Dangosydd AAS. Fodd bynnag, os yw’r ffynonellau hyn yn newid dros amser, yna bydd angen eu disodli â ffynonellau data eraill sy’n darparu cymaint o gywerthedd â’r ffynhonnell flaenorol â phosibl.

6.1.3 Hefyd mae’n bwysig cydnabod y cyhoeddir nifer o ffynonellau data yn llai aml nag yn flynyddol. Mae hyn yn golygu y gall y data a ddefnyddir aros yr un peth o un flwyddyn monitro i’r nesaf, a gall hyn efallai effeithio ar berfformiad posib dangosydd yr AAS. Dylai’r monitro wedi hynny dros gyfnodau hirach ddelio gyda’r mater yma, a lle bo’n briodol, adnabod tueddiadau. Gwneir nodyn ar gyfer pob dangosydd AAS, lle gwyddys y gall y broblem hon ddigwydd.

## 6.2 Crynodeb o’r Prif Faterion a Thueddiadau a Nodwyd

6.2.1 Mae’r Adroddiad Adolygu yn crynhoi prif ganfyddiadau monitro yr AAS, gan nodi’r prif faterion a’r tueddiadau sydd wedi dod i’r amlwg ers mabwysiadu’r CDLl a chan gwmpasu’r pynciau AAS canlynol: Bioamrywiaeth, Poblogaeth, Priddoedd, Adnoddau ac Asedau Strategol, Treftadaeth Ddiwylliannol a Geoamrywiaeth. Yn gryno, mae’r canlyniadau ar gyfer y cyfnod monitro presennol yn dangos:

- Parhad o dueddiadau poblogaeth tuag at boblogaeth sy'n heneiddio.
- Gwrthdroi'r duedd tuag at allfudo ar ran oedolion iau.
- Cynnydd mewn damweiniau ffordd a throseddau a gofnodwyd gan yr heddlu.
- Gwelliant mewn ansawdd aer.
- Gostyngiad yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc 3-15 oed.

## Pwnc yr AAS: Bioamrywiaeth

| **Pwnc yr AAS — Bioamrywiaeth** |
|---|
| **1. Diogelu a gwella holl safleoedd cadwraeth natur dynodedig yn ardal y Cynllun.**<br>**2. Diogelu a gwella'r holl rywogaethau a chynefinoedd a nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Powys neu Restr Adran 42.** |
| Dangosydd 1 — Cynyddu/lleihau nifer y safleoedd dynodedig Ewropeaidd mewn cyflwr ffafriol. |
| Dangosydd 2 — Newidiadau i statws y cynefinoedd a rhywogaethau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol. |
| Dangosydd 3 — Nifer y datblygiadau a ganiateir sy'n ymgorffori gwelliannau i safleoedd Ewropeaidd / cenedlaethol dynodedig, a'r rhywogaethau a chynefinoedd a nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Powys neu Restr Adran 42. |

| **Pwnc yr AAS:** | **Bioamrywiaeth** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig |
| **Dangosydd 1:** | **Cynyddu/lleihau nifer y safleoedd dynodedig Ewropeaidd mewn cyflwr ffafriol.** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru am gyflwr safleoedd dynodedig. https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/protected-sites-baseline-assessment-2020/?lang=cy |
| **Amserlen:** | Yn ddibynnol ar gynlluniau CNC ar gyfer monitro yn y dyfodol |

**Dadansoddiad**

Mae'r CDLl yn rhestru 20 safle (ACA ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig) o'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (cyfeiriwyd at y rhain fel safleoedd Ewropeaidd cyn mis Ionawr 2021) sydd yn y sir yn gyfan gwbl neu'n rhannol, a 27 arall sydd y tu allan i'r sir yn llwyr ond o fewn 15 cilometr i ffin Powys. Mae'r ffigur olaf hwn yn cynnwys tri sydd yn Lloegr. Ar draws pob un o'r 47 o safleoedd hyn, mae 173 o 'nodweddion' cadwraeth (162 yn neu o fewn 15 cilometr i ffin Powys) sy'n darparu'r cyfiawnhad dros ddynodi'r safle sydd dan sylw. Mae'r nodweddion hyn yn ddarostyngedig i asesiad rheolaidd a gynhelir yng Nghymru gan CNC a thros y ffin gan Natural England. Diben yr asesiadau hyn yw pennu statws cadwraeth y nodweddion dan sylw, a disgrifir y statws fel un o'r canlynol:

- Anffafriol; Dirywio
- Anffafriol; Di-ddosbarth
- Anffafriol; Yn Gwella
- Ffafriol; Di-ddosbarth
- Ffafriol; Yn Gwella
- Ffafriol; Cynhelir
- Heb ei Asesu
- Dosbarthedig.

Sefydlwyd prosiect Gwerthuso Gwaelodlin 2020 gan CNC er mwyn asesu ansawdd y safleoedd gwarchodedig yng Nghymru, a dyma'r tro cyntaf i ymarfer i benderfynu ar gyflwr nodweddion safleoedd gwarchodedig Cymru gael ei wneud ar y raddfa hon ers 2003.

Nodweddion monitro yr ystyrir eu bod yn rhai a ddefnyddir i gymhwyso safleoedd gwarchodedig Cymru ar hyn y bryd oedd pwyslais y prosiect yn bennaf. Mathau o nodweddion daearol a dŵr croyw perthnasol ar gyfer monitro: fflora, ffawna, daeareg, geomorffoleg a chymysgedd o'r nodweddion naturiol hyn.

Nid oes diweddariad ar y dangosydd hwn i'r hyn a adroddwyd yn AMB 2022. O'r 162 o nodweddion cadwraethol ym Mhowys neu o fewn 15 cilometr i'w ffin, dim ond 32 (20%) ohonynt y nodiwyd eu cyflwr dangosol yn 'Ffafriol'; ystyriwyd 86 (53%) arall yn 'Anffafriol', a nodiwyd y 44 (27%) sy'n weddill yn 'Anhysbys'. Dosbarthwyd y cyflwr yn 'anhysbys' pan nad oedd digon o dystiolaeth i wneud penderfyniad.

Bydd canfyddiadau'r prosiect hwn (gweler Tabl 28) yn darparu gwaelodlin hanfodol ar gyfer datblygu dull rheoli a monitro ar draws y gyfres ehangach o safleoedd gwarchodedig (ACAau, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig).

*DS; noder bod rhestr Adran 42 y cyfeirir ati o dan bennawd Amcan 2 uchod bellach wedi ei disodli gan restr Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**Tabl 28. Cyflwr Dangosol Nodweddion Cadwraeth ym Mhowys neu o fewn 15 cilometr i'w Ffin.**

| **Cyflwr Dangosol** | **2020** |
|---|---|
| Ffafriol | 20% |
| Anffafriol | 53% |
| Anhysbys | 27% |

| Pwnc yr AAS: | Bioamrywiaeth |
|---|---|
| Is-bwnc: | Cynefinoedd a Rhywogaethau Pwysig. |
| Dangosydd 2: | **Newidiadau i statws y cynefinoedd a rhywogaethau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol.** NODER: mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol wedi cael ei ddisodli gan Gynllun Adfer Natur Powys — https://en.powys.gov.uk/article/12296/Powys-Nature-Recovery-Action-Plan a https://cy.powys.gov.uk/article/12303/Atodiad-A a https://cy.powys.gov.uk/article/12304/Atodiad-B |
| Tasg: | Adolygu gwybodaeth Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys ac unrhyw waith monitro cysylltiedig yn y dyfodol. |
| Amserlen: | Yn ddibynnol ar drefniadau yn y dyfodol |

**Dadansoddiad**

Mabwysiadwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys, sy'n adeiladu ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol blaenorol Powys, ym mis Mawrth 2022. Nid oes dull safonol o adrodd ar gynnydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar hyn o bryd. Yn flaenorol, defnyddiwyd System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth i adrodd ar gamau a oedd yn cyfrannu tuag at gyflawni'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, ond nid yw hyn ar gael mwyach. Er mwyn monitro ar y cynnydd, bydd rhestr o brosiectau a gweithgareddau a gynhelir ym Mhowys sy'n cyfrannu at gyflawni Cynllun Gweithredu Adfer Natur Powys yn cael ei llunio a'i diweddaru'n flynyddol gan Bartneriaeth Natur Powys nes bod dulliau adrodd safonol wedi eu cytuno arnynt. Bydd polisi cynllunio yn bwriadu cysoni ei ddulliau monitro â hyn wrth symud ymlaen.

*DS; noder bod rhestr Adran 42 y cyfeirir ati o dan bennawd Amcan 2 uchod bellach wedi ei disodli gan restr Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

| **Pwnc yr AAS:** | **Bioamrywiaeth** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Gwelliannau |
| **Dangosydd 3:** | **Nifer y datblygiadau a ganiateir sy'n ymgorffori gwelliannau i safleoedd Ewropeaidd / cenedlaethol dynodedig, a'r rhywogaethau a chynefinoedd a nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Powys neu Restr Adran 42.** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth Rheoli Datblygu CSP. |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**Dadansoddiad**

Ym mis Hydref 2019, dosbarthodd Llywodraeth Cymru lythyr i Awdurdodau Cynllunio Lleol yn esbonio'r sefyllfa o ran sicrhau gwelliannau bioamrywiaeth yn rhan o geisiadau cynllunio. Disgwylir i welliannau bioamrywiaeth gael eu sicrhau mewn cysylltiad â'r holl ddatblygiadau, gan gynnwys y datblygiadau hynny sy'n effeithio ar Rwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, rhywogaethau a chynefinoedd.

I grynhoi, nid oes angen monitro'r Dangosydd hwn mwyach oherwydd newid yn y dull cenedlaethol o wella.

## Pwnc yr AAS: Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol

| Pwnc yr AAS — Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol |
|---|
| **Amcan 3: Gwella darpariaeth tai, cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac mewn ymateb i newidiadau demograffeg (e.e. poblogaeth sy'n heneiddio a'r angen i gadw poblogaeth o oed gweithio).**<br><br>**Amcan 4: Hyrwyddo gwelliannau mewn diogelwch yn y gymuned.**<br>**Amcan 5: Hyrwyddo gwelliannau mewn iechyd dynol a chyfleoedd byw'n iach.**<br>**Amcan 6: Atal neu leihau cymaint â phosib bod yn agored i ffynonellau niwsans potensial a risg i iechyd dynol.** |
| Dangosydd 4 — Newid mewn disgwyliad oes cyfartalog. |
| Dangosydd 5 — Cymhareb y boblogaeth o oed gweithio â phlant a phobl wedi ymddeol. |
| Dangosydd 6 — Canran y boblogaeth 75 oed a hŷn. |
| Dangosydd 7 — Tueddiadau mudo oedolion iau (20–34 oed). |
| Dangosydd 8 — Nifer y damweiniau ffordd gydag anaf personol a gofnodir gyda'r heddlu. |
| Dangosydd 9 — Nifer y troseddau a gofnodir gan yr heddlu. |
| Dangosydd 10 — Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy'r wythnos. |
| Dangosydd 11 — Nifer y ceisiadau cynllunio a gyfeirir at Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. |

| **Pwnc yr AAS:** | **Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Y Boblogaeth (proffil demograffeg). |
| **Dangosydd 4:** | **Newid mewn disgwyliad oes cyfartalog.** |
| **Tasg:** | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol<br><br>https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies |
| **Amserlen:** | Data cyfrifiad (2021) ar gael yn 2022.<br>Disgwyliad oes cyfartalog bob 2–4 blynedd (yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru). |

**Dadansoddiad**

Mae'r data sydd ar gael yn aros yr un fath ag a adroddwyd yn y cyfnod monitro blaenorol. Mae ystadegau diweddaraf sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer disgwyliad oes cyfartalog adeg geni Powys (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) yn ymwneud â chyfartaleddau ar gyfer y blynyddoedd 2018 i 2020.

Noda'r ffigyrau a ddangosir yn Nhabl 29 gynnydd mewn disgwyliad oes gwrywod ar adeg geni a gostyngiad mewn disgwyliad oes benywod ar adeg geni o 2016 hyd 2020.

Fodd bynnag, yr hyn a allai fod yn fwy nodedig yw'r ffigurau disgwyliad oes iach adeg geni ar gyfer dynion, sef 62.02 mlynedd yn 2018–2020, o'i gymharu â 65.54 mlynedd yn 2016–2018 a'r hyn ar gyfer menywod, sef 65.62 mlynedd yn 2018–2020, o'i gymharu â 68.2 mlynedd yn 2016–2018.

Disgwylir y bydd data newydd yn cael ei ryddhau mewn pryd ar gyfer y cyfnod monitro nesaf.

### Tabl 29. Disgwyliad Oes ac Iechyd ar Enedigaeth

| Iechyd a Disgwyliad Oes | 2016 -2018 | 2017-2019 | 2018-2020 |
|---|---|---|---|
| Disgwyliad oes adeg geni — Gwrywod | 79.80 oed | 79.97 oed | 80.13 oed |
| Disgwyliad oes adeg geni — Benywod | 84.04 oed | 83.69 y oed | 83.38 oed |
| Disgwyliad Oes Iach adeg geni — Gwrywod | 65.54 oed | 63.3 oed | 62.02 oed |
| Disgwyliad Oes Iach adeg geni — Benywod | 68.2 oed | 66.31 oed | 65.62 oed |

| **Pwnc yr AAS:** | **Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Y Boblogaeth (proffil demograffeg). |
| **Dangosydd 5:** | **Cymhareb y boblogaeth o oed gweithio â phlant a phobl wedi ymddeol.** |
| **Dangosydd 6:** | **Canran y boblogaeth 75 oed a hŷn.** |
| **Dangosydd 7:** | Tueddiadau mudo oedolion iau (20–34 oed). |
| **Tasg:** | Data Cyfrifiad (2021) ar gael yn 2022.<br>Amcangyfrifon poblogaeth ganol y flwyddyn y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS). |
| **Amserlen:** | Data Cyfrifiad (2021) ar gael yn 2022.<br>Data'r ONS ar gael yn flynyddol. |

**Dadansoddiad**

data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y tri dangosydd AAS hyn yw'r Cyfrifiad (2021) a gyhoeddwyd yn 2022.

**Dangosydd 5**; Ar sail data'r Cyfrifiad (2021), poblogaeth Powys yw 133,174, sy'n cynrychioli cynnydd ym maint y boblogaeth o 144 ers amcangyfrifon canol blwyddyn 2020. Ystyrir bod 75,419 o gyfanswm y boblogaeth o oedran gweithio (sef rhwng 16 a 64 oed), sy'n cyfateb i 56.6%. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 259 ar ffigur 2020. Mae 20,634 o blant (0 i 15 oed) (15.5%). Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 435 o 2020. Mae 37,121 o bobl yn 65 oed neu'n hŷn (27.9%). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 320 ers 2020. Gyda'i gilydd, mae poblogaethau plant a phobl wedi ymddeol yn cyfateb i 57,755 o bobl neu 43.4% o'r boblogaeth gyfan, o gymharu â'r 56.6% sydd o oedran gweithio. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 2020 o 115 o bobl sydd naill ai'n blant neu wedi ymddeol ac felly bernir nad ydynt yn gweithio. Mae'r newidiadau yn y ffigurau hyn ers mabwysiadu'r CDLl wedi'u crynhoi yn Nhabl 30. Mae hyn yn dangos parhad o duedd sy'n berthnasol i amcan AAS 3 i wella'r ddarpariaeth tai, cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol i ddiwallu anghenion y boblogaeth ac mewn ymateb i newidiadau demograffig, megis y boblogaeth sy'n heneiddio.

**Dangosydd 6;** Ar sail data'r Cyfrifiad (2021), mae tua 17,244 o bobl yn byw ym Mhowys sy'n 75 oed neu'n hŷn, mae hyn yn cyfateb i 12.9% o gyfanswm y boblogaeth. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 167 (0.07%) o 2020. Mae'r newidiadau yn y ffigurau hyn ers mabwysiadu'r CDLl wedi'u crynhoi yn Nhabl 31. Mae hyn yn dangos parhad o duedd sy'n berthnasol i Amcan 3 AAS i wella'r ddarpariaeth tai, cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol i fodloni anghenion y boblogaeth ac mewn ymateb i newidiadau demograffig, megis y boblogaeth sy'n heneiddio.

**Dangosydd 7;** Yn seiliedig ar ddata Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2021, bu mewnlif net o -74 o oedolion iau (sef grŵp oedran 20-34) i Bowys. Yn gyffredinol, bu mewnlif net o +88 o bobl yn y grŵp oedran oedolion iau (20-34 oed) dros y pedair blynedd ers mabwysiadu'r CDLl. Crynhoir y newidiadau blynyddol yn Nhabl 32. Mae hyn yn dangos gwrthdroi tuedd o gymharu â'r cyfnodau monitro blaenorol tuag at allfudo oedolion ifanc ac mae'n berthnasol i amcan AAS 3 i wella darpariaeth tai, cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol mewn ymateb i newidiadau demograffig, yn enwedig o ran yr angen i gadw'r boblogaeth ifanc o oedran gweithio.

**Tabl 30. Canran y Boblogaeth Oedran Gweithio i Blant a'r Boblogaeth Ymddeoledig ym Mhowys (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2018, 2019 a 2020 a'r Cyfrifiad 2021).**

| Grwpiau oedran | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | +/- yn newid y ganran o 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran Gweithio (rhwng 16 a 64 oed)** | 56.98% | 56.55% | 56.49% | 56.6% | -0.38% |
| **Plant (0 i 15 oed) a Phobl 65 oed neu hŷn** | 43.01% | 43.44% | 43.49% | 43.4% | +0.39% |

**Tabl 31. Canran y Boblogaeth 75 oed a hŷn (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2018, 2019 a 2020 a'r Cyfrifiad 2021).**

| Grŵp oedran | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | +/- yn newid y ganran o 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth 75 oed a hŷn** | 12.20% | 12.65% | 12.83% | 12.9% | +0.7% |

**Tabl 32. Mewnlif net o Oedolion Iau (rhwng 20 a 34 oed) i Bowys (2018, 2019 ac Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2020).**

| | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | +/- yn newid y ganran o 2018 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y mewnlif net** | +46 | +58 | +58 | -74 | +88 |

| **Pwnc yr AAS:** | **Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Diogelwch yn y gymuned |
| **Dangosydd 8:** | **Nifer y damweiniau ffordd gydag anaf personol a gofnodir gyda'r heddlu.** |
| **Tasg:** | Adolygu ystadegau traffig Llywodraeth Cymru:<br>https://llyw.cymru/damweiniau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-dangosfwrdd-rhyngweithiol<br>https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Transport/Roads/Road-Accidents |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol |

**Dadansoddiad**

Mae'r data sydd ar gael ar gyfer y cyfnod monitro hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ionawr i 30 Rhagfyr 2022. Mae Tabl 33 yn ymgorffori'r ffigurau hyn.

Yn 2022 roedd 315 o ddamweiniau ffordd gyda 461 o anafusion. Fel y dangosir yn Nhabl 34, cafodd 333 o'r anafusion hyn eu hanafu ychydig, roedd 115 wedi'u hanafu'n ddifrifol ac roedd 13 o farwolaethau. Cofnodwyd un farwolaeth yn chwarter un, pum marwolaeth yn chwarter dau a thri, a dau farwolaeth yn chwarter pedwar.

Mae'r ffigurau a adroddwyd ar gyfer 2022 yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y damweiniau ffyrdd o gymharu â 2020 a 2021, pan roedd cyfyngiadau symud ar waith oherwydd y pandemig Covid-19. Fodd bynnag, rhywbeth sy'n fwy nodedig, efallai, yw nifer yr anafusion yn ôl difrifoldeb mewn damweiniau ffordd yn 2022, sy'n dangos cynnydd cyffredinol mewn cymhariaeth â'r rhai a gofnodwyd yn 2019, 2020 a 2021.

**Tabl 33. Cyfanswm y Damweiniau Ffordd a Gofnodwyd gan yr Heddlu sy'n Ymwneud ag Anaf Personol ym Mhowys.**

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y damweiniau ffordd** | 351 | 216 | 299 | 315 |

**Tabl 34. Nifer yr Anafiadau mewn Damweiniau Ffordd fesul Difrifoldeb ym Mhowys.**

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **Mân anafiadau** | 230 | 207 | 288 | 333 |
| **Anafiadau difrifol** | 107 | 81 | 96 | 115 |
| **Marwolaethau** | 14 | 4 | 5 | 13 |

| **Pwnc yr AAS:** | **Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Iechyd Dynol |
| **Dangosydd 9:** | **Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy'r wythnos.** |
| **Tasg:** | Adolygiad o ystadegau troseddu Powys, gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Powys:<br><br>https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/recordedcrimedatabycommunitysafetypartnershiparea |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol |

**Dadansoddiad**

Mae'r ffigurau a ddefnyddiwyd ar gyfer y dadansoddiad hwn yn ymwneud â blwyddyn galendr 2022, ac maent yn dangos mai cyfanswm y troseddau a gofnodwyd (ac eithrio twyll) yn Sir Powys oedd 10,313. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 1,092 o ddigwyddiadau (11.8%) o gymharu â 2021 (gweler Tabl 35).

Mae data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn dangos arwyddion bod lefelau digwyddiadau yn dychwelyd i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig neu'n uwch na'r lefelau hynny. Y cynnydd uchaf o droseddau a gofnodwyd (ac eithrio twyll) ym Mhowys oedd 'trais yn erbyn y person,' lle gwelwyd cynnydd o 12.9% (4,439 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 2021 a 5,016 yn 2022). O fewn y categori hwn, 'stelcio ac aflonyddu' a welodd y cynnydd mwyaf o 13.2% (2,120 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 2021 a 2,400 yn 2022). Nodwyd cynnydd nodedig arall mewn troseddau a gofnodwyd mewn Dwyn (1,340 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 2021 a 1,563 yn 2022), Siopladrata (212 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 2021 a 309 yn 2022), a throseddau Cyffuriau (380 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn 2021 a 445 yn 2022).

### Tabl 35. Nifer y Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu ym Mhowys.

| | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020* | 2021* | *2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y troseddau a gofnodwyd** | 4,263 | 4,799 | 5,396 | 5,979 | 6,060 | 6,959 | 6,906 | 9,221 | 10,313 |

*Ar gyfer prif droseddau, gan eithrio twyll y mae'r ffigurau hyn.

| | |
|---|---|
| **Pwnc yr AAS:** | **Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol** |
| **Is-bwnc:** | Iechyd Dynol |
| **Dangosydd 10:** | **Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy'r wythnos.** |
| **Tasg:** | Adolygu Arolwg Cenedlaethol Cymru ac ystadegau Arolwg ar Chwaraeon Ysgolion:<br>https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau |
| **Amserlen:** | Arolwg Cenedlaethol Cymru Blynyddol. |

**Dadansoddiad**

Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael (Awst 2022) yn dangos, o'r ymatebwyr yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ym Mhowys, fod 28% o oedolion (16 oed a hŷn) wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn 2021–2022 o gymharu â 29% yn 2018-2019 a 2019-2020 ill dau.

Ar gyfer y dangosydd hwn, dangoswyd cyfres o weithgareddau dan do ac awyr agored i ymatebwyr a gofynnwyd a oeddent wedi cymryd rhan yn unrhyw un ohonynt. Os gwnaethant, gofynnwyd iddynt sawl gwaith yr oeddent wedi cymryd rhan yn y gweithgaredd dros y pedair wythnos flaenorol. Bob blwyddyn, gofynnir i tua 12,000 o bobl 16 oed a throsodd am eu barn ar amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u hardal leol. Dewisir ymatebwyr ar hap i sicrhau bod y canlyniadau'n gynrychioliadol.

| **Pwnc yr AAS:** | **Y Boblogaeth ac Iechyd Dynol** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Iechyd Dynol |
| **Dangosydd 11:** | **Nifer y ceisiadau cynllunio a gyfeirir at Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth Rheoli Datblygu CSP. |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, mae un cais cynllunio wedi ei gyfeirio at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).

Roedd y cais o fewn pellter ymgynghori i bibell o berygl mawr. Nododd ymateb yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Nwy) gyfyngiad risg uchel o fewn y safle ac mae wedi darparu canllawiau. Nid yw'r cais ar adeg ysgrifennu hwn wedi'i benderfynu eto.

Ni chyfeiriwyd unrhyw geisiadau at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer Sylweddau Peryglus.

Mae hyn yn effaith gadarnhaol mewn perthynas ag Amcan AAS 6 lle nodir cyfyngiadau, ac ymgynghorwyd ag ymgyngoreion arbenigol yn ystod camau cynnar y broses ymgeisio i atal neu leihau risg i iechyd dynol.

## Pwnc yr AAS: Pridd

| **Pwnc yr AAS — Pridd** |
|---|
| **Amcan 7: Diogelu pridd gyda statws pwysig fel storfeydd carbon ac ar gyfer amaethyddiaeth.**<br>**Amcan 8: Atal halogi tir a chefnogi adferiad tir fel rhan o ddatblygiad newydd.** |
| Dangosydd 12 — Maint y datblygu (hectarau) a ganiateir ar ardaloedd gyda mawn trwchus (yn ôl mapiau Arolwg Daearyddol Prydain). |
| Dangosydd 13 — Maint y datblygu (hectarau) a ganiateir ar safleoedd maes glas a thu allan i ffiniau datblygu. |
| Dangosydd 14 — Nifer y datblygiadau lle cymeradwywyd adroddiad dilysu gan yr ACLI sy'n dangos i'r tir a halogwyd cael ei adfer. |

| **Pwnc yr AAS:** | **Pridd** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Storfa Garbon |
| **Dangosydd 12:** | **Maint y datblygu (hectarau) a ganiateir ar ardaloedd gyda mawn trwchus (yn ôl mapiau Arolwg Daearyddol Prydain).** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth Rheoli Datblygu CSP. |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**Dadansoddiad**

Mae’r dangosydd AAS hwn yn monitro perfformiad adran 13 o Bolisi DM13 y CDLl o ran gallu’r polisi hwnnw i ddiogelu’r dalfeydd carbon pwysig (pwynt bwled v.), megis mawn trwchus, sy’n bodoli yn ardal ACLl Powys.

Dangosodd dadansoddiad o ddata Rheoli Datblygu y caniatawyd tri chais a oedd yn agos at ardal o fawn trwchus, neu drosti.

Mae'r cais cyntaf (22/1282/NMA) wedi'i leoli yn hen bwll glo brig Nant Helen. Mae'r cais hwn (sy'n aralleirio amodau caniatâd cynllunio 21/0559/OUT) yn ymwneud â nifer o ôl-ddefnyddiau posibl ar gyfer yr hen safle glo brig, ac roedd y cais hwn yn ymwneud â’r Ganolfan Fyd-eang ar gyfer Rhagoriaeth Rheilffyrdd arfaethedig yn benodol. Er bod y cais hwn, yn ôl pob tebyg, yn cwmpasu ardal o fawn trwchus, mewn gwirionedd, cafodd yr ardal o fawn dan sylw ei dynnu flynyddoedd lawer yn ôl yn ystod gwaith glo brig cyn mabwysiadu'r CDLl. Roedd ei bresenoldeb cofnodedig yn adlewyrchu oedran y set ddata mapio.

Roedd yr ail gais (22/0581/FUL) ar gyfer gosod generadur ynni adnewyddadwy gan gynnwys tyrbin gwynt 15 metr ac arae solar yng Nghwm Elan, gyda 0.007ha (70m$^2$) o fewn yr ardal mawn trwchus. Daeth Ecolegydd a Swyddog Cynllunio Powys i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith neu niwed arwyddocaol i'r safle yn gyffredinol gan fod y datblygiad wedi'i leoli o fewn uned telathrebu a oedd eisoes yn bodoli.

Caniatawyd y trydydd cais (22/2190/FUL) ar gyfer gosod mast cyfathrebu 20 metr o uchder a rennir, antenâu, cyfarpar ar y ddaear a datblygiad ategol gan gynnwys trac mynediad hefyd o fewn Cwm Elan a 0.012 ha (120m$^2$) mewn ardal o fawn drwchus. Ni chafodd presenoldeb mawn trwchus ei ystyried gan y Swyddog.

Roedd yr ardal o fawn trwchus yn Nant Helen wedi'i symud cyn mabwysiadu'r CDLl, ac felly ni fyddai presenoldeb mawn trwchus wedi bod yn berthnasol i'r ceisiadau hyn. Mae hyn yn gadael y ceisiadau sy'n weddill a oedd, gyda'i gilydd, yn cynnwys 0.019 ha o ddyddodion mawn trwchus.

| **Pwnc yr AAS:** | **Pridd** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Tir Amaethyddol |
| **Dangosydd 13:** | **Maint y datblygu (hectarau) a ganiateir ar safleoedd maes glas a thu allan i ffiniau datblygu.** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth Rheoli Datblygu CSP. |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r dangosydd AAS hwn yn debyg i ddangosydd AMB20 yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol y ceir y manylion canlynol ohono.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, rhoddwyd caniatâd ar hap-safleoedd ar gyfer arwynebedd o 93.01 hectar (ha). (Gweler Tabl 36) O'r 93.01 ha hyn, roedd 25.17 ha (27%) ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, gyda 66.16 ha (71%) ar safleoedd maes glas a 1.68 ha (2%) ar gymysgedd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir glas. Fodd bynnag, o edrych yn agosach, fe welir y bydd rhai o'r ceisiadau ar safleoedd maes glas yn parhau i gael eu dosbarthu fel tir glas pan fydd y cynnig datblygu wedi'i gwblhau. Mae hyn yn cynnwys pob caniatâd ar gyfer datblygiadau amaethyddol (13.99 ha), cynigion mannau agored (0.11 ha) a chynlluniau ynni adnewyddadwy (7.44 ha) - lle mae'r rhan fwyaf o'r defnydd tir gwreiddiol yn aros yr un fath (boeleri biomas wedi'u gosod mewn adeiladau amaethyddol presennol a phaneli solar ffotofoltäig) wedi'u gosod ar dir amaethyddol).

Er mwyn dadansoddi'r Dangosydd AAS hwn yn erbyn polisïau'r CDLl yn fanwl, bydd pob cais am ynni adnewyddadwy - lle mae'r rhan fwyaf o'r defnydd tir gwreiddiol yn aros yr un fath, ynghyd â chynigion datblygu amaethyddol a mannau agored - yn cael eu **heithrio** o'r data. Bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio'n llwyr ar dai, cyflogaeth, twristiaeth a seilwaith ac unrhyw ddatblygiad arall yng Nghefn Gwlad Agored a fyddai'n arwain at newid o dir glas i dir a ddatblygwyd o'r blaen.

Mae'r canlyniadau diwygiedig yn dangos bod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn ystod y cyfnod monitro ar hap-safleoedd ar gyfer arwynebedd o 70.41 ha. O'r 70.41 ha, roedd 24.11 ha (34%) ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, gyda 44.62 ha (63%) ar safleoedd maes glas a 1.68 ha (2%) ar safleoedd yn cynnwys cymysgedd o dir glas a thir a ddatblygwyd o'r blaen.

Wrth ddehongli'r canlyniadau hyn, dylid nodi bod ardal y Cynllun yn un o'r ardaloedd mwyaf gwledig yng Nghymru. Mae cyfanswm arwynebedd y Cynllun yn cyfateb i tua 430,301 ha, gyda dim ond 3,054 ha o'r rhain yn gorwedd o fewn y ffiniau datblygu (sef llai nag 1% o'r arwynebedd cyfan). Mae canlyniadau'r dangosydd hwn yn adlewyrchu nodweddion yr ardal ac anghenion ehangach yr economi a'r boblogaeth.

### Tabl 36. Canran y Tir Maes Glas y tu allan i Ffiniau Datblygu lle Caniateir Datblygu.

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| **% y tir glas y tu allan i ffiniau datblygu** | 70% | 67% | 50% | 67% | 63% |

| **Pwnc yr AAS:** | **Pridd** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Tir a Halogwyd |
| **Dangosydd 14:** | **Nifer y datblygiadau lle cymeradwywyd adroddiad dilysu gan yr ACLI sy'n dangos i'r tir a halogwyd cael ei adfer.** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth Rheoli Datblygu CSP. |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd AAS hwn yw asesu effeithiolrwydd Polisi DM10 Tir Halogedig ac Ansefydlog y CDLl.

Yn ystod y cyfnod monitro presennol, roedd amodau cynllunio yn ymwneud ag Adroddiadau Gwirio wedi'u rhyddhau mewn cyfanswm o 11 o ddatblygiadau a chymeradwywyd yr Adroddiad Gwirio gan yr ACLl. O fewn y cyfnod monitro cyflwynwyd cyfanswm o 14 o geisiadau rhyddhau amodau yn ymwneud ag adroddiad dilysu. Gwrthodwyd tri oherwydd na chymeradwywyd amodau blaenorol. Mae penderfyniadau ar y cam rhyddhau amod yn cael eu llywio gan gyngor gan y Swyddog Tir Halogedig ac mae'r angen i ddangos adferiad trwy adroddiad dilysu yn cael ei ystyried yn llawn yn y broses gynllunio.

## Pwnc yr AAS: Dŵr

| **Pwnc yr AAS — Dŵr** |
|---|
| **Amcan 9: Cynnal a gwella ansawdd a swm y dŵr.** |
| Dangosydd 15 — Fesul Ardal Cynllunio Rheoli Basn Afon ar gyfer Cynllun rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren:<br>• % y dŵr wyneb sydd o statws da.<br>• % y dŵr daear sydd o statws da. |
| Dangosydd 16 - Nifer y ceisiadau caniatâd cynllunio sy’n cynnwys SUD. |

| **Pwnc yr AAS:** | **Dŵr** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Ansawdd a swm dŵr |
| **Dangosydd 15:** | **Fesul Ardal Cynllunio Rheoli Basn Afon ar gyfer Cynllun rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren:**<br>• **% y dŵr wyneb sydd o statws da.**<br>• **% y dŵr daear sydd o statws da.** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth CNC/AA:<br><br>https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/river-basin-management-plans/?lang=cy a<br>https://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/<br><br>https://www.gov.uk/government/collections/river-basin-management-plans-2015#severn-river-basin-district-rbmp:-2015 |
| **Amserlen:** | Rhed Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd mewn cylchoedd 6 blynedd.  Mae CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn diweddaru dosbarthiadau pob 3 blynedd, ond maent yn rhedeg ar amserlenni gwahanol. |

**Dadansoddiad**

Nod y dangosydd AAS hwn yw profi effeithiolrwydd Polisi DM2 y CDLl — Yr Amgylchedd Naturiol, ac yn benodol, ei berfformiad o ran Adran 4 o ran cyflawni amcanion trosfwaol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i ddŵr wyneb a dyfroedd daear gyflawni statws 'da' ar y cyfan erbyn 2027. Ceir pum categori: Drwg, Gwael, Cymedrol, Da, ac Uchel. CNC sy'n gyfrifol am asesu ansawdd dyfroedd ym Mhowys ac mae'r gwaith monitro hwn yn digwydd mewn cyfnodau o chwe blynedd a elwir yn gylchredau.

Asesir ansawdd dyfroedd wyneb ar draws dau faen prawf ar wahân: ecolegol a chemegol. I gorff dŵr wyneb gael statws da cyffredinol, mae'n rhaid i'r statws ecolegol a chemegol fod yn dda, o leiaf.

Mesurir ansawdd dyfroedd daear hefyd gan ddefnyddio dau faen prawf ar wahân: cemegol a meintiol. Fel gyda dyfroedd wyneb, i ddosbarthu dŵr daear fel 'da', mae'n rhaid iddo gyflawni statws 'da' yn y ddau faen prawf hyn.

Nid oes unrhyw ddiweddariad wedi bod yn y ffigurau ar gyfer dŵr wyneb, ac maent yn parhau fel yr adroddwyd yng nghyfnod monitro AMB 2022 (2021-2022) (gweler Tabl 37), lle'r oedd cyfanswm o 239 o gyrff dŵr yn ardal y CDLl, ac o'r rhain, cafodd 108 eu dosbarthu fel rhai a oedd wedi cyrraedd statws 'da', roedd 103 yn cyflawni statws 'cymedrol', ac roedd 25 yn cael eu hystyried yn 'wael' a thri yn 'ddrwg'. O'i fynegi fel canran, golygai hyn fod 45.2% o'r cyrff dŵr wyneb wedi cyrraedd statws 'da'. Disgwylir y diweddariad dŵr wyneb interim nesaf yn 2024.

Mae Cylch 3' o ddata dosbarthiad Dŵr Daear ar gyfer 2021 wedi'i gyhoeddi yn Weather Watch Cymru, ac ystyriwyd bod cyfanswm o 18 corff dŵr o fewn ardal y CDLl. Roedd wyth o'r rhain wedi'u dosbarthu fel 'da', tra bod y 10 arall yn cyflawni statws 'gwael'. O'i fynegi fel canran, roedd hyn yn golygu bod 44.44% o ddyfroedd daear yn ardal y CDLl wedi cyflawni statws 'da'.

Cyhoeddwyd Crynodeb o Gynllun Rheoli Basnau Afonydd Gorllewin Cymru (2021-2027) ym mis Gorffennaf 2022. Cyhoeddwyd y rhan Gymreig o Grynodeb Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren (2021-2027) ym mis Rhagfyr 2022.

### Tabl 37. Canran y Cyrff Dŵr sydd â statws 'Da' yn Ardal CDLl Powys.

| Dosbarthiad y cyrff dŵr | 2019 | 2021 |
|---|---|---|
| Dyfroedd wyneb — statws 'da' | 45.2% | 45.2% |
| Dyfroedd wyneb — statws 'cymedrol' | 43.1% | 43.1% |
| Dyfroedd wyneb — statws 'gwael' | 10.5% | 10.5% |
| Dyfroedd wyneb — statws 'drwg' | 1.2% | 1.2% |
| Dyfroedd daear — statws 'da' | 41.2% | 44.4% |
| Dyfroedd daear — statws 'gwael' | 58.8% | 55.6% |

| **Pwnc yr AAS:** | **Dŵr** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Ansawdd y dŵr |
| **Dangosydd 16:** | **Nifer y ceisiadau caniatâd cynllunio sy'n cynnwys SUD.** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth Rheoli Datblygu CSP. |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**Dadansoddiad**

O 7 Ionawr 2019, gwnaeth atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) ddarpariaeth Systemau Draenio Cynaliadwy yn ofyniad gorfodol ar gyfer pob datblygiad newydd sy'n fwy nag un annedd neu ddatblygiad y mae ei arwynebedd yn fwy na 100m$^2$. O ganlyniad i hyn, nid yw'r Dangosydd hwn yn berthnasol mwyach.

## Pwnc yr AAS: Aer

| Pwnc yr AAS — Aer |
|---|
| **Amcan 10: Diogelu a gwella ansawdd aer ym Mhowys.** |
| Dangosydd 17 — Lefelau cyfartalog crynodiadau NO2, PM2.5 a PM10 (a gofnodir fel Dangosyddion Ansawdd Aer) ar draws Powys. |
| Dangosydd 18 — Lefelau penodol o NO2 yn erbyn Amcanion Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol ar draws Powys. |

| **Pwnc yr AAS:** | **Aer** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Ansawdd Aer |
| **Dangosydd 17:** | **Lefelau cyfartalog crynodiadau NO2, PM2.5 a PM10 (a gofnodir fel Dangosyddion Ansawdd Aer) ar draws Powys.** |
| **Tasg:** | Adolygu Dangosyddion Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru:<br><br>https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Air-Quality/airqualityindicators-by-localauthority |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**Dadansoddiad**

Mae Dangosyddion Cysylltiad Ansawdd Aer (cyfartaledd y crynodiadau $NO_2$, Deunydd Gronynnol 2.5 a Deunydd Gronynnol 10) yn deillio o ddata a fodelir ar gyfer pob cilomedr sgwâr yng Nghymru ac fe'u mesurir mewn $\mu g/m^3$. Nid yw Cyngor Sir Powys yn monitro ar gyfer Deunydd Gronynnol 10 na Deunydd Gronynnol 2.5. Bob blwyddyn, mae model Mapio Hinsawdd Llygredd Llywodraeth y DU yn cyfrifo crynodiadau llygryddion cyfartalog ar gyfer pob cilomedr sgwâr o'r DU. Caiff y model ei raddnodi o'i gymharu â mesuriadau a gymerir o rwydwaith monitro ansawdd aer cenedlaethol y DU.

$NO_2$ yw'r fformiwla gemegol ar gyfer Nitrogen deuocsid, sef un o'r llygryddion aer mwyaf cyffredin. Ystyr Deunydd Gronynnol 10 a Deunydd Gronynnol 2.5 yw'r Deunydd Gronynnol 10 a 2.5 micromedr (micron) neu lai, yn y drefn honno, sydd yn yr awyr.

Disgwylir i ddata ar gyfer 2021 gael ei ryddhau ym mis Tachwedd 2023, ac felly mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y cyfnod monitro hwn yn seiliedig ar ddata 2020, sy'n dangos gostyngiad ar draws pob crynodiad (fel y dangosir yn Nhabl 38). Mae hyn yn datgelu effaith gadarnhaol mewn perthynas ag Amcan 10 AAS i ddiogelu a gwella ansawdd aer ym Mhowys. Mae angen monitro tymor hwy i ddadansoddi a yw'r duedd hon yn parhau.

**Tabl 38. Y Lefelau Cyfartalog o Grynodiadau $NO_2$, Deunydd Gronynnol 2.5 a Deunydd Gronynnol 10 (Mewn µg/$M^3$) (A Gofnodwyd ar ffurf Dangosyddion Cysylltiad Ansawdd Aer) ledled Powys.**

| Blwyddyn | $NO_2$ | Deunydd Gronynnol 2.5 | Deunydd Gronynnol 10 |
|---|---|---|---|
| **2020** | 3 | 5 | 9 |
| **2019** | 4 | 7 | 10 |
| **2018** | 4 | 6 | 10 |
| **2017** | 4 | 6 | 9 |
| **2016** | 5 | 6 | 10 |
| **2015** | 4 | 7 | 10 |
| **2014** | 5 | 8 | 11 |
| **2013** | 6 | 8 | 12 |

| **Pwnc yr AAS:** | **Aer** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Ansawdd Aer |
| **Dangosydd 18:** | **Lefelau penodol o NO2 yn erbyn Amcanion Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol ar draws Powys.** |
| **Tasg:** | Adolygu gwybodaeth sydd gan adran Iechyd yr Amgylchedd CSP. |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**Dadansoddiad**

Mae Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Cyngor Sir Powys, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022, ac sy'n defnyddio data a gasglwyd yn 2021, yn esbonio nad oedd unrhyw safleoedd monitro awtomatig yn gweithredu yn y sir, ond eu bod wedi cynnal gwaith monitro anawtomatig (goddefol) o NO2 ar ddau safle yn ystod 2021. Roedd y ddau safle hyn o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB).

Mae canlyniadau'r gwaith monitro ar gyfer 2021 wedi'u hymgorffori yn Nhabl 39.

Nid oedd y data crynodiad cymedrig blynyddol a gofnodwyd ar gyfer $NO_2$ yn ystod 2021, ym mhob un o'r safleoedd monitro, yn uwch na lefel amcan AQS cymedrig blynyddol $NO_2$ o 40µg/m3.

Mae Cyngor Sir Powys yn cynnig monitro tiwbiau tryledu $NO_2$ ar dri safle yn ystod 2022. Mae dau o'r safleoedd hyn o fewn CDLl Powys, sef Rhaeadr a'r Drenewydd, ac mae'r trydydd o fewn PCBB yng Nghrucywel. Bydd canfyddiadau'r rhain yn cael eu hadrodd tua diwedd 2023. Mae datblygiad newydd 21/1865/FUL (Newid defnydd o ran o faes parcio i orsaf fysiau) yn Lôn y Felin yn y Trallwng wedi'i nodi fel un a allai gael effaith ar ansawdd aer yn ardal yr Awdurdod Lleol, a bydd yn cael ei ystyried yn yr adroddiad hefyd.

Mae'r canlyniadau yn dangos effaith gadarnhaol mewn cysylltiad ag Amcan 10 yr AAS, sef diogelu a gwella ansawdd yr aer ym Mhowys. Gyda gwaith monitro mwy hirdymor, gellir cadarnhau a fydd y duedd yn parhau.

**Tabl 39. Y Crynodiadau Cymedrig Blynyddol o $NO_2$ (mewn µg/m$^3$) mewn Safleoedd Monitro ym Mhowys, fesul Blwyddyn ers 2013**

| Rhif Adnabod y Safle | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **POW (M) 1** | 31.9 | 28.8 | 29 | 31 | 38 | 38 | 26 | 21.6 | Amh. |
| **POW (M) 2** | 32.9 | 33.9 | 29 | 32 | 37 | 29 | 22 | 18.8 | Amh. |
| **POW (M)** 3, 4, 5 | 39.5 | 38.1 | 38 | 39 | 36 | 37 | 24 | 19.7 | Amh. |
| **POW (M) 6** | 36.6 | 33 | 30 | 32 | 33 | 30 | 22 | 18.2 | Amh. |
| **POW (M) 7** | 10.4 | 9.4 | 9 | 11 | 9 | 9 | 8 | 6.8 | Amh. |
| **WG 6-7** | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 11.1 | 12.2 |
| **WG 8** | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | 13.1 | 14.9 |

## Pwnc yr AAS: Ffactorau hinsawdd

| **Pwnc yr AAS — Ffactorau hinsawdd** |
| --- |
| **Amcan 11: Lleihau'r perygl o lifogydd.**<br>**Amcan 12: Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.** |
| Dangosydd 19 — Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) lle mae lefel y risg gan afonydd a'r môr yn ganolig neu uchel. |
| Dangosydd 20 — Allyriadau nwyon tŷ gwydr |

| **Pwnc yr AAS:** | **Ffactorau hinsawdd** |
|---|---|
| **Is-bwnc:** | Risg o lifogydd |
| **Dangosydd 19:** | **Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) lle mae lefel y risg gan afonydd a'r môr yn ganolig neu uchel.** |
| **Tasg:** | Adolygu mapiau CNC o ran y risg o lifogydd. |
| **Amserlen:** | Yn flynyddol. |

**<u>Dadansoddiad</u>**

Mae'r dangosydd AAS hwn yn monitro perfformiad Polisi DM5 — Datblygu a Pherygl o Lifogydd y CDLl. Mae'r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu gael eu lleoli oddi wrth orlifdiroedd llanw ac afonol oni bai eu bod nhw'n gallu dangos cyfiawnhad dros y safle yn unol â chanllawiau cenedlaethol a bod asesiadau technegol priodol yn cyd-fynd ag ef. Daw'r data a ddefnyddir i fonitro'r dangosydd AAS hwn o wefan Lle, gan ddefnyddio'r set ddata ar gyfer Ardal Llifogydd 3 (Risg Canolig ac Uchel). Dadansoddwyd hyn â set ddata Cyngor Sir Powys ar gyfer Cyfeirnodau Eiddo Unigryw yn y sir, sy'n cynnwys cartrefi a busnesau.

Unwaith y bydd cyfeiriadau o fewn y Parc Cenedlaethol wedi'u dileu, datgelodd dadansoddiad o'r ddwy set ddata fod cyfanswm o 4848 eiddo bellach wedi'u cynnwys yng nghategori Parth Llifogydd 3. Mae hyn yn cymharu â 4,466 o AMB 2022 (2021-2022) a'r llinell sylfaen o 4,264 eiddo a nodwyd yn yr Adolygiad Monitro (17 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 382 o gyfeiriadau ar gyfanswm y llynedd, a 584 o'r llinell sylfaen. Nid yw'r cynnydd o reidrwydd o ganlyniad i ganiatâd cynllunio newydd, ond mae'n ymwneud yn fwy â newidiadau i haen Map Llifogydd ac ychwanegu cyfeiriadau a grëwyd ar unedau twristiaeth, gyda 46 o gyfeiriadau'n cael eu hychwanegu ar faes carafanau gwyliau sefydledig yn Llangynog, 55 ychwanegol mewn maes carafanau yn Llangynyw a 29 o gyfeiriadau ychwanegol mewn maes carafanau yn Nhrefeglwys. Yn ogystal, mae 46 o gyfeiriadau wedi'u hychwanegu ar gyfer datblygiad preswyl yng Nghegidfa a gafodd ganiatâd gan Apêl yn 2007.

Nid yw'r newid hwn yn awgrymu methiant ar ran Polisi DM5 y CDLl, oherwydd bod Ardal Llifogydd 3 yn cynnwys Ardal Llifogydd C1, sef yr ardaloedd hynny a ddiogelir gan amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae oediad anochel hefyd rhwng rhoi caniatâd a chyfeiriad a gwblhawyd sy'n

